Rhif Ymchwil Cymdeithasol:

75/2024

Dyddiad Cyhoeddi: 05/11/2024

# Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-781-3

Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

IFF Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: IFF Research (2024). Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 75/2024.

Ar gael trwy droi at: https://www.llyw.cymru/diogelwch-tan-mewn-adeiladau-aml-feddiannaeth-ymchwil-trigolion

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Enw:

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: housingresearchteam@gov.wales

# Cynnwys


Rhestr tablau .......... 2
Rhestr ffigurau .......... 4
1. Geirfa .......... 5
2. Cyflwyniad a chefndir .......... 6
3. Trosolwg o'r fethodoleg .......... 8
4. Cyflwyno'r segmentau preswylwyr .......... 9
5. Agweddau ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân .......... 19
6. Ymddygiad diogelwch tân .......... 31
7. Mynegi cwynion, a pherthnasoedd rhwng preswylwyr a rheolwyr adeiladau .......... 40
8. Cyfleu negeseuon diogelwch tân .......... 46
9. Casgliadau .......... 53
Atodiad A – Cwestiynau Ymchwil .......... 56
Atodiad B – Methodoleg .......... 59
Atodiad C – Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth .......... 71

## Rhestr tablau

Tabl 5.1 Nodweddion segment ‘Hunanddibynnol’ o’u cymharu â’r holl breswylwyr a holwyd ........ 11
Tabl 5.2 Nodweddion segment ‘Pryderus ond gydag amheuon’ o’u cymharu â’r holl breswylwyr a holwyd ........ 12
Tabl 5.3 Nodweddion segment ‘Diogel a chysurus’ o’u cymharu â’r holl breswylwyr a holwyd ........ 14
Tabl 5.4 Nodweddion segment ‘Bodlon ac ymddiriedus’ o’u cymharu â’r holl breswylwyr a holwyd ........ 15
Tabl 5.5 Nodweddion segment ‘Heb fod yn ymgysylltu’ o’u cymharu â’r holl breswylwyr a holwyd ........ 16
Tabl 5.6 Nodweddion segment ‘Anniogel ac anweithredol’ o’u cymharu â’r holl breswylwyr a holwyd ........ 17
Tabl 7.1 Canran y preswylwyr sydd ag offer diogelwch tân yn y cartref ac mewn ardaloedd cymunol neu a rennir yn yr adeilad ........ 39
Tabl D.1 Ymgysylltu dinesig: Canran a oedd wedi ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol yn ystod y 12 mis diwethaf ........ 82
Tabl D.2 Canran sy’n ymddiried yn y llywodraeth ac mewn sefydliadau ........ 84
Tabl D.3 Canran sy’n cytuno gyda datganiadau am reolwyr eu hadeilad ........ 84
Tabl D.4 Canran sy’n cytuno gyda datganiadau am gyfrifoldeb tân ........ 85
Tabl D.5 Canran sy’n ymddwyn mewn ffyrdd sy’n ymwneud â diogelwch tân ........ 85
Tabl D.6 Canran sy’n ymddwyn mewn ffyrdd peryglus o ran diogelwch tân, ‘bob amser’ neu’n ‘aml’ ........ 87
Tabl D.7 Canran sy’n ymddwyn mewn ffyrdd peryglus o ran diogelwch tân, ‘o leiaf unwaith y mis’ ........ 88
Tabl D.8 Canran sydd wedi ymddwyn mewn ffyrdd mwy peryglus o ran diogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf ........ 88
Tabl D.9 Grŵp oedran ........ 89
Tabl D.10 Rhyw ........ 91
Tabl D.11 Cyfansoddiad yr aelwyd ........ 91
Tabl D.12 Statws anabledd ........ 92
Tabl D.13 Cenedligrwydd ........ 93
Tabl D.14 Ethnigrwydd ........ 93
Tabl D.15 Statws cyflogaeth ........ 94
Tabl D.16 Deiliadaeth ........ 94

Tabl D.17 Categori yr adeilad ......................................................................................95
Tabl D.18 A oes cladin fflamadwy ar yr adeilad (adroddwyd gan breswylwyr)....................96

## Rhestr ffigurau

Ffigur 5.1 Segmentau preswylwyr ........ 10
Ffigur 6.1 Mathau o Wybodaeth Diogelwch Tân a Gafwyd ........ 19
Ffigur 6.2 Prif bryderon preswylwyr am eu cartref a'r man lle y maent yn byw ........ 21
Ffigur 6.3 Diogelwch tân yn y cartref neu yn yr adeilad fel prif bryder, fesul segment ........ 23
Ffigur 6.4 Cyfrifoldeb canfyddedig dros gymryd camau i leihau risg tân yn y cartref, fesul segment ........ 26
Ffigur 6.5 Hyder o wybod pa gamau i'w cymryd pe bai tân mewn cegin, fesul segment ........ 27
Ffigur 6.6 Hyder y gallai'r holl bobl yn yr aelwyd, a nhw, adael eu hadeilad yn ddiogel pe bai tân, fesul segment ........ 29
Ffigur 6.7 Rhesymau pam nad yw preswylwyr yn teimlo'n hyderus am adael eu hadeilad yn ddiogel pe bai tân ........ 29
Ffigur 7.1 Amlder ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân mewn ardaloedd cymunol yr adeilad, 'bob amser' neu'n 'aml' ........ 32
Ffigur 7.2 Amlder ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân yn y cartref, o leiaf unwaith y mis ........ 35
Ffigur 7.3 Preswylwyr yn adrodd am Ymddygiad Diogelwch Tân mwy Peryglus yn ystod y 12 mis diwethaf ........ 37
Ffigur 9.1 Sianelau cyfryngau lle y gwelwyd neu lle y cafwyd gwybodaeth am ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf ........ 48
Demograffeg ........ 89

# 1. Geirfa

## Person Atebol

person fydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros ddiogelwch yr adeilad preswyl dan gynigion diogelwch adeiladau Llywodraeth Cymru

## Adeiladau Categori 1 neu 2

At ddibenion yr ymchwil hwn, os bydd preswylydd yn adrodd bod eu hadeilad yn cynnwys 7 llawr neu fwy (18m neu'n uwch), caiff ei ddosbarthu fel adeilad categori 1. Os yw'n 6 llawr neu'n llai (dan 18m), caiff ei ddosbarthu fel adeilad categori 2

## Adrannu

Gallu strwythur adeilad i ddal tân yn yr ystafell neu'r fflat lle y mae'n cychwyn, fel bod modd ei ddiffodd cyn y gall ledaenu;  mae'n dibynnu ar waliau, lloriau a drysau (ond nid ffenestri mewn waliau allanol) yn cael eu hadeiladu a'u cynnal yn unol â safonau gwrthsefyll tân priodol

## Adeiladau amlfeddiannaeth

unrhyw adeilad sy'n cynnwys dwy uned breswyl neu fwy, gyda neu heb ddrws ffrynt a rennir

# 2. Cyflwyniad a chefndir

2.1 Gan ymateb i drychineb Tŵr Grenfell, yr ymchwiliad cyhoeddus dilynol a'r Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân (2018) gan y Fonesig Judith Hackitt, mae Rhaglen Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r gyfundrefn diogelwch adeiladau ar gyfer yr holl adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru sy'n cynnwys dwy uned breswyl neu fwy. Bydd hyn yn arwain at ddiwygiadau helaeth i'r ffordd yr ydym yn dylunio, yn adeiladu, yn rheoli ac yn byw mewn adeiladau amlfeddiannaeth yng Nghymru. Argymhellodd adolygiad y Fonesig Hackitt y dylid ailddatgan rôl preswylwyr wrth wella diogelwch adeiladau. Yn ogystal ag argymell llwybr heb risg er mwyn gwneud iawn, roedd yr Adolygiad yn datgan y dylai preswylwyr ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ar gyfer eu diogelwch nhw a diogelwch eu cymdogion.

2.2 Roedd Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru (2021) yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig, gan gynnwys 'ailwampio'n llwyr' y cam o feddiannu adeiladau amlfeddiannaeth, sy'n 'gofyn am newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol sylweddol gan bawb sy'n ymwneud â'r maes hwn'. Mae hefyd yn cynnwys cyflwyno dyletswyddau arfaethedig yn ystod y cam meddiannu a sut y bydd yr holl Bersonau Atebol yn ymgysylltu â phreswylwyr. Bydd gan Bersonau Atebol gyfrifoldebau newydd, a fydd yn gwella hawliau preswylwyr yn ystod y cam meddiannu. Mae hyn yn cynnwys: hyrwyddo diogelwch adeiladau ac ymgysylltu â phreswylwyr, cynnig ffordd i breswylwyr fynegi cwynion a hysbysu preswylwyr o'u dyletswyddau dan y gyfundrefn newydd, a fydd yn cynorthwyo diogelwch adeiladau.

## Amcanion a chwestiynau ymchwil

2.3 Yn erbyn y cefndir hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru IFF Research i gynnal gwaith ymchwil er mwyn helpu i ddatblygu hawliau, rolau a chyfrifoldebau preswylwyr o set o egwyddorion i fod yn set o ymyriadau ymddygiadol effeithiol y bydd modd eu gweithredu.

## Amcanion y gwaith ymchwil

2.4 Archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth preswylwyr o ddiogelwch tân ar draws pob math o ddeiliadaeth adeilad a grwpiau demograffig.

2.5 Archwilio sut y mae preswylwyr yn ymgysylltu â strwythurau a systemau rheoli adeiladau, gan gynnwys y systemau sydd mewn grym ar gyfer archwiliadau adeiladau ac aelwydydd a'r broses o wneud cwynion diogelwch tân.

2.6 Archwilio ymddygiad preswylwyr yng Nghymru mewn perthynas â diogelwch tân, er mwyn nodi ymyriadau ymddygiadol posibl.

2.7 Creu teipoleg o adeiladau a phreswylwyr yng Nghymru, gan ddefnyddio demograffeg preswylwyr a nodweddion adeiladau ffisegol i hwyluso segmentu dulliau polisi yn y dyfodol.

2.8 Ehangodd Llywodraeth Cymru yr amcanion hyn gyda 24 cwestiwn ymchwil er mwyn i'r gwaith ymchwil gyflawni'r amcanion hyn ac ystyried y dulliau cyfathrebu a'r ymyriadau mwyaf effeithiol er mwyn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu gyda diogelwch tân ac ysgogi ymddygiad diogelwch tân cadarnhaol. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr lawn o'r cwestiynau ymchwil.

# 3. Trosolwg o'r fethodoleg

3.1 Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn, a rhoddir manylion pellach yn Atodiad B – Methodoleg.

3.2 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar ffurf tri phrif cam.

## Cam 1 - Cwmpasu

3.3 Yn y cam hwn, cynhaliodd IFF Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid er mwyn casglu tystiolaeth ynghylch diogelwch adeiladau a diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Defnyddiwyd hwn i gyfrannu at gynllun a chynnwys y camau ymchwil sylfaenol dilynol.

3.4 Ar ddiwedd y cam hwn, cynhaliwyd gweithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r damcaniaethau i'w profi yn ystod y gwaith ymchwil sylfaenol, a dechrau ystyried ymyriadau polisi posibl. Strwythurwyd y gweithdy hwn, a'r gwaith ymchwil sylfaenol dilynol, o gwmpas model COM-B er mwyn helpu i nodi rhwystrau, galluogwyr ac ymyriadau ymddygiadol a allai wella ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Mae model COM-B yn cynnwys ysgogwyr gallu, cyfle a chymhelliant wrth ystyried yr ymddygiad dilynol ac ymyriadau posibl. Rhoddir esboniad pellach yn Atodiad B1

## Cam 2 Ymchwil Sylfaenol – arolwg preswylwyr

3.5 Roedd Cam 2 yn cynnwys arolwg ar-lein ar gyfer 1,562 o breswylwyr adeiladau amlfeddiannaeth yng Nghymru. Roedd yn cynnwys amrediad o agweddau ac ymddygiad diogelwch tân ac yn casglu gwybodaeth am y preswylwyr eu hunain a'r adeilad y maent yn byw ynddo. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 14 Mehefin 2023 ac 1 Awst 2023.

3.6 Lluniwyd ffrâm y sampl ar gyfer yr arolwg gan ddefnyddio Cyfleuster Chwilio Cyfeiriad Cod Post (PAF) y Post Brenhinol i nodi cyfeiriadau posibl mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Trwy gyfrwng y dull hwn, nodwyd dros 100,000 o gyfeiriadau, a dewiswyd 15,500 ar hap i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg.

## Cam 3 Ymchwil Sylfaenol – cyfweliadau ansoddol gyda phreswylwyr

3.7 Roedd y cam casglu data terfynol yn cynnwys cyfweliadau ansoddol gyda 24 o breswylwyr a ddewiswyd ar sail eu nodweddion a'u hymatebion i'r arolwg, er mwyn casglu amrediad o brofiadau a safbwyntiau. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn rhwng 18 Hydref 2023 a 9 Tachwedd 2023.

---

[1] Am esboniad manwl, gweler: Michie S et al (2014) *The Behaviour Change Wheel: A Guide to Designing Interventions*. Silverback Publishing.

### Dadansoddiad

3.8 Cyflwynir ystadegau disgrifiadol ar gyfer data yr arolwg, ac adroddir am wahaniaethau rhwng is-grwpiau os oeddent yn ystadegol arwyddocaol ar lefel ‘cyfwng hyder 95%’ gan ddefnyddio profion-z ar ganrannau a phrofion-t ar fodd. Yn ogystal, segmentwyd cyfranogwyr yr arolwg yn unol â’u hymddygiad a’u hagweddau tuag at ddiogelwch tân. Cyflwynir y canfyddiadau disgrifiadol yn rhannol trwy lens y segmentau hyn er mwyn gallu ystyried yr ymyrraeth briodol ar gyfer y math hwn o breswylydd. Felly, rydym yn cyflwyno canfyddiadau’r segmentu hwn yn gyntaf cyn disgrifio’r ymatebion i gwestiynau’r arolwg.

3.9 Trawsgrifiwyd a dadansoddwyd cyfweliadau ansoddol gan ddefnyddio egwyddorion sefydledig dadansoddi fframwaith, gan drefnu’r testun yn unol â’r cwestiynau ymchwil ac archwilio’r data ar gyfer themâu a oedd yn dod i’r amlwg.2


# 4. Cyflwyno’r segmentau preswylwyr

4.1 Anaml y mae ymyriadau ymddygiadol yn gweithio mewn ffordd gyson ar draws y boblogaeth. Yn hytrach, gall deall sut y mae pobl sydd ag agweddau ac ymddygiad tebyg yn clystyru ynghyd, helpu i siapio ymyrraeth polisi neu gyfathrebu sy’n fwy tebygol o ymgysylltu gwahanol ‘segmentau’ o’r boblogaeth, gan effeithio ar eu hymddygiad. Gosodwyd yr holl gyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg ar-lein mewn un o chwech segment yn unol â’u hagweddau a’u hymddygiad tuag at ddiogelwch tân, a gasglwyd ar draws 31 o wahanol gwestiynau. Lluniwyd y segmentau gan ddefnyddio dadansoddiad dosbarth cudd, sy’n ystyried gwahaniaethau rhwng y ffordd y mae pobl yn defnyddio graddfeydd sgorio, er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar wir wahaniaethau.

4.2 Mae’r bennod hon yn cyflwyno maint a nodweddion cyffredin pob segment. Rhoddir manylion llawn yn Atodiad D – proffil o’r Segmentau. Rhoddwyd enw i bob segment er mwyn ei gwneud yn hawdd eu hadnabod, er na all enwau grynhoi arlliw o nodweddion pob segment. Dangosir maint cymharol y segmentau yn Ffigur 5.1 isod.

[2] Ritchie, J. a Spencer, L. (1994) Qualitative Data Analysis for Applied Policy Research. Yn: Bryman, A. and Burgess, B., Eds., Analyzing Qualitative Data, Routledge, Llundain

**Ffigur 5.1 Segmentau preswylwyr**




Ffynhonnell: segmentau a ddatblygwyd o agweddau ac ymddygiad preswylwyr a adroddwyd yn arolwg “Ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth”. (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

## Segment 1: 'Hunanddibynnol'

4.3 Gosodwyd 28% o'r preswylwyr yng nghategori 'Hunanddibynnol'. Roeddent yn teimlo eu bod yn gwybod yr hyn i'w wneud, a'r hyn na ddylid ei wneud, os bydd tân. O ran demograffeg, roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod yn wrywaidd (54%, o'u cymharu â 46% o'r holl breswylwyr a holwyd) ac yn fwy tebygol o fod yn 55+ oed (49%, o'u cymharu â 36% o'r holl breswylwyr a holwyd).

**Tabl 5.1 Nodweddion segment 'Hunanddibynnol' o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd**

| Ymagwedd bersonol | Gwybodaeth ac agweddau | Ymddygiad | Demograffeg a deiliadaeth |
|---|---|---|---|
| Llai tebygol o ymddiried yn Llywodraeth Cymru (8% o'r segment o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr) a'u cyngor lleol (7% o'r segment o'i gymharu â 30% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod wedi cael hyfforddiant a gwybodaeth diogelwch tân (67% o'r segment o'i gymharu â 61% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân yn y cartref | Mwy tebygol o fod yn wrywaidd (54% o'r segment o'i gymharu â 46% o'r holl breswylwyr) |
| Llai tebygol o fod yn pryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu eu hadeilad (16% o'r segment o'i gymharu â 24% o'r holl breswylwyr) | Teimlo bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu cartref (98% o'r segment o'i gymharu â 92%) | Llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân yn rhannau cymunol eu hadeilad (9% o'r segment o'i gymharu â 15% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn 55+ oed (49% o'r segment o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr) |
| | Yn fwy hyderus ynghylch cael aelodau'r aelwyd allan o'r cartref pe byddai tân (91% o'r segment o'i gymharu â 70% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fynegi pryderon am ddiogelwch tân (91% o'r segment o'i gymharu ag 80% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o nodi eu bod yn Wyn, Prydeinig (87% o'r segment o'i gymharu ag 83% o'r holl breswylwyr) ac yn ddinesydd Prydeinig (77% o'r segment o'i gymharu â 71% o'r holl breswylwyr) |
| | | | Mwy tebygol o fod berchen-feddiannydd (31% o'r segment o'i gymharu â 24% o'r holl breswylwyr) |
| | | | Mwy tebygol o fod yn byw ar eu pen eu hunain |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | (61% o'r segment o'i gymharu â 55% o'r holl breswylwyr) |

Ffynhonnell: Arolwg preswylwyr "Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth". (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

## Segment 2: 'Pryderus ond gydag amheuon'

4.4 Gosodwyd 27% o'r preswylwyr yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon'. Roeddent yn fwy tebygol o fod yn pryderu am ddiogelwch tân ac roeddent yn aml yn teimlo mai'r risg mwyaf o ran diogelwch tân yw eu hadeilad, ac nad oes fawr iawn y gallant ei wneud i ddatrys hyn. Roedd y grŵp hwn yn tueddu i fod yn fenywaidd (55%, o'u cymharu â 49% o'r holl breswylwyr a holwyd) ac yn iau fel arfer (42% yn 18-34 oed, o'u cymharu â 36% o'r holl breswylwyr a holwyd).

**Tabl 5.2 Nodweddion segment 'Pryderus ond gydag amheuon' o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd**

| Ymagwedd bersonol | Gwybodaeth ac agweddau | Ymddygiad | Demograffeg a deiliadaeth |
|---|---|---|---|
| Llai tebygol o ymddiried yn Llywodraeth Cymru (6% o'r segment o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr), a'u cyngor lleol (3% o'r segment o'i gymharu â 30% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o gytuno bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu cartref (88% o'r segment o'i gymharu â 92% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o ymddwyn mewn rhai ffyrdd peryglus yn y cartref o ran diogelwch tân, megis cynnau canhwyllau neu arogldarth (52% o'r segment o'i gymharu â 40% o'r holl breswylwyr), cael tân agored neu wresogydd ystafell annibynnol (13% o'r segment o'i gymharu ag 8% o'r holl breswylwyr), ysmygu y tu mewn (11% o'r segment o'i gymharu â 7% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn fenywaidd (55% o'r segment o'i gymharu â 49% o'r holl breswylwyr) |
| Yn ymgysylltu llai gyda gwybodaeth a ddarparwyd am eu hadeilad | Llai hyderus y byddent yn gallu cael aelodau'r aelwyd allan o'r cartref pe byddai tân (50% o'r segment o'i gymharu â'r holl breswylwyr a | Llai tebygol o fynegi pryderon diogelwch tân yn y dyfodol (71% o'r segment o'i gymharu ag 80% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn 18-34 oed (42% o'r segment o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | holwyd (70% o'r holl breswylwyr) | | |
| Mwy tebygol o anghytuno na chaiff eu hadeilad ei gynnal a'i gadw yn dda (43% o'r segment o'i gymharu ag 21% o'r holl breswylwyr) | Yn ymgysylltu llai gyda llythyrau neu hysbysiadau am eu hadeilad (73% o'r segment o'i gymharu ag 82% o'r holl breswylwyr) | | Mwy tebygol o nodi eu bod yn Wyn, Prydeinig (86% o'r segment o'i gymharu ag 83%), ac yn ddinesydd Prydeinig (74% o'r segment o'i gymharu â 71% o'r holl breswylwyr) |
| Mwy tebygol o fod yn pryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu eu hadeilad (33% o'r segment o'i gymharu â 24% o'r holl breswylwyr) | | | Mwy tebygol o fod yn anabl (38% o'r segment o'i gymharu â 33%<br><br>Mwy tebygol o gael cyflwr iechyd meddwl (24% o'r segment o'i gymharu â 15% o'r holl breswylwyr) neu salwch, clefyd neu gyflwr hirdymor arall (19% o'r segment o'i gymharu â 15% o'r holl breswylwyr) |
| | | | Mwy tebygol o fod yn byw mewn llety rhent cymdeithasol (33% o'r segment o'i gymharu â 28% o'r holl breswylwyr) |

Ffynhonnell: Arolwg preswylwyr "Ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth". (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

## Segment 3: 'Diogel a chysurus'

4.5 Gosodwyd 24% o'r preswylwyr yn segment 'Diogel a chysurus'. Er bod y grŵp hwn yn teimlo bod eu hadeilad yn ddigon diogel pe byddai tân ac roeddent yn ymddiried yn yr awdurdodau sy'n gyfrifol am leihau risgiau tân gymaint ag y bo modd, roeddent yn parhau i adrodd mwy o bryder am ddiogelwch tân na'r holl breswylwyr a holwyd. Wedi dweud hynny, nid oedd ganddynt lefelau hyder uchel iawn yn eu hymddygiad diogelwch tân ond nid oeddent yn ymddwyn mewn ffordd beryglus yn gyffredinol.

**Tabl 5.3 Nodweddion segment 'Diogel a chysurus' o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd**

| Ymagwedd bersonol | Gwybodaeth ac agweddau | Ymddygiad | Demograffeg a deiliadaeth |
|---|---|---|---|
| Mwy tebygol o fod wedi ymgysylltu â 3-4 o weithgareddau dinesig yn ystod y mis diwethaf (20% o'r segment o'i gymharu â 15% o'r holl breswylwyr) | Yn ymgysylltu yn fwy gyda llythyrau neu hysbysiadau am eu hadeilad (91% o'r segment o'i gymharu ag 82% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân mewn rhannau cymunol o'r adeilad (6% o'r segment o'i gymharu â 15% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn fenywaidd (55% o'r segment o'i gymharu â 49% o'r holl breswylwyr) |
| Yn ymddiried mwy yn Llywodraeth Cymru (70% o'r segment o'i gymharu â 36%), a'u cyngor lleol (59% o'r segment o'i gymharu â 30% o'r holl breswylwyr). | Mwy tebygol o gytuno bod ganddynt gyfrifoldeb diogelwch tân yn eu cartref (99% o'r segment o'i gymharu â 92% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fynegi pryderon am ddiogelwch tân yn y dyfodol (84% o'r segment o'i gymharu ag 80% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn berchen-feddiannydd (31% o'r segment o'i gymharu â 24% o'r holl breswylwyr) |
| Mwy tebygol o fod yn pryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu eu hadeilad (29% o'r segment o'i gymharu â 24% o'r holl breswylwyr) | | | Mwy tebygol o nodi eu bod yn ddinesydd Prydeinig (76% o'r segment o'i gymharu â 71% o'r holl breswylwyr) |
| | | | Mwy tebygol o fod yn 65+ oed (26% o'r segment o'i gymharu â 22% o'r holl breswylwyr) |

Ffynhonnell: Arolwg preswylwyr "Ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth". (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

## Segment 4: 'Bodlon ac ymddiriedus'

4.6 Roedd hwn yn segment llai, gan gynrychioli tua 8% sy'n fodlon â'u hadeilad yn gyffredinol, sy'n ymgysylltu tipyn gyda diogelwch ac sy'n ymddiried yn fwy yn y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeiladau. Roeddent yn llai tebygol o nodi eu bod yn Brydeinig.

**Tabl 5.4 Nodweddion segment 'Bodlon ac ymddiriedus' o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd**

| Ymagwedd bersonol | Gwybodaeth ac agweddau | Ymddygiad | Demograffeg a deiliadaeth |
|---|---|---|---|
| Llai tebygol o fod wedi ymgysylltu ag unrhyw weithgareddau dinesig yn ystod y misoedd diwethaf<br>(67% o'r segment o'i gymharu â 51% o'r holl breswylwyr) | Mwy hyderus y byddent yn gallu cael aelodau'r aelwyd allan o'r cartref pe bai tân (91% o'r segment o'i gymharu â'r holl breswylwyr a holwyd (70% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus yn y cartref o ran diogelwch tân ac eithrio coginio gan ddefnyddio sosban sglodion o leiaf unwaith y mis (17% o'r segment o'i gymharu â 10% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o nodi eu bod yn ddinesydd Prydeinig (42% o'r segment o'i gymharu â 71% o'r holl breswylwyr) |
| Mwy tebygol o ymddiried yn Llywodraeth Cymru<br>(93% o'r segment o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr), a'u cyngor lleol (90% o'r segment o'i gymharu â 30% o'r holl breswylwyr) | | Llai tebygol o gadw drysau tân ar gau mewn ardaloedd cymunol o'r adeilad<br>(47% o'r segment o'i gymharu â 59% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol (36% o'r segment o'i gymharu â 19% o'r holl breswylwyr) |
| Mwy tebygol o ymgysylltu â gwybodaeth am eu hadeilad (91% o'r segment o'i gymharu ag 82% o'r holl breswylwyr), a theimlo ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda (90% o'r segment o'i gymharu â 65% o'r holl breswylwyr) | | Mwy tebygol o gadw sbwriel y tu allan i'w cartref yn y coridor cyn mynd ag ef i'r ardal gwaredu gwastraff (12% o'r segment o'i gymharu â 5% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn talu rhent cymdeithasol (43% o'r segment o'i gymharu ag 28% o'r holl breswylwyr) |
| Llai tebygol o fod yn pryderu am ddiogelwch tân yn eu cartref neu eu hadeilad (13% o'r segment o'i gymharu â 24% o'r holl breswylwyr) | | | Mwy tebygol o fod mewn sefyllfa lle y mae eu cartref presennol yn cynrychioli eu profiad cyntaf o fyw bywyd annibynnol (20% o'r segment o'i gymharu ag 8% o'r holl breswylwyr) |
| | | | Mwy tebygol o nodi eu bod yn wrywaidd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | (54% o'r segment o'i gymharu â 46% o'r holl breswylwyr) |
| | | | Mwy tebygol o fod yn byw gyda phlant iau dan 16 oed (15% o'r segment o'i gymharu â 9% o'r holl breswylwyr) |

Ffynhonnell: Arolwg preswylwyr "Ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth". (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

## Segment 5: 'Heb fod yn ymgysylltu'

4.7 Byddai modd ystyried bod wyth% o breswylwyr heb fod yn ymgysylltu â diogelwch tân yn eu hadeilad. O ran nodweddion demograffig y grŵp hwn, roeddent yn llawer llai tebygol o nodi eu bod yn ddinesydd Prydeinig.

**Tabl 5.5 Nodweddion segment 'Heb fod yn ymgysylltu' o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd**

| Ymagwedd bersonol | Gwybodaeth ac agweddau | Ymddygiad | Demograffeg a deiliadaeth |
|---|---|---|---|
| Llai tebygol o fod wedi ymgysylltu ag unrhyw weithgareddau dinesig yn ystod y 12 mis diwethaf (13% o'r segment o'i gymharu â 49% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o fod yn ymwybodol o/ wedi cael gwybodaeth diogelwch tân sydd am eu hadeilad nhw yn benodol (28% o'r segment o'i gymharu â 38% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o goginio gan ddefnyddio sosban sglodion (31% o'r segment o'i gymharu â 10% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o nodi eu bod yn ddinesydd Prydeinig (58% o'r segment o'i gymharu â 71% o'r holl breswylwyr) |
| Yn ymddiried mwy yn Llywodraeth Cymru (71% o'r segment o'i gymharu â 36%), a'u cyngor lleol (61% o'r segment o'i gymharu â 30% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o gytuno bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu cartref (61% o'r segment o'i gymharu â 92% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o ysmygu yn eu cartref (13% o'r segment o'i gymharu â 7% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o dalu rhent cymdeithasol (41% o'r segment o'i gymharu ag 28% o'r holl breswylwyr) |
| Llai tebygol o ymgysylltu â gwybodaeth am eu hadeilad (67% o'r segment o'i gymharu ag 82% o'r holl breswylwyr) | Llai hyderus y byddent yn gallu cael aelodau eu haelwyd allan o'r cartref pe bai tân (55% o'r segment o'i gymharu â 70% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o fod wedi mynegi unrhyw bryderon neu gwynion yn ystod y 12 mis diwethaf (19% o'r segment o'i gymharu â 39% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn 35-54 oed (36% o'r segment o'i gymharu ag 28% o'r holl breswylwyr) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

Ffynhonnell: Arolwg preswylwyr "Ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth". (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

## Segment 6: 'Anniogel ac anweithredol'

4.8 Er mai hwn yw'r segment lleiaf, byddai modd ystyried bod saith% o breswylwyr yn y perygl mwyaf o achosi tân neu o beidio cymryd camau priodol er mwyn ymateb i dân. Roedd gan y grŵp hwn agwedd ddiystyriol tuag at ddiogelwch tân, gan ymddwyn mewn ffordd beryglus mewn perthynas â diogelwch tân yn rheolaidd, ac nid oedd yn ymddangos eu bod yn pryderu am y risgiau a allai ddeillio o'u gweithredoedd. Roedd preswylwyr yn y segment hwn yn iau, ac roedd 51% ohonynt yn 18-34 oed, o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr a holwyd.

**Tabl 5.6 Nodweddion segment 'Anniogel ac anweithredol' o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd**

| Ymagwedd bersonol | Gwybodaeth ac agweddau | Ymddygiad | Demograffeg a deiliadaeth |
|---|---|---|---|
| Nid oedd preswylwyr yn segment 'Anniogel ac anweithredol' yn amrywio'n fawr o ran eu hymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Lleol, o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd | Llai tebygol o fod wedi gweld/cael gwybodaeth neu hyfforddiant diogelwch tân (46% o'r segment o'i gymharu â 61% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o ysmygu yn eu cartref (14% o'r segment o'i gymharu â 7% o'r holl breswylwyr) | Llai tebygol o nodi eu bod yn ddinesydd Prydeinig (61% o'r segment o'i gymharu â 71% o'r holl breswylwyr) |
| | Llai tebygol o gytuno bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu cartref (82% o'r segment o'i gymharu â 92% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o ddefnyddio mwy nag un lîd estyn yn yr un soced plwg (42% o'r segment o'i gymharu ag 8% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn 18-34 oed (51% o'r segment o'i gymharu â 36% o'r holl breswylwyr) |
| | Llai hyderus yn eu gallu pe bai tân yn y gegin (76% o'r segment o'i gymharu | Mwy tebygol o goginio gan ddefnyddio sosban sglodion (23% o'r segment o'i | Mwy tebygol o fod yn byw yn eu cartref am y tro cyntaf fel oedolyn annibynnol (14% o'r segment o'i gymharu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ag 84% o'r holl breswylwyr) | gymharu â 10% o'r holl breswylwyr) | ag 8% o'r holl breswylwyr) |
| | | Mwy tebygol o goginio bwyd ar ôl yfed alcohol (35% o'r segment o'i gymharu â 13% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fyw mewn tŷ wedi'i drawsnewid (40% o'r segment o'i gymharu â 23% o'r holl breswylwyr) |
| | | Mwy tebygol o gynnau canhwyllau neu arogldarth (52% o'r segment o'i gymharu â 40% o'r holl breswylwyr) | Mwy tebygol o fod yn byw gyda ffrindiau neu gydletywyr (9% o'r segment o'i gymharu â 4% o'r holl breswylwyr) |
| | | Mwy tebygol o gael tân agored neu ddefnyddio gwresogyddion ystafell annibynnol (20% o'r segment o'i gymharu ag 8% o'r holl breswylwyr) | |
| | | Mwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân yn ardaloedd cymunol yr adeilad (65% o'r segment o'i gymharu â 15% o'r holl breswylwyr) | |
| | | Lleiaf tebygol o fynegi pryderon am ddiogelwch tân yn y dyfodol (53% o'r segment o'i gymharu ag 80% o'r holl breswylwyr) | |

Ffynhonnell: Arolwg preswylwyr "Ymddygiad diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth". (2023). Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

# 5. Agweddau ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân


5.1 Mae'r bennod hon yn archwilio ymwybyddiaeth preswylwyr o ddiogelwch tân yn eu cartref a'u hadeilad, a'u hagweddau tuag at hyn, gan gynnwys y graddau yr oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth neu hyfforddiant ynghylch diogelwch tân. Mae hefyd yn rhoi sylw i faterion megis hyder preswylwyr wrth ymateb i dân. Tynnir tystiolaeth o'r arolwg ar-lein a chyfweliadau manwl ansoddol. Rydym yn defnyddio'r segmentau a ddisgrifiwyd yn y bennod flaenorol i ddeall yn well sut y mae'r agweddau hyn yn tueddu i glystyru ymhlith gwahanol grwpiau o breswylwyr.

## Cofio gweld neu gael gwybodaeth neu hyfforddiant am ddiogelwch tân

5.2 Adroddodd 61% o'r holl breswylwyr eu bod wedi gweld neu gael un ffynhonnell neu fwy o wybodaeth neu hyfforddiant am ddiogelwch tân a oedd yn ymwneud â'u cartref neu eu hadeilad. Yn benodol:

- adroddodd 38% eu bod wedi gweld neu wedi cael gwybodaeth am ddiogelwch tân a oedd yn benodol i'w hadeilad nhw, megis cynllun gwacáu adeilad neu bolisi aros yn y fan a'r lle
- adroddodd 27% eu bod wedi gweld neu wedi cael cyngor am sut i leihau risg tân yn eu cartref, megis arweiniad am ddefnyddio canhwyllau yn ddiogel
- adroddodd 27% eu bod wedi cael hyfforddiant diogelwch tân fel rhan o'u swydd, gwaith gwirfoddol neu addysg.

**Ffigur 6.1 Mathau o Wybodaeth Diogelwch Tân a Gafwyd**



D1: A ydych chi wedi gweld neu wedi cael unrhyw rai o'r canlynol? Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562)

5.3 O ran ein segmentau preswylwyr, roedd segmentau 'Hunanddibynnol' a 'Diogel a chysurus' yn fwy tebygol o gofio cael unrhyw wybodaeth neu hyfforddiant diogelwch tân (y ddau yn 67%). Mae segment 'Hunanddibynnol' yn ymgysylltu â materion yn eu hadeilad yn rhannol oherwydd nad ydynt yn ymddiried yn y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad i wneud hynny, ac mae segment 'Diogel a chysurus' yn fwy tebygol o ymddiried yn y rhai sy'n rheoli eu hadeilad ac i ymgysylltu â'r wybodaeth a ddarparir ganddyn nhw. Roedd gan aelodau'r holl segmentau eraill lefelau cofio is, gan adlewyrchu teimladau o fod wedi'u dadrymuso, megis segment 'Pryderus ond gydag amheuon', sef 55%, i ymgysylltu isel ymhlith y rhai 'Heb fod yn ymgysylltu' (48%) ac 'Anniogel ac anweithredol' (46%).

5.4 Wrth ystyried cofio gwybodaeth am ddiogelwch tân a gafwyd mewn perthynas â'r adeilad yn benodol, roedd preswylwyr sy'n byw mewn cartref rhent cymdeithasol neu gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr yn fwy tebygol na'r holl breswylwyr a holwyd i ddweud eu bod yn cofio cael gwybodaeth o'r fath (44% a 43%), ac roedd y rhai sy'n rhentu gan landlord preifat yn llai tebygol (32%). Roedd preswylwyr sy'n byw mewn adeilad pwrpasol yn fwy tebygol o fod wedi cofio gwybodaeth o'r fath (46%), o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd (38%), yn yr un modd â phreswylwyr a adroddodd eu bod yn byw mewn adeilad sydd â chladin fflamadwy arno (58%). 3

5.5 Yn y cyfweliadau ansoddol, roedd preswylwyr yn tueddu i ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus am eu gwybodaeth am ddiogelwch tân yn eu hadeilad. Nodwyd yn rheolaidd bod hyfforddiant diogelwch tân a geir yn y gwaith, ar gyfer y rhai sydd mewn cyflogaeth, yn ffynhonnell bwysig y wybodaeth hon, megis canllawiau ynghylch sut i ddefnyddio diffoddydd tân a'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan mewn driliau gwacáu yr adeilad. Soniodd preswylwyr a oedd wedi cael hyfforddiant diogelwch tân yn y gwaith am y ffaith eu bod wedi cyfleu'r wybodaeth hon i aelodau eu haelwyd hefyd.

'Rydw i'n gwybod yr hyn i'w wneud, gan fy mod i wedi gwneud diogelwch tân yn y gwaith hefyd. Mae fy mab, mae e'n gwybod yr hyn i'w wneud gan fy mod yn dweud wrtho.' ('Bodlon ac ymddiriedus', tenant cymdeithasol, categori 2, 45-54 oed)

'Arferwn gyflawni rôl warden tân, felly rydw i'n gwybod yr hyn i'w wneud a sut i gael pobl allan a defnyddio diffoddydd tân. Ond y pryder sydd gennyf yw bod i fyny yma a heb fod yn ymwybodol o'r ffaith bod tân oddi tanaf.' ('Diogel a chysurus', tenant cymdeithasol, categori 2, 45-54 oed)

5.6 Dywedodd rhai preswylwyr a gyfwelwyd eu bod yn teimlo'n hyderus y byddent yn gwybod yr hyn i'w wneud os byddai tân, ond nid oeddent yn gallu nodi o ble ddaeth y


[3] Yn yr arolwg, roedd 'adeilad pwrpasol' yn cynnwys mathau o lety megis blociau o fflatiau, rhandiroedd, dros ben siopau, neu lety myfyrwyr.

wybodaeth hon. Pan ddywedodd preswylwyr nad ydynt yn teimlo'n hyderus am eu gwybodaeth, roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i anfodlonrwydd gyda'r camau a gymerwyd gan eu landlord neu reolwyr eu hadeilad, yn hytrach nag oherwydd eu bod yn teimlo nad oes ganddynt wybodaeth ddigonol neu eu bod heb gael hyfforddiant tân digonol. Er enghraifft, roedd preswylwyr yn teimlo y gallai rhagor o arwyddion neu wybodaeth ynghylch diogelwch tân helpu i wella eu gwybodaeth, yn ogystal â'u hyder wrth leihau risgiau tân yn eu cartref neu eu hadeilad gymaint ag y bo modd.

## Pryder am ddiogelwch tân

5.7 Yn yr arolwg, gofynnwyd i breswylwyr nodi hyd at dri phrif bryder am eu cartref a'r ardal y maent yn byw ynddi, gan ddewis o restr a ddiffiniwyd ymlaen llaw4. Troseddu (34%), a ddilynwyd gan barcio (31%), ymddygiad gwrthgymdeithasol (28%) a chynnal a chadw ardaloedd cymunol (28%) oedd y pryderon mwyaf cyffredin. Ar ôl hynny, nododd 24% o breswylwyr bryder am ddiogelwch tân;  naill ai tân yn eu cartref (deg%) a/neu dân mewn cartref cymydog neu mewn rhan arall o'r adeilad (19%). Roedd hyn yn golygu bod diogelwch tân yn uwch na rhai materion eraill fel y mae Ffigur 6.2 yn dangos.

**Ffigur 6.2 Prif bryderon preswylwyr am eu cartref a'r man lle y maent yn byw**





C1: Pa rai o'r canlynol yw eich prif bryderon am eich cartref a'r man lle'r ydych yn byw?
*Pryderon am ddiogelwch tân yw cyfanswm net y naill neu'r llall o'r ddau ddatganiad â seren, sy'n ymwneud â phryderon am risg tân yn y cartref neu'r adeilad
Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562)

[4] Yn yr arolwg, roedd preswylwyr yn gallu nodi hyd at dri phryder am eu hardal a'r man lle y maent yn byw. Nodwyd mwy nag un pryder gan rai preswylwyr.  Mae hyn yn golygu nad yw swm y pryderon a nodwyd yn rhoi swm o 100%.

5.8 Gan adlewyrchu agweddau ar y nodweddion sy'n eu diffinio, preswylwyr yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' oedd y rhai mwyaf tebygol (33%) o nodi bod diogelwch tân yn brif bryder, er eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt yr hyder a'r gallu i roi sylw i hyn. Fe'u dilynwyd gan segment 'Diogel a chysurus' (29%) a oedd yn eithaf pryderus am ddiogelwch tân ond roeddent yn tueddu i deimlo'n ddiogel yn eu hadeilad a theimlo'n hyderus am awdurdodau cyhoeddus. I'r gwrthwyneb, roedd segment 'Bodlon ac ymddiriedus' yn dangos llai o bryder (13%), ac roedd yn ymddangos eu bod nhw yn cael hyder o'u hymddiriedaeth yn yr awdurdodau cyfrifol ac o'u hymwybyddiaeth nhw o'u cyfrifoldebau. Roedd lefel pryder y rhai 'Hunanddibynnol' hefyd yn isel (16%) ond roedd hyn yn deillio o'u hyder yn eu gallu a'u gweithredoedd eu hunain mewn perthynas â diogelwch tân, yn fwy nag ymddiriedaeth mewn gwybodaeth a ddarparir iddynt.

**Ffigur 6.3 Diogelwch tân yn y cartref neu yn yr adeilad fel prif bryder, fesul segment**




C1: Pa rai o'r canlynol yw eich prif bryderon wrth ystyried eich cartref a'r man lle'r ydych yn byw? "Risg tân yn fy nghartref" neu "Risg tân yng nghartref fy nghymydog / rhywle arall yn yr adeilad" Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562). Mae saethau yn dangos pa segmentau yr oeddent lawer yn uwch neu'n llawer is na'r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd, ynghylch pryder am ddiogelwch tân.

5.9 Yn y cyfweliadau ansoddol, adroddodd nifer o breswylwyr eu bod yn meddwl am ddiogelwch tân yn rheolaidd. Roedd hyn yn tueddu i fod oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel yn eu hadeilad neu eu cartref. Fodd bynnag, roedd lleiafrif yn priodoli hyn i'r ffaith eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref oherwydd bod mesurau diogelwch tân cadarnhaol yn cael eu cymryd. Dywedodd preswylwyr eraill a gyfwelwyd mai anaml y byddant yn meddwl am ddiogelwch tân, o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref a'u hadeilad.

5.10 Ymhlith y preswylwyr a oedd yn meddwl am ddiogelwch tân yn rheolaidd neu'n anaml, o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref neu'r adeilad, nodwyd y rhesymau canlynol fel arfer:

- mae rheolwyr yr adeilad yn cynnal profion wythnosol o'r larwm tân, sy'n cymell preswylwyr i feddwl am ddiogelwch tân mewn ffordd gadarnhaol
- presenoldeb offer diogelwch tân yn eu cartref a'u hadeilad, megis synwyryddion mwg, diffoddwyr tân, drysau tân, blancedi tân, system chwistrellu, allanfeydd brys.

'Mae gennym flanced a diffoddwr tân, a larwm tân. Yn fy stiwdio, rydw i'n teimlo'n eithaf siŵr bod fy nghartref yn ddiogel.' ('Bodlon ac ymddiriedus', rhentwr preifat, categori 2, 25-34)

5.11 Roedd preswylwyr a oedd yn byw ar lawr is yn eu hadeilad, ac yr oeddent yn tybio bod llwybr dianc clir a hygyrch, yn tueddu i deimlo'n fwy diogel yn eu hasesiad o ddiogelwch tân yn eu cartref neu eu hadeilad.

'Rydw i mewn fflat ar y llawr gwaelod, felly mae gennym y ffenestri a'r drysau cefn [fel ffordd o ddianc].' ('Anniogel ac anweithredol', rhentwr preifat, categori 2, 25-34 oed)

5.12 Ymhlith y preswylwyr a oedd yn meddwl am ddiogelwch tân yn rheolaidd, o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn teimlo'n anniogel yn eu cartref neu adeilad, nodwyd y rhesymau canlynol fel arfer:

- pryderon am ddyluniad adeilad, megis diffyg adrannu5 a'r ffaith y defnyddiwyd deunyddiau adeiladu fflamadwy, neu sut y bwriedir i system larwm tân gymunol gael ei defnyddio
- byw ar lawr uwch yn yr adeilad ac yn pryderu am eu llwybr dianc pe byddai tân
- pryderon am ymddygiad preswylwyr eraill yn yr adeilad, megis ysmygu neu ysgogi eu larymau mwg yn rheolaidd
- profiad blaenorol o dân.

'Nid yw hi'n ddoniol pan nad ydych chi'n gwybod yn union pam bod y larwm yn canu [yn yr adeilad] gan na allwch ei ddarganfod, gan mai dim ond 5 parth sydd, ond mae 10 fflat.' ('Heb fod yn ymgysylltu', rhentwr preifat, 35-44 oed)

'Rydw i yn rhan uchaf yr adeilad, os bydd tân oddi tanaf ac os na fyddaf yn gwybod amdano, rydw i mewn trwbwl'. ('Diogel a chysurus', tenant cymdeithasol, categori 2, 45-54 oed)

## Ystyried agweddau ar ddiogelwch tân

5.13 Roedd y cyfweliadau ansoddol yn ystyried yn fanylach yr hyn yr oedd preswylwyr yn meddwl amdano wrth ystyried diogelwch tân. Dyma'r pethau mwyaf cyffredin yr adroddodd preswylwyr eu bod yn meddwl amdanynt:

**eitemau y gallent achosi tân**

gallu gadael yn ddiogel pe bai tân.

5.14 Roedd preswylwyr yn ystyried bod offer coginio nwy yn arbennig, yn ogystal â chanhwyllau ac eitemau trydanol wedi'u plygio mewn socedi, yn risg tân. Yn ystod

[5] Yn yr arolwg, diffiniwyd adrannu fel a ganlyn: "Mae hyn yn golygu bod modd dal tân yn y man lle y cychwynnodd, fel bod modd ei ddiffodd cyn iddo ledaenu. Yn arbennig, dim gwneud newidiadau i waliau, lloriau, ffenestri neu ddrysau a allai gynyddu'r risg y bydd y tân yn lledaenu; a sicrhau bod drysau tân yn cael eu cadw ar gau."

cyfweliadau, soniodd preswylwyr yn rheolaidd am y mesurau ataliol y maent yn eu cymryd i leihau risg tân gan ddyfeisiau neu gyfleustodau, megis tynnu plygiau eitemau trydanol allan o'r wal pan fyddant yn gadael y cartref. Soniodd preswylwyr hefyd am ddefnyddio canhwyllau mewn ffordd ddiogel, megis peidio eu gadael yn llosgi pan na fydd unrhyw un yno, a bod yn ystyriol o wrthrychau eraill o'u cwmpas.

'Rydw i'n gwneud yn siŵr fy mod yn troi popeth i ffwrdd pan fyddaf yn gadael y tŷ, byddaf yn tynnu plwg popeth allan o'r wal.' ('Bodlon ac ymddiriedus', tenant cymdeithasol, categori 2, 45-54 oed)

5.15 Roedd preswylwyr a oedd yn meddwl am allu gadael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân yn tueddu i fyw ar loriau uwch. Roedd preswylwyr yn pryderu am aelodau eu haelwyd neu gymdogion y mae eu symudedd yn gyfyngedig hefyd, a sut y byddent yn gwacáu'r adeilad mewn ffordd ddiogel.

'Pe bai tân, wrth gwrs, ni fyddech yn gallu defnyddio'r lifft, byddai'n rhaid i ni ddefnyddio'r grisiau, felly mae'n ymwneud â ble mae'r tân...os yw yn rhan uchaf yr adeilad ac yn mynd i lawr, rydym yn iawn, ond os yw ar y gwaelod, nid ydym...nid oes unrhyw ffenestri y gallwn eu cyrraedd lle'r ydym ni...' ('Pryderus ond gydag amheuon', tenant cymdeithasol, categori 1, 45-54 oed)

## Cyfrifoldeb dros ddiogelwch tân


5.16 Roedd 92% o'r holl breswylwyr a holwyd yn cytuno bod cyfrifoldeb arnynt i gymryd camau i leihau risg tân yn eu cartref.

5.17 Roedd preswylwyr yn amrywio o ran y graddau yr oeddent yn cytuno bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân, ar sail eu gweithgarwch ymgysylltu gyda gwybodaeth fwy cyffredinol am eu cartref neu eu hadeilad. Roedd 94% a ddywedodd eu bod yn darllen llythyrau neu hysbysiadau am eu hadeilad yn cytuno bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân, fodd bynnag, roedd hwn yn gostwng yn sylweddol i 77% yn unig ymhlith preswylwyr a ddywedodd nad ydynt yn darllen llythyrau na hysbysiadau. Yn fwy eang, roedd preswylwyr sy'n ymgysylltu'n llai ar lefel ddinesig (mewn gweithgareddau fel cysylltu ag AS, gwirfoddoli neu fynychu rali gyhoeddus) hefyd yn llai tebygol o gredu bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu hadeilad (89%).

5.18 O ran y segmentau, segmentau 'Diogel a chysurus' (99%), 'Hunanddibynnol' (98%), a 'Bodlon ac ymddiriedus' (96%) oedd y rhai mwyaf tebygol o gydnabod eu cyfrifoldeb dros ddiogelwch tân. Roedd segment 'Pryderus ond gydag amheuon' ychydig yn is na'r holl breswylwyr a holwyd, sef 88%. Segmentau 'Anniogel ac anweithredol' a 'Heb fod yn ymgysylltu' oedd yn peri'r pryder mwyaf, gydag 82% a 61% o'r segmentau hyn yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn yr arolwg. Mae angen perswadio preswylwyr yn segment 'Anniogel ac anweithredol' o'r pwynt sylfaenol hwn cyn y bydd modd cymryd unrhyw gamau pellach i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r hyn y gallant ei wneud. Ar gyfer preswylwyr 'Heb fod

yn ymgysylltu', mae angen nodi ffyrdd wedi'u teilwra o gael mynediad i'r grŵp hwn, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldeb nhw dros ddiogelwch tân yn y cartref.

**Ffigur 6.4 Cyfrifoldeb canfyddedig dros gymryd camau i leihau risg tân yn y cartref, fesul segment**




D2-1: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: Mae cyfrifoldeb arnaf i gymryd camau i leihau risg tân yn fy nghartref? Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562). Mae'r saethau yn dangos segmentau yr oeddent lawer yn uwch neu lawer yn is na'r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd, ynghylch cyfrifoldeb canfyddedig.

5.19 Yn y cyfweliadau ansoddol, roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr yn teimlo y dylai preswylwyr gael cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd dros leihau risgiau diogelwch tân yn eu cartref a'u hadeilad gymaint ag y bo modd. Roedd y canlynol wedi cael eu cynnwys mewn awgrymiadau:

- cael ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio offer diogelwch tân megis diffoddwr tân neu flanced dân
- archwilio synwyryddion mwg yn rheolaidd a pheidio ag ymyrryd â nhw, megis eu gorchuddio neu dynnu'r batris allan
- defnyddio dyfeisiau megis y cwcer a'r system drydanol yn ddiogel, gan gynnwys peidio gorlwytho socedi
- dyletswydd i beidio ymddwyn mewn ffyrdd sy'n debygol o gynyddu risg tân, yn enwedig pan fo rheol eisoes yn bodoli yn yr adeilad. Gallai hyn gynnwys ysmygu neu gymryd cyffuriau pan geir rheol yn erbyn hyn

- sicrhau bod llwybrau dianc yn y cartref a'r adeilad yn cael eu cadw'n glir, er enghraifft, lleihau'r annibendod ger drysau a ffenestri, coridorau a balconïau.

5.20 Roedd nifer o breswylwyr a gyfwelwyd yn teimlo y dylai fod canlyniadau i'r rhai sy'n gweithredu'n fwriadol mewn ffyrdd a allai gynyddu risg tân yn eu cartref neu eu hadeilad, megis ymyrryd ag offer diogelwch tân neu ysmygu yn yr adeilad lle y ceir polisi dim ysmygu. Roedd rhai yn teimlo hefyd y dylai fod canlyniadau cyfreithiol i breswylwyr sy'n ymddwyn mewn ffordd mor fwriadol. Awgrymodd preswylwyr y gallai hyn, pan dorrir cyfrifoldeb cyfreithiol, arwain at ddirwy ac yn ôl yr angen, y dylid cynnal ymchwiliad. Fodd bynnag, roedd rhai preswylwyr yn teimlo, yn ymarferol, y byddai heriau wrth weithredu cyfrifoldebau cyfreithiol i breswylwyr dros gynnal diogelwch tân y cartref neu'r adeilad. Roedd y preswylwyr hyn yn teimlo mai mabwysiadu dull o rannu cyfrifoldebau, er enghraifft llofnodi contract ymddygiad diogelwch tân, fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o annog cyfrifoldeb personol.


## Hyder mewn bod yn ddiogel o ran tân

5.21 Yn yr arolwg, holwyd y preswylwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno gyda'r datganiad canlynol: 'Pe bai tân yn fy nghegin, rydw i'n gwybod pa gamau y byddwn yn eu cymryd er mwyn ceisio ei ddiffodd.' Roedd 84% yn cytuno y byddent yn gwybod pa gamau i'w cymryd ac roedd saith% yn anghytuno, gan deimlo na fyddent yn gwybod yr hyn i'w wneud. Roedd y gweddill yn niwtral neu'n ansicr (wyth%).

5.22 Roedd hyder wrth wybod yr hyn i'w wneud pe bai tân mewn cegin yn gysylltiedig iawn gydag ymgysylltu â gwybodaeth neu hyfforddiant diogelwch tân, y mae'r ddau ohonynt yn adlewyrchu ysgogydd sylfaenol cymhelliant i ymgysylltu â'r mater. Er enghraifft, roedd preswylwyr nad oeddent yn darllen llythyrau neu hysbysiadau am yr hyn sy'n digwydd yn eu hadeilad hefyd yn fwy tebygol o anghytuno y byddent yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai tân yn eu cegin (14% yn anghytuno).

5.23 Roedd hyder o wybod pa gamau i'w cymryd pe bai tân mewn cegin yn amrywio fesul segment, gan ddatgelu lefelau isel gwybodaeth ymhlith segment 'Heb fod yn ymgysylltu' (58%), sy'n peri pryder. Roedd hyder o wybod pa gamau i'w cymryd pe bai tân mewn cegin yn is ymhlith segment 'Anniogel ac anweithredol' (76%), y maent hefyd yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cynyddu'r risg i'w diogelwch tân hefyd yn ôl y gwaith o ddadansoddi'r segmentau. Roedd preswylwyr yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' yr un mor ddihyder wrth wybod yr hyn i'w wneud pe bai tân mewn cegin (75%) ac er nad ydynt o reidrwydd yn ymddwyn mewn ffordd beryglus, mae angen iddynt feithrin ymddiriedaeth yn yr asiantaethau sy'n gallu eu hysbysu o'r hyn y dylent ei wneud pe bai tân.

**Ffigur 6.5 Hyder o wybod pa gamau i'w cymryd pe bai tân mewn cegin, fesul segment**




D2-2: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: Pe bai tân yn fy nghegin, rydw i'n gwybod pa gamau y byddwn yn ceisio eu cymryd i'w ddiffodd? Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562). Mae'r saethau yn dangos pa segmentau oedd lawer yn uwch neu'n is na'r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd.

5.24 Yn y cyfweliadau ansoddol, roedd preswylwyr yn teimlo'n hyderus am eu gallu i leihau risg tân yn eu cartref i raddau helaeth. Roedd preswylwyr yn aml yn priodoli'r hyder hwn i'r ffaith bod ganddynt ddealltwriaeth dda o fesurau ataliol megis tynnu plwg dyfeisiau trydanol allan o'r wal pan na fyddant yn eu defnyddio, peidio gorlwytho socedi a chadw llwybrau dianc ar agor. Yn ogystal, roedd preswylwyr yn cysylltu eu hyder wrth leihau risg tân yn eu cartref gymaint ag y bo modd gyda chael offer diogelwch tân a gwybod sut i'w ddefnyddio, megis diffoddwyr tân neu flancedi tân. Pan oedd preswylwyr yn teimlo'n llai hyderus am leihau risg tân yn eu cartref gymaint ag y bo modd, soniwyd am hyn fel arfer mewn perthynas â chael symudedd cyfyngedig.


'Mae'n ymwneud â darllen gwybodaeth, er enghraifft sut i ddefnyddio'r flanced dân. Mae poster ar y drws am ddiogelwch tân, am sut i ddefnyddio'r flanced dân a'r diffoddwr, pryd i ddefnyddio hwnnw.' ('Bodlon ac ymddiriedus', rhentwr preifat, categori 2, 25-34 oed)

## Gwacáu os bydd tân

5.25 Yn yr arolwg, holwyd y preswylwyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo'n hyderus y gallent gael holl aelodau eu haelwyd a'u hunain allan o'u hadeilad yn ddiogel pe bai tân. Roedd y mwyafrif yn cytuno (70%), ond roedd 15% yn anghytuno, gan deimlo na allent wneud hynny.

5.26 Ar draws y segmentau, roedd y diffyg hyder hwn wrth wacáu adeilad pe bai tân yn nodwedd a oedd yn diffinio segmentau ‘Pryderus ond gydag amheuon’ (30%) a ‘Heb fod yn ymgysylltu’ (24%). Mae Ffigur 7.6 yn dangos yr amrywiadau yn lefel y cytundeb fesul segment.

**Ffigur 6.6 Hyder y gallai’r holl bobl yn yr aelwyd, a nhw, adael eu hadeilad yn ddiogel pe bai tân, fesul segment**





D2-3: I ba raddau yr ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiad canlynol: Rydw i’n teimlo’n hyderus y gallai’r holl bobl yn fy aelwyd a minnau adael yr adeilad yn ddiogel (1,562). Mae saethau yn dangos segmentau yr oeddent lawer yn uwch neu’n is na’r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd.

5.27 Roedd preswylwyr a adroddodd bod cladin fflamadwy ar eu hadeilad yn fwy tebygol o fod heb hyder y gallent adael yn ddiogel (22%) na’r rhai a oedd yn byw mewn adeiladau heb gladin (12%). Roedd cyfran y preswylwyr heb hyder y gallent adael yn ddiogel yn cynyddu po uchaf y llawr yr oeddent yn byw arno: roedd 9% o’r rhai a oedd yn byw ar y llawr gwaelod yn anghytuno y gallent adael yn ddiogel, gan godi fesul tipyn i 24% o’r rhai sy’n byw ar y 5ed – 6ed llawr.

5.28 Gofynnwyd i’r 15% o breswylwyr a ddywedodd nad oeddent yn hyderus y gallent adael yn ddiogel pa ffactorau oedd yn cyfrannu at eu diffyg hyder, a rhoddir crynodeb o’u hatebion yn Ffigur 6.7 isod, gyda 29% yn cyfeirio at allanfeydd neu ddiangfeydd tân annigonol.

**Ffigur 6.7 Rhesymau pam nad yw preswylwyr yn teimlo’n hyderus am adael eu hadeilad yn ddiogel pe bai tân**




D3: Pam nad ydych chi'n hyderus y gallech chi a holl aelodau eich aelwyd adael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân?  Sail: Yr holl rai nad oeddent yn hyderus y gallen nhw a'u haelwyd adael yn ddiogel pe bai tân (233). Roedd y preswylwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn, ac o ganlyniad, nid yw'r canrannau yn rhoi cyfanswm o 100%.

5.29 Roedd diangfeydd tân annigonol yn fwy tebygol o gael ei nodi gan breswylwyr:

- a oedd yn byw mewn cartrefi rhent preifat (37%)
- a oedd yn byw mewn adeiladau Categori 2 (32%)
- a oedd yn byw mewn tŷ wedi'i addasu (48%).

5.30 Roedd preswylwyr mewn cartrefi rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o nodi bod eu diffyg hyder o ganlyniad i'r ffaith bod gan aelod o'u haelwyd anabledd (29%) neu broblemau symudedd o ganlyniad i'w hoedran (27%).

5.31 Ymhlith preswylwyr anabl, dywedodd 59% nad ydynt yn teimlo'n hyderus ynghylch gadael yn ddiogel gan bod gan aelod o'u haelwyd anabledd (37%) neu mae gan aelod o'r aelwyd broblemau symudedd o ganlyniad i henaint (22%).

5.32 Yn y cyfweliadau ansoddol, cyfeiriodd preswylwyr unwaith eto at argaeledd a hygyrchedd diangfeydd tân a hyder yn effeithiolrwydd larymau tân fel y prif ffactorau a arweiniodd at hyder mewn gwacáu yn ddiogel. Roedd preswylwyr nad oeddent yn hyderus yn aml yn teimlo nad yw eu hadeilad yn cynnwys systemau diogelwch tân sy'n cydymffurfio â safonau modern, a oedd yn cyfrannu at eu gorbryder ynghylch gwacáu'r adeilad.

‘Gallwn i fod yn cysgu’n drwm ac fe allai rhywbeth fod yn digwydd i lawr y grisiau nad ydw i’n gwybod amdano nes i bethau ddechrau poethi a mynd yn fyglyd.’ (‘Anniogel ac anweithredol’, rhentwr preifat, categori 2, 55-64 oed)

5.33 Ategir hyn gan y ffaith bod preswylwyr yr oeddent yn teimlo’n hyderus am eu gallu i wacáu eu haelwyd wedi sôn am eu hymwybyddiaeth o’r larymau tân, allanfeydd tân a’r gweithdrefnau gwacáu yn eu hadeilad.

‘Mae gan bawb larwm tân, ac mae gennym oll allanfa dân ac mae larwm ger y grisiau i bawb.’ (‘Anniogel ac anweithredol’, tenant cymdeithasol, categori 2, 35-44 oed)

5.34 Yn y cyfweliadau ansoddol, adroddodd nifer o’r preswylwyr a gyfwelwyd eu bod yn teimlo’n hyderus ynghylch cael eu hunain a’u haelwyd allan o’r adeilad pe bai tân. Nodwyd yn aml bod hyn o ganlyniad i’r ffaith bod llwybrau dianc hygyrch ar gael neu bod ganddynt hyder yn effeithiolrwydd y larymau tân wrth rybuddio’r aelwyd am dân.

‘Rydw i’n eithaf hyderus. Rydw i wedi archwilio’r holl lwybrau tân allan ac rydw i o gwmpas fy mhethau, fel na fyddaf yn cychwyn unrhyw danau.’ (‘Heb fod yn ymgysylltu ac anweithredol’, tenant cymdeithasol, categori 1, 65-74 oed)

# 6. Ymddygiad diogelwch tân

6.1 Mae’r bennod hon yn archwilio gwahanol fathau o ymddygiad diogelwch tân preswylwyr, pa benderfyniadau y byddant yn eu gwneud sy’n gysylltiedig â’u hymddygiad, a datrysiadau posibl er mwyn cyfyngu ar ymddygiad diogelwch tân peryglus.


6.2 Gofynnwyd i gyfranogwyr yn yr arolwg ar-lein nodi’r mathau o ymddygiad diogelwch tân y maent yn eu cyflawni o restr a luniwyd ymlaen llaw, a pha mor aml y maent yn ymddwyn yn y fath ffordd.6 Mae’n bwysig nodi ar y cychwyn nad oedd cyfran sylweddol o breswylwyr yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd beryglus neu’n anaml yn ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân yn ardaloedd cymunol eu hadeilad (79%) neu yn y cartref (38%). Rydym yn canolbwyntio yma ar ddeall y lleiafrif a oedd yn ymddwyn mewn ffordd o’r fath ‘bob amser’ neu’n ‘aml’ er mwyn cyfrannu at strategaethau i fynd i’r afael â’r ymddygiad hwnnw.

[6] Gofynnwyd i breswylwyr nodi pa mor aml y maent yn ymddwyn mewn ffyrdd a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar draws dau gwestiwn ar wahân, gan ddefnyddio’r graddfeydd canlynol: 1) Rydw i bob amser yn gwneud hyn, Rydw i’n aml yn gwneud hyn, Rydw i weithiau yn gwneud hyn, Anaml y byddaf yn gwneud hyn, Ni fyddaf fyth yn gwneud hyn/Amherthnasol, Dim syniad; 2) O leiaf unwaith yr wythnos, 2 neu 3 gwaith y mis, Unwaith y mis, Unwaith bob 3 mis, Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, Llai nag unwaith y flwyddyn, Byth/Amherthnasol, Dim syniad.

## Diogelwch tân mewn rhannau cymunol adeiladau

6.3 Mewn rhannau cymunol adeiladau, megis grisiau a choridorau, roedd tua 15% o'r holl breswylwyr a holwyd yn ymddwyn mewn rhyw ffordd beryglus o ran diogelwch tân.

**Ffigur 7.1 Amlder ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân mewn ardaloedd cymunol yr adeilad, 'bob amser' neu'n 'aml'**




E2-X: Pa mor rheolaidd y byddwch yn gwneud y pethau canlynol? Canran sy'n gwneud hyn bob amser neu'n aml. Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562)

6.4 Yr ateb mwyaf cyffredin oedd cadw eitemau personol mawr yn yr ardaloedd hyn, megis beiciau, pramiau neu sgwteri symudedd (gyda chwech% yn gwneud hyn bob amser neu'n aml).

6.5 Adroddodd bron cymaint o breswylwyr (pump%) eu bod yn gadael bagiau sbwriel y tu allan eu fflat cyn mynd â nhw i finiau cymunol bob amser neu'n aml.

6.6 Roedd y mathau hyn o ymddygiad yn gyfranwyr cryf i'r model a oedd yn pennu math y segment yr oedd preswylydd yn cael eu neilltuo iddo, ac mae'n adlewyrchu lefel sylfaenol eu pryder a'u hymgysylltiad â diogelwch tân. Er enghraifft, roedd 29% o breswylwyr yn segment 'Anniogel ac anweithredol' yn gadael eitemau personol mawr a sbwriel mewn coridorau bob amser neu'n aml, gan ddangos lefel isel eu pryder ynghylch diogelwch tân a'u diffyg diddordeb mewn negeseuon gan awdurdodau. Mewn cyferbyniad, roedd preswylwyr yn segmentau 'Hunanddibynnol' a 'Diogel a chysurus', er bod ganddynt wahanol agweddau i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad ac am ddiogelwch tân, yn llai tebygol o ymddwyn fel hyn o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd:

dywedodd pedwar% o breswylwyr ‘Hunanddibynnol’ a dau% o breswylwyr ‘Diogel a chysurus’ eu bod yn cadw eitemau personol mawr yn ardaloedd cymunol/a rennir yr adeilad bob amser neu’n aml

dywedodd un% o breswylwyr ‘Hunanddibynnol’ a 0% o breswylwyr ‘Diogel a chysurus’ eu bod yn gadael bagiau sbwriel yn y safle y tu allan i’w fflat cyn mynd i lawr â nhw i’r ardal gwaredu gwastraff bob amser neu’n aml.

6.7 Dywedodd cyfran fach (pedwar%) o’r holl breswylwyr a holwyd eu bod bob amser neu’n aml yn ychwanegu addurniadau i ardaloedd cymunol yn eu hadeilad, megis rygiau, goleuadau neu eitemau addurno. Roedd yr ymddygiad hwn yn fwy cyffredin ymhlith y segment ‘Anniogel ac anweithredol’, y dywedodd 29% ohonynt eu bod bob amser neu’n aml yn ychwanegu addurniadau i’r ardaloedd cymunol yn eu hadeilad.

6.8 Yn olaf, dywedodd tri% o’r holl breswylwyr a holwyd eu bod bob amser neu’n aml yn dal drysau tân ar agor yn ardaloedd cymunol/a rennir eu hadeilad.

6.9 O ran y segmentau, roedd dal drysau tân ar agor mewn rhannau cymunol/a rennir eu hadeilad fwyaf cyffredin ymhlith segment ‘Anniogel ac anweithredol’ (23%) o’i gymharu â’r ffaith ei fod yn brin iawn ymhlith segmentau ‘Hunanddibynnol’, ‘Pryderus ond gydag amheuon’ a ‘Diogel a chysurus’ (un% i gyd).

6.10 Yn y cyfweliadau ansoddol gyda phreswylwyr, dylanwadwyd ar y rhai a oedd yn ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân gan eu hamgylchedd a chan ymddygiad preswylwyr eraill. Gan amlaf, roedd y preswylwyr hyn yn teimlo nad yw eu hadeilad yn addas i’w hanghenion, ac roedd hyn wedi peri iddynt ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân. Rhannodd un preswylydd eu profiadau o fyw mewn llety nad oedd yn addas i’w hanghenion, gan nodi bod yn rhaid dal y drws tân ar agor, gan ei fod yn rhy drwm i’r preswylwyr sydd â phroblemau symudedd ei agor a’i gau. Yn ogystal, rhannodd y preswylydd hwn eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i storio sgwteri symudedd yng nghoridor yr adeilad, o ganlyniad i ddiffyg lle storio penodedig a chymorth gan reolwr eu hadeilad i weithredu hyn.

‘Gofynnom iddynt [rheolwyr yr adeilad] i osod sied ar gyfer y beiciau a rhai pwyntiau gwefru ar gyfer y sgwteri symudedd hefyd. A dywedont [rheolwyr yr adeilad] wrthym mai bloc ar gyfer pobl dros 55 oed yw hwn, ac os ydych chi’n ddigon anabl i orfod defnyddio sgwter symudedd, ni ddylech fod yn byw yma.’ (‘Anniogel ac anweithredol’, tenant cymdeithasol, categori 2, 55-64 oed)

6.11 Yn yr un modd, dywedodd un arall bod yr adeilad heb ddarpariaeth awyru addas, felly mae’n rhaid iddynt ddal y drysau tân ar agor yn ystod misoedd yr haf.

6.12 Roedd cytundebau heb eu datgan rhwng preswylwyr yn aml yn arwain at gryn dipyn o ymddygiad peryglus o ran diogelwch tân ar lawr penodol neu mewn rhan benodol o adeilad. Er enghraifft, soniodd un preswylydd bod yr holl breswylwyr ar eu llawr nhw yn gadael eu bagiau sbwriel allan ar silff yn y coridor, a’u bod yn mynd i lawr â nhw gyda’i gilydd, yn hytrach na mynd i lawr â nhw bob tro gan eu bod yn byw ar y

seithfed llawr. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, roedd preswylwyr yn cydnabod y peryglon o ran diogelwch tân i'w hadeilad, ond roeddent yn teimlo bod y manteision o ran hwylustod yn drech na'r risgiau tybiedig o ganlyniad i'w hymddygiad.

'Gallaf ddeall y gallai'r bagiau sbwriel ac ati beri i rywun faglu mewn argyfwng, ond mae'r budd yn drech na'r risg. Mae silff yr ydym yn tueddu i adael bagiau sbwriel arni fel na fyddant ar y llawr, yna byddwn yn mynd i lawr â nhw gyda'i gilydd yn hytrach na bob tro, gan ein bod yn byw ar y seithfed llawr.' ('Pryderus ond gydag amheuon', perchennog cartref, categori 1, 55-64 oed)

6.13 Ceir achosion hefyd lle'r oedd preswylydd yn cydnabod bod ymddygiad yn beryglus ond ni allent weld cysylltiad cryf rhwng y ffaith ei fod yn beryglus a'i fod yn risg o ran tân. Er enghraifft, cydnabod y gallai bagiau sbwriel yn y mannau cymunol beri i bobl faglu, ond peidio ei gydnabod fel perygl diogelwch tân gan nad oeddent yn teimlo y byddai'n cychwyn tân yn uniongyrchol.


## Diogelwch tân yn y cartref

6.14 Roedd 54% o'r holl breswylwyr a holwyd yn dweud eu bod yn ymddwyn mewn o leiaf un o'r ffyrdd peryglus canlynol o ran diogelwch tân, o leiaf unwaith y mis:

- coginio gan ddefnyddio sosban sglodion
- coginio bwyd ar ôl yfed alcohol
- cynnau canhwyllau neu arogldarth yn y cartref
- cael tân agored, neu ddefnyddio gwresogyddion ystafell annibynnol.

6.15 Dangosir cyfrannau'r preswylwyr a ddywedodd eu bod yn ymddwyn fel hyn o leiaf unwaith y mis yn Ffigur 7.2.

**Ffigur 7.2 Amlder ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân yn y cartref, o leiaf unwaith y mis**




E3-X: Pa mor rheolaidd y byddwch chi'n gwneud y pethau canlynol? Canran sy'n gwneud hyn o leiaf unwaith y mis.
Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562).

6.16 Preswylwyr yn segment 'Anniogel ac anweithredol' (35%) oedd fwyaf tebygol o adrodd eu bod yn coginio ar ôl yfed alcohol, o leiaf unwaith y mis. I'r gwrthwyneb, roedd hyn lawer yn llai tebygol ymhlith segmentau 'Heb fod yn ymgysylltu' (chwech%) neu 'Fodlon ac ymddiriedus' (tri%).

6.17 Roedd coginio bwyd gan ddefnyddio sosban sglodion o leiaf unwaith y mis yn nodwedd a oedd yn diffinio segment 'Heb fod yn ymgysylltu' (31%) yn fwy, yn ogystal â'r rhai 'Anniogel ac anweithredol' (23%) ac i raddau llai, y rhai 'Bodlon ac ymddiriedus' (17%). Byddai'r graddau y mae hyn yn peri pryder yn amrywio yn unol â'u hymwybyddiaeth o'r risgiau ac o ymddygiad diogelwch tân arall.

6.18 Roedd gan wyth% o'r holl breswylwyr a holwyd dân agored neu roeddent yn defnyddio gwresogyddion ystafell annibynnol yn eu cartrefi o leiaf unwaith y mis. O ran y segmentau, unwaith eto, segment 'Anniogel ac anweithredol' oedd yr un mwyaf tebygol o ddefnyddio'r mathau hyn o wresogi (20%), ond hefyd y rhai yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' (13%) er gwaethaf eu pryderon am ddiogelwch tân.

6.19 Pan holwyd pa mor aml y maent yn ysmygu yn eu cartref, dywedodd wyth% o'r holl breswylwyr a holwyd eu bod 'bob amser' neu'n 'aml' yn gwneud hyn. Roedd ysmygu yn y cartref yn nodwedd fwy cyffredin ymhlith segmentau 'Anniogel ac anweithredol' (14%), 'Heb fod yn ymgysylltu' (13%) a 'Phryderus ond gydag amheuon' (11%).

6.20 Roedd wyth% o'r holl breswylwyr a holwyd bob amser neu'n aml yn defnyddio mwy nag un lîd estyn yn yr un soced plwg (gan ganiatáu i ddyfeisiau lluosog gael eu

rhedeg oddi ar un soced), gan godi i 42% ymhlith segment ‘Anniogel ac anweithredol’.

6.21 Yn y cyfweliadau manwl gyda phreswylwyr, roedd nifer sylweddol o bobl a oedd yn ymddwyn yn y ffyrdd peryglus hyn o ran diogelwch tân yn eu cartref eu hunain yn teimlo eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chyfrifol, ac felly, roeddent yn dadlau nad oedd unrhyw risg, neu bod y risg yn dderbyniol. Roedd y preswylwyr hyn yn awgrymu eu bod yn annhebygol o newid y ffordd y maent yn ymddwyn o’u gwirfodd.


6.22 Roedd un preswylydd yn teimlo’n gyffyrddus bod y camau yr oeddent wedi’u cymryd ar gyfer yr adegau pan fyddant yn ysmygu y tu mewn (sicrhau bod y ffenestr ar agor a chael ffan ymlaen), yn ddigonol er mwyn lleihau risg tân neu’r risg y byddai’r larwm tân yn canu trwy ddamwain. I’r preswylydd hwn, roedd ysmygu y tu allan i’w cartref yn teimlo fel rhywbeth mwy anniogel, gan eu bod yn gofidio am ymddygiad gwrthgymdeithasol ger tafarn gyfagos pe baent yn ysmygu y tu allan.

‘Rydw i’n ofalus iawn pan fyddaf yn ysmygu y tu mewn. Ni allaf ysmygu yn y stryd gefn y tu allan gan ei fod yn rhy afreolus gyda’r hwyr [gerllaw tafarn]. Rydw i’n ymwybodol o’r [risg] honno, ond nid ydw i’n pryderu’n fawr amdani.’ (‘Heb fod yn ymgysylltu’, rhentwr preifat, categori 2, 35-44 oed)

## Ymddygiad diogelwch tân sy’n fwy peryglus

6.23 Holwyd preswylwyr am gyfres o wahanol ymddygiadau y nodwyd eu bod yn fathau o ymddygiad sy’n fwy peryglus. Dim ond lleiafrif bach iawn o breswylwyr ddywedodd eu bod wedi ymddwyn yn y fath ffordd yn ystod y 12 mis diwethaf, fel y dangosir yn Ffigur 7.3 isod. Ymhlith y 52 o breswylwyr sy’n ymddwyn mewn ffordd fwy beryglus o ran diogelwch tân, roedd preswylwyr fel arfer yn dangos un math o ymddygiad yn unig (87%), ac roedd 15% wedi dangos rhwng dau a thri math o ymddygiad mwy peryglus o ran diogelwch tân

**Ffigur 7.3 Preswylwyr yn adrodd am Ymddygiad Diogelwch Tân mwy Peryglus yn ystod y 12 mis diwethaf**




E4: Pa rai o'r canlynol yr ydych chi wedi'u gwneud yn ystod y 12 mis diwethaf? Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562)

6.24 Roedd y cwestiwn ynghylch a oedd preswylydd yn ymddwyn mewn un o'r ffyrdd mwy peryglus hyn neu fwy yn benderfynydd allweddol wrth eu neilltuo i segment 'Anniogel ac anweithredol' – roedd 27% ohonynt wedi ymddwyn mewn o leiaf un o'r ffyrdd hyn, gan adlewyrchu lefel y newid o ran ymddygiad sy'n ofynnol ymhlith y grŵp hwn er mwyn lleihau eu risg o ran diogelwch tân. Er enghraifft, roedd 11% o'r segment hwn wedi tynnu'r batris allan o larwm tân er mwyn ei atal rhag canu, roedd saith% wedi gorchuddio larwm tân er mwyn ei atal rhag synhwyro mwg ac roedd chwech% wedi difrodi neu ymyrryd â drws tân. Roedd rhwng dau a thri% o'r segment hwn wedi cyflawni pob un o'r canlynol: difrodi diffoddwyr tân, defnyddio diffoddwyr tân mewn ffordd amhriodol, gosod blwch llythyrau neu fflap cath mewn drws tân, ymyrryd â synhwyrydd gwres. Roedd ymddygiad o'r fath yn brin ond roedd i'w weld ymhlith lleiafrif bach o breswylwyr yr oeddent yn arbennig o amharod i dderbyn gwybodaeth am ddiogelwch tân.

## Darganfod Tân ac Adrannu

6.25 Roedd gan 92% o'r preswylwyr a holwyd synhwyrydd/larwm mwg yn eu cartref, ond adroddodd 34% o breswylwyr eu bod yn ei brofi'n llai aml nag unwaith y flwyddyn, neu byth. Roedd hyn yn cynnwys 23% a ddywedodd nad ydynt fyth yn profi eu synhwyrydd/larwm mwg neu nad oedd yn berthnasol, o bosibl oherwydd bod landlord yn cyflawni'r dasg hon, ac 11% a ddywedodd eu bod yn ei brofi yn llai aml nag unwaith y flwyddyn.

6.26 Fesul segment, segmentau ‘Pryderus ond gydag amheuon’ (41%) a ‘Diogel a chysurus’ (39%) oedd y rhai mwyaf tebygol o ddweud eu bod yn profi eu synhwyrydd mwg yn llai aml nag unwaith y flwyddyn neu fyth. Roedd 40% o segment ‘Anniogel ac anweithredol’ yn profi eu larwm mwg yn llai aml nag unwaith y flwyddyn neu byth, er nad oedd y canlyniad hwn yn wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol o’i gymharu â’r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd (o ganlyniad i faint llai y sampl yn y segment hwn). Roedd y segmentau eraill yn tueddu i archwilio yn amlach a theimlo’n fwy hyderus am eu diogelwch o ganlyniad. Segmentau ‘Bodlon ac ymddiriedus’ (22%) a ‘Hunanddibynnol’ (25%) oedd y rhai lleiaf tebygol o adrodd eu bod yn profi eu synhwyrydd mwg yn llai aml nag unwaith y flwyddyn neu fyth; ac roedd hyn lawer yn is o’i gymharu â’r ymatebion gan yr holl breswylwyr a holwyd (34%). Nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol wrth gymharu cyfran y preswylwyr yn segment ‘Heb fod yn ymgysylltu’ a oedd yn profi eu larwm mwg unwaith y flwyddyn neu fyth (30%) o’i gymharu â’r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd (34%).

6.27 Ymhlith 23% o breswylwyr sydd â synhwyrydd mwg yn eu cartref, nad ydynt fyth yn ei brofi eu hunain, roedd gan 64% ohonynt rywun arall a oedd yn profi’r larwm mwg ar eu rhan, a dywedodd y gweddill nad oedd yn cael ei brofi o gwbl (17%) neu nad oeddent yn siŵr (20%). Ymhlith yr holl breswylwyr sydd â synhwyrydd mwg yn eu cartref (92%), mae’r cyfrannau hyn yn dangos bod 15% o breswylwyr sydd â synhwyrydd mwg yn dibynnu ar rywun arall i’w brofi ar eu rhan a dywedodd 8% nad yw’n cael ei brofi o gwbl neu eu bod yn ansicr.

6.28 Yn yr arolwg, diffiniwyd adrannu fel a ganlyn: ‘Mae hyn yn golygu y gellir dal tân yn y man lle y cychwynnodd, fel bod modd ei ddiffodd cyn iddo ledaenu. Yn arbennig, peidio gwneud newidiadau i waliau, lloriau, ffenestri neu ddrysau a allai gynyddu risg tân yn lledaenu; a sicrhau bod drysau tân yn cael eu cadw ar gau.’ Roedd tua 41% yn hyderus ynghylch cynnal adrannu yn eu hadeilad. Roedd 65% o breswylwyr yn hyderus eu bod yn gallu cadw llwybrau dianc yn eu hadeilad yn glir.

6.29 Defnyddiwyd yr agweddau a’r ymddygiad a drafodwyd uchod i gyfrannu at ddatblygiad y segmentau preswylwyr. Mae’r segmentau yn adlewyrchu cymhelliant preswylwyr a’u gallu i ymgysylltu â’r mathau hyn o ymddygiad ataliol, gan amrywio o’r segment sy’n ymgysylltu fwyaf, sef ‘Hunanddibynnol’, i segment ‘Pryderus ond gydag amheuon’, yr oeddent yn pryderu am ddiogelwch tân ond maent yn tueddu i fod yn drwgdybio ac yn anweithredol.

## Deall osgoi ymddygiad peryglus o ran diogelwch tân

6.30 Yn y cyfweliadau ansoddol, roedd preswylwyr nad ydynt yn ymddwyn mewn unrhyw ffyrdd peryglus o ran diogelwch tân yn aml yn teimlo eu bod yn gwneud hynny yn reddfol. Cyfeiriont at eu gwybodaeth bresennol am ddiogelwch tân neu’r hyn yr oeddent yn ei ddisgrifio fel synnwyr cyffredin er mwyn esbonio eu gweithredoedd. Roedd ofn neu orbryder am fod mewn tân yn rheswm arall a nodwyd.

‘Synnwyr cyffredin yw hyn. Os oes allanfa dân ac os mai hon yw’r unig ffordd o adael yr adeilad, mae synnwyr cyffredin yn dweud bod angen i chi ei chadw’n glir. Ac mae arwyddion ar draws y waliau sy’n dweud hynny wrthych.’ (‘Diogel a chysurus’, tenant cymdeithasol, categori 2, 45-54 oed)

‘Tyfais i fyny yn ystod yr 80au, pan oeddem yn arfer cael darllediadau gwasanaeth cyhoeddus am ddiogelwch, felly mae wedi gwreiddio ynof.’ (‘Pryderus ond gydag amheuon’, perchennog cartref, categori 2, 45-54 oed)

## Nodweddion adeilad a deunyddiau diogelwch tân

6.31 Holwyd preswylwyr yn yr arolwg ar-lein am y gwahanol nodweddion diogelwch tân yr oeddent yn ymwybodol ohonynt yn eu cartrefi a’u hadeiladau, o restr a ddarparwyd. Adroddodd mwyafrif helaeth (92%) y preswylwyr bod ganddynt synhwyrydd mwg/larwm tân yn eu cartref, ac adroddodd 65% bod un yn eu hadeilad. Roedd 56% o breswylwyr yn ymwybodol o’r ffaith bod ganddynt ddrws tân yn eu cartref ac adroddodd cyfran debyg (53%) bod ganddynt un yn eu hadeilad. Adroddodd 51% bod arwyddion allanfa ac adroddodd 44% bod goleuadau argyfwng yn ardaloedd cymunol eu hadeilad (Tabl 8.1).

6.32 Nododd ychydig dros hanner y preswylwyr (52%) dri i bum darn o offer diogelwch tân yn eu cartref o restr a ddarparwyd yn yr arolwg; a nododd ychydig dan hanner ohonynt (46%) dri i bum darn yn ardaloedd cymunol neu a rennir eu hadeilad.

**Tabl 7.1 Canran y preswylwyr sydd ag offer diogelwch tân yn y cartref ac mewn ardaloedd cymunol neu a rennir yn yr adeilad**

| Offer | Presennol yn y Cartref | Presennol yn yr Adeilad |
|---|---|---|
| Synhwyrydd mwg/larwm tân | 92% | 65% |
| Drysau tân | 56% | 53% |
| Diffoddwr tân | 28% | 34% |
| Blanced dân | 25% | 9% |
| System chwistrellu | 13% | 14% |
| Morthwylion dianc | 3% | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol dianc rhag tân | 2% | 2% |
| Cadeiriau gwacáu | 1% | 1% |
| Arwyddion allanfa | amherthnasol | 51% |
| Goleuadau argyfwng | amherthnasol | 44% |

E1a. A oes gennych chi unrhyw rai o'r rhain yn eich cartref? Pob ymatebydd (1,562)
E1b. A oes gennych chi unrhyw rai o'r rhain mewn ardaloedd cymunol neu a rennir yn eich adeilad?
Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562)

6.33 Roedd amrywiad o ran presenoldeb mesurau diogelwch tân yn tueddu i adlewyrchu deiliadaeth a'r math o adeilad yr oedd y preswylydd yn byw ynddo, megis bod y rhai mewn adeilad Categori 1 yn tueddu i adrodd am ddrysau tân neu bod tenantiaid cymdeithasol yn fwy tebygol o gael synhwyrydd/larwm mwg. Er y gwelwyd amrywiad fesul math o segment, gyda grŵp 'Hunanddibynnol' yn tueddu i adrodd mwy o fesurau, gallai hyn adlewyrchu eu deiliadaeth ac amgylchiadau eu hadeilad fel arall.

6.34 Yn y cyfweliadau manwl gyda phreswylwyr, roedd hi'n glir bod presenoldeb offer diogelwch tân yn y cartref/adeilad yn ffactor allweddol a oedd yn cyfrannu at beri i breswylwyr deimlo'n hyderus ac yn ddiogel. At hynny, dywedodd rhai preswylwyr bod sicrwydd rheolaidd bod y nodweddion hyn yn gweithio (megis profion rheolaidd o'r larwm tân) yn sicrhau bod materion diogelwch tân ym mlaen eu meddwl. Ar y llaw arall, dywedodd rhai preswylwyr bod cael yr holl ddarnau hyn o offer diogelwch tân yn eu hannog i beidio meddwl am ddiogelwch tân, gan bod eu presenoldeb yn tawelu eu meddwl ac yn golygu nad oedd yn rhaid iddynt feddwl am a gofidio am ddiogelwch tân.

'Rydw i'n hyderus gan bod gennym system fodern iawn yma...mae gennym larymau mwg, diffoddwyr tân a goleuadau argyfwng yn y tŷ.' ('Anniogel a heb fod yn pryderu', rhentwr preifat, categori 2, 55-64 oed).

# 7. Mynegi cwynion, a pherthnasoedd rhwng preswylwyr a rheolwyr adeiladau

## Perthnasoedd rhwng preswylwyr a landlordiaid/rheolwyr adeiladau

7.1 Adroddodd 73% o'r holl breswylwyr a holwyd eu bod yn rhentu eu cartref gan landlord cymdeithasol (28%) neu landlord preifat (45%). Roedd mwyafrif y preswylwyr sy'n rhentu eu cartref gan landlord cymdeithasol neu breifat yn cytuno

bod ganddynt berthynas dda gyda nhw (65%), ac roedd 9% yn anghytuno, ac nid oedd 21% yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd preswylwyr sydd â landlordiaid preifat yn fwy bodlon (69%) na'r rhai sydd â landlord cymdeithasol (58%).

7.2 Roedd y berthynas gyda'r landlord (pan oedd hynny'n berthnasol) yn ysgogydd allweddol o ran y segment y neilltuwyd preswylydd iddo. Dim ond 48% o'r rhai yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' adroddodd am berthynas dda gyda'u landlord, o'u cymharu ag 88% o'r rhai yn segment 'Bodlon ac ymddiriedus' a 76% yn segment 'Hunanddibynnol', gan ddangos pwysigrwydd posibl y berthynas hon wrth ysgogi agweddau ac ymddygiad cadarnhaol o ran diogelwch tân.

7.3 Gofynnwyd i breswylwyr a oedd yn rhentu eu cartref gan landlord preifat, lesddeiliaid a'r rhai a oedd yn byw yn eu cartref 'heb dalu rhent7' i ba raddau yr oedd ganddynt berthynas dda gyda'r sefydliad sy'n rheoli eu hadeilad. Roedd perthnasoedd gyda sefydliadau sy'n rheoli adeiladau yn llai tebygol o gael eu hystyried yn rhai cadarnhaol: roedd 46% yn cytuno bod ganddynt berthynas dda, ac roedd 11% yn anghytuno a dywedodd 16% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Dylid nodi hefyd bod 22% wedi dweud nad yw perthynas gyda'r sefydliad sy'n rheoli'r adeilad yn berthnasol iddyn nhw. Unwaith eto, mae perthynas gadarnhaol yn gysylltiedig ag agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddiogelwch tân ac adeiladau, wrth i 67% o'r rhai yn segment 'Bodlon ac ymddiriedus' adrodd am berthynas dda gyda rheolwyr yr adeilad, o'u cymharu â 37% yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon'.

7.4 Roedd y cyfweliadau ansoddol wedi datgelu rhywfaint o'r amrywiaeth o ran landlordiaid a rheolwyr adeiladau, o landlordiaid cymdeithasol mawr a threfniadau rheoli adeiladau ffurfiol mewn adeiladau mwy o faint, i berthnasoedd llai ffurfiol gyda landlordiaid unigol:

'Nid ydw i'n hoff iawn ohono oherwydd ei weithredoedd mewn perthynas â'r adeilad. Nid yw'n cael unrhyw gyswllt go iawn gyda'r adeilad, ac eithrio casglu'r arian rhent a delio gyda phobl na fyddant yn talu rhent.' ('Heb fod yn ymgysylltu', rhentwr preifat, categori 2, 35-44 oed)

'Maent yn broffesiynol iawn ac yn hawdd troi atynt yn ôl yr angen...maent yn gyfeillgar iawn. Maent ar agor bob awr o'r dydd ac mae'n hygyrch anfon neges destun atynt neu siarad â nhw wyneb yn wyneb.' ('Hunanddibynnol', rhentwr preifat, categori 1, 18-24 oed)

7.5 Roedd gan rai o'r rhai a gyfwelwyd ddealltwriaeth glir o drefniadau rheoli adeilad a'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân, ond nid oedd eraill mor glir. Dywedodd rhai rhentwyr preifat y byddent yn codi unrhyw bryderon trwy eu landlord, yn hytrach nag yn uniongyrchol gyda rheolwyr yr adeilad.

7.6 Roedd y graddau yr ymddiriedir mewn landlordiaid a rheolwyr adeiladau yn amrywio yn ôl profiadau preswylwyr a'r graddau yr oedd y landlord neu reolwr yr adeilad yn weladwy ac yn hygyrch. Gallai'r gwelededd a'r hygyrchedd hwn gynnwys amrediad o

[7] Mae hyn yn cynnwys preswylwyr sy'n byw mewn eiddo y mae ffrind neu berthynas yn berchen arno.

ffactorau ac nid oedd wastad yn golygu presenoldeb corfforol yn yr adeilad. Er bod rhai preswylwyr yn adnabod unigolyn (er enghraifft, swyddog tai neu landlord a oedd yn ymweld â'r adeilad), i eraill, roedd hygyrchedd yn golygu gwybod bod rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost y gallent ddibynnu arno er mwyn cysylltu yn ôl yr angen a bod gwybodaeth wedi cael ei chyfleu iddynt yn glir (er enghraifft trwy bosteri neu daflenni).

7.7 Roedd ymddiriedaeth yn ymwneud â gweithredoedd blaenorol y landlord neu reolwr yr adeilad hefyd, er enghraifft, a oeddent wedi ymateb i unrhyw faterion a godwyd neu wneud gwaith trwsio mewn ffordd amserol – os oedd y materion yn ymwneud â diogelwch tân neu beidio.

7.8 Wrth ystyried diogelwch tân yn benodol, roedd nodweddion camau cadarnhaol gan landlordiaid a rheolwyr adeiladau yn cynnwys:

- darparu offer diogelwch tân yn yr adeilad a gallu gweld camau yn cael eu cymryd i wella diogelwch (er enghraifft gosod chwistrellwyr neu ddatrys problemau cladin)
- preswylwyr yn cael eu hysbysu o'r ffaith bod profion ac archwiliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd (er enghraifft, profi larymau tân) a bod canlyniadau unrhyw archwiliadau yn cael eu hadrodd yn ôl i breswylwyr
- cyfathrebu clir, gan gynnwys trwy gyfrwng hysbysiadau yn yr adeilad, taflenni a deunydd briffio i bobl pan fyddant yn symud i'r adeilad, a chyfathrebu canlyniad unrhyw broblemau pan fyddant wedi codi
- arwyddion clir yn yr adeilad (er enghraifft, llwybrau dianc rhag tân).

Pan oedd preswylwyr yn teimlo'n llai cadarnhaol am weithredoedd eu landlord neu reolwr eu hadeilad, roedd problemau yn cynnwys:

- gwybodaeth a ddarparir yn annigonol. Er enghraifft, roedd rhai yn dymuno gweld mapiau clir o gynllun yr adeilad ar bob llawr a llwybrau dianc ac arwyddion mwy clir. Roedd eraill yn dymuno cael gwybodaeth well pan fyddent yn symud i mewn i adeilad
- esboniad gwael o'r rhesymau dros gael rheolau diogelwch tân i sawl ymatebydd: er enghraifft, dywedodd nifer fach o breswylwyr eu bod wedi cael gwybod na allent gael matiau drysau yn y coridor y tu allan i ddrysau ffrynt, ond ni esboniwyd y rheswm dros hyn iddynt
- diffyg ymateb i broblemau diogelwch tân a godwyd, gan gynnwys gwneud gwaith trwsio neu welliannau a oedd yn angenrheidiol yn ôl y preswylwyr.

## Ymwybyddiaeth o gwynion

7.9 Roedd 90% o breswylwyr yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw i fynegi pryder neu gŵyn am eu cartref neu eu hadeilad. Fodd bynnag, nid oedd deg% yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw.

7.10 Gan gyd-fynd â'u hamgylchiadau a'u hagweddau at ddiogelwch tân, y rhai yn segment 'Anniogel ac anweithredol' oedd fwyaf tebygol o beidio gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw i fynegi pryder neu gŵyn am eu cartref neu eu hadeilad (22%). Roedd preswylwyr yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' (14%) hefyd yn fwy tebygol o beidio gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw i fynegi pryder neu gŵyn, o'u cymharu â'r holl breswylwyr a holwyd.

## Cwynion a wnaethpwyd

7.11 Dros y 12 mis diwethaf, dywedodd 39% o'r holl breswylwyr a holwyd eu bod wedi mynegi pryder neu gŵyn am eu cartref neu eu hadeilad. Roedd y gyfran yn uwch ymhlith segment 'Pryderus ond gydag amheuon' (60%); mae hyn yn awgrymu bod amrywiad yn y segment hwn o ran ymwybyddiaeth is o'r sawl y dylid mynegi pryder neu gŵyn iddynt, a mwy o debygolrwydd y byddant wedi gwneud cwyn am eu cartref neu eu hadeilad. Yn ogystal, roedd preswylwyr yn segment 'Diogel a chysurus' (47%) yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi mynegi pryder neu gŵyn am eu cartref neu eu hadeilad yn ystod y 12 mis diwethaf.

7.12 Gofynnwyd i breswylwyr a oedd wedi gwneud cwyn yn ystod y 12 mis diwethaf i nodi manylion y materion yr oeddent wedi cwyno amdanynt8. Roedd 19% wedi mynegi pryder neu gŵyn am ddiogelwch tân, a oedd yn cyfateb ag wyth% o'r holl breswylwyr a holwyd. At ei gilydd, diogelwch tân oedd y pedwerydd mater mwyaf poblogaidd yr oedd preswylwyr yn cwyno amdano. Y pum prif fater y cwynwyd amdanynt, mewn trefn, oedd: gwaith trwsio a chynnal a chadw yn y cartref (65%), gwaith trwsio a chynnal a chadw yn yr adeilad (37%), ymddygiad preswylwyr eraill (28%), diogelwch tân (19%), a sŵn (16%).

7.13 Mae preswylwyr yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' yn haeddu sylw arbennig wrth ystyried mynegi pryderon a chwynion. Nhw oedd y segment mwyaf tebygol o fynegi pryder neu gŵyn yn gyffredinol (60%) a'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi mynegi pryder neu gŵyn am ddiogelwch tân yn benodol (26%).

7.14 Roedd preswylwyr sy'n byw ar y 3ydd a'r 4ydd llawr (29%) yn fwy tebygol hefyd o fod wedi mynegi pryder neu gŵyn am ddiogelwch tân.

---

1.1 [8] Yn yr arolwg, roedd preswylwyr yn gallu nodi mwy nag un mater yr oeddent wedi cwyno amdano. Adroddodd rhai preswylwyr eu bod wedi cwyno am fwy nag un mater yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn golygu nag yw swm y materion y cwynwyd amdanynt yn rhoi swm o 100%.

7.15 Roedd y rhai a oedd wedi cwyno am ddiogelwch tân neu gladin allanol yn fwyaf tebygol o gyfleu eu cwyn i reolwr yr adeilad (45%), a ddilynwyd gan eu cymdeithas tai (29%) neu eu landlord (24%), yn unol â'u deiliadaeth. Adroddwyd patrwm tebyg am breswylwyr a oedd wedi cwyno am annibendod yn ardaloedd cymunol eu hadeilad; roedd 32% wedi cwyno i reolwr eu hadeilad, roedd 24% wedi cwyno i'w landlord ac roedd 22% wedi cwyno i'w cymdeithas tai.

7.16 Wrth ystyried cwynion am waith trwsio a chynnal a chadw yn ardaloedd cymunol yr adeilad, rheolwr yr adeilad oedd y prif unigolyn yr oedd y preswylwyr wedi cwyno iddynt hefyd (42%). Fodd bynnag, ar gyfer materion yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw yn eu cartref, roedd preswylwyr fwyaf tebygol o gysylltu â'u landlord (51%). Mae hyn yn awgrymu bod preswylwyr yn barnu bod diogelwch tân yn fater sy'n ymwneud â'r adeilad yn hytrach na'r cartref.

## Mynegi pryderon am ddiogelwch tân yn y dyfodol

7.17 Gofynnwyd i'r preswylwyr hefyd pa mor debygol oedd hi y byddent yn mynegi pryderon am ddiogelwch tân yn eu cartref i'w landlord, eu cymdeithas tai neu reolwr eu hadeilad yn y dyfodol. Er y byddai'r mwyafrif (80%) yn debygol o fynegi pryder, byddai saith% yn annhebygol o fynegi eu pryder.

7.18 Roedd hi'n nodwedd o'r segment 'Anniogel ac anweithredol' i fod yn llai tebygol o fynegi pryderon neu gŵyn yn y dyfodol am ddiogelwch tân (53%). Yn ogystal, roedd preswylwyr yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' (71%) yn llai tebygol o ddweud y byddent yn mynegi pryder neu gŵyn yn y dyfodol, o'u cymharu â'r holl breswylwyr. Yn ystod cyfweliadau dilynol ynghylch pam na fyddent yn dymuno mynegi pryder am ddiogelwch tân gyda rheolwr eu hadeilad, eu landlord neu eu cymdeithas tai, roedd y rhesymau yn cynnwys:

- heb fod yn dymuno 'poeni' unrhyw un
- er mwyn osgoi gwrthdaro gyda chymdogion
- dim ond os byddai'n rhywbeth a fyddai wedi codi eto y byddent yn mynegi pryder
- nid oeddent yn credu y byddai unrhyw beth yn cael ei wneud amdano (o ganlyniad i argraffiadau negyddol o awdurdodau)
- nid oeddent yn credu y byddai unrhyw beth yn cael ei wneud amdano (o ganlyniad i brofiad blaenorol)
- roeddent wedi bodloni'r pryderon a oedd ganddynt mewn ffordd annibynnol.

7.19 Roedd y safbwyntiau hyn yn cadarnhau tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam cwmpasu gan randdeiliaid a oedd yn awgrymu bod diffyg ymgysylltu preswylwyr â'r broses gwynion yn deillio:

- o'r ffaith bod preswylwyr yn llai tebygol o fynegi pryderon os na roddwyd sylw i faterion a godwyd yn flaenorol

- ddiffyg tryloywder am y broses gwyno.

## Gwella'r broses gwyno

7.20 Wrth wella'r broses gwyno, roedd gan breswylwyr yn y cyfweliadau ansoddol sawl awgrym am yr hyn y gallai rheolwr yr adeilad, y landlord neu'r gymdeithas tai ei wneud. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ei gwneud yn haws dod o hyd i fanylion cyswllt partïon perthnasol – er enghraifft, eu rhoi ar hysbysfwrdd mewn ardal gymunol
- cael presenoldeb corfforol yn yr adeilad – er enghraifft, porthor neu swyddog tai
- cyflwyno trefniant ffurfiol i gydnabod y cyfathrebu sydd wedi digwydd, a rhoi hysbysiadau am faterion ac a oes sylw yn cael ei roi iddynt er mwyn cynnig cysur i breswylwyr
- cynnig sianel gyfathrebu 24 awr ar gyfer pryderon a chwynion
- gweithredu proses gwyno ddienw, fel y gall preswylwyr deimlo'n fwy cyffyrddus wrth fynegi pryderon pan fyddant yn cael problemau gyda chymdogion
- cynnal neu redeg cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd.

7.21 Unwaith eto, roedd rhanddeiliaid wedi adleisio persbectifau tebyg, gan awgrymu y gallai rheolwyr adeiladau, landlordiaid a chymdeithasau tai:

- gynnig cyfathrebu clir am y broblem, yr hyn sy'n cael ei wneud i'w datrys, a pham eu bod yn gallu/methu ei datrys
- cynnig mwy o 'gyffyrddiad personol' er mwyn deall y problemau y mae preswylwyr yn eu hwynebu ac ymgysylltu â nhw mewn ffordd go iawn er mwyn ceisio datrys eu problemau
- defnyddio staff y gwasanaeth tân wrth ddelio â chwynion am fesurau diogelwch tân a chyfleu pwysigrwydd mesurau/camau gweithredu penodol.

## Archwiliadau

7.22 Dywedodd 49% o breswylwyr bod eu landlord neu reolwr eu hadeilad wedi gofyn am gael mynediad er mwyn cynnal archwiliad diogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd ceisiadau i gynnal archwiliadau yn fwy cyffredin hefyd ymhlith y rhai a oedd yn rhentu gan landlord preifat (53%) neu mewn tai cymdeithasol (54%), ac yn llai cyffredin ymhlith perchen-feddianwyr (37%). Roeddent yr un mor gyffredin ymhlith preswylwyr mewn adeiladau Categori 1 (49%) a Chategori 2 (50%). Roedd mwyafrif helaeth y preswylwyr yn caniatáu mynediad i'w landlord neu reolwr eu hadeilad pryd bynnag y byddent yn gofyn (98%).

7.23 Er bod achosion o wrthod mynediad i gynnal archwiliad yn brin ymhlith ymatebwyr i'r gwaith ymchwil hwn, roedd hi'n amlwg o'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid bod lleiafrif bach o breswylwyr yn amharod iawn i gynnig mynediad, ac y gallai hyn fod yn heriol i landlordiaid a rheolwyr adeiladau. Roedd awgrymiadau ynghylch sut y byddai modd gwella mynediad ar gyfer archwiliadau yn cynnwys:

- cyfathrebu ymlaen llaw a rhoi cyfnod da o rybudd
- cyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd
- bod yn hyblyg am apwyntiadau ar gyfer archwiliadau
- sicrhau bod y cyfathrebu ymlaen llaw yn glir, gan amlinellu'r rheswm dros yr archwiliad a'r hyn a fydd yn ei gynnwys
- bod yn glir am yr hyn sydd o fewn cwmpas yr archwiliad, a'r hyn sydd y tu hwnt i'w gwmpas, er mwyn lleddfu unrhyw bryderon (e.e. am farnu amodau byw preswylydd)
- pan fo modd, bod yr archwiliad yn cael ei gynnal gan rywun y mae'r preswylydd yn eu hadnabod, neu o leiaf mae ganddynt ddogfen adnabod glir a ffordd i'r preswylydd sicrhau dilysrwydd yr unigolyn sy'n ceisio mynediad i'r cartref
- pan fo modd, gallu cynnig archwilwyr o wahanol rhyw, neu roi gwybod y rhyw ymlaen llaw, a chael ymwybyddiaeth o ystyriaethau diwylliannol perthnasol.

# 8. Cyfleu negeseuon diogelwch tân

## Ymgysylltu â deunydd cyfathrebu am ddiogelwch tân

8.1 Yn gyffredinol, roedd 82% o breswylwyr yn cytuno eu bod yn darllen llythyrau neu hysbysiadau y maent yn eu cael am yr hyn sy'n digwydd yn eu hadeilad.

8.2 Unwaith eto, roedd aelodaeth segmentau yn adlewyrchu'r nodweddion hyn a'r gweithgarwch ymgysylltu gyda deunydd cyfathrebu, gan amrywio o 91% yn ymgysylltu gyda llythyrau a hysbysiadau ymhlith segmentau 'Diogel a chysurus' a 'Bodlon ac ymddiriedus', o'i chymharu â 73% ymhlith segment 'Pryderus ond gydag amheuon' a 67% ymhlith segment 'Heb fod yn ymgysylltu' (67%).

8.3 Holwyd preswylwyr a oedd yn rhentu eu cartref gan landlord cymdeithasol neu breifat a yw eu landlord neu eu darparwr tai yn rhoi gwybod iddynt am bethau sy'n bwysig iddynt: roedd 63% yn cytuno, ac roedd 17% yn anghytuno.

8.4 Ymhlith preswylwyr a oedd yn rhentu eu cartref, roedd y rhai yn segment 'Pryderus ond gydag amheuon' yn fwy tebygol o anghytuno bod eu landlord neu eu darparwr tai yn rhoi gwybod iddynt am bethau sy'n bwysig iddynt (30%), o'u cymharu â'r holl breswylwyr. Mewn cyferbyniad, y rhai sy'n rhentu ac sydd yn segmentau 'Bodlon ac ymddiriedus' a 'Hunanddibynnol' oedd y rhai lleiaf tebygol o anghytuno bod eu landlord neu eu darparwr tai yn rhoi gwybodaeth iddynt (un% a saith%).

## Cofio deunydd cyfathrebu am ddiogelwch tân

8.5 Gan ystyried gwybodaeth am ddiogelwch tân yn benodol, roedd 43% o'r holl breswylwyr yn cofio gweld neu gael o leiaf un darn o gyfathrebu am ddiogelwch tân (o restr o ffynonellau a gynigiwyd) yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd 41% o'r

holl breswylwyr nad oeddent wedi gweld na chael unrhyw wybodaeth o'r fath am ddiogelwch tân, a dywedodd 16% o'r holl breswylwyr nad oeddent yn gwybod.


8.6 Y rhai mwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth am ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf oedd segment 'Diogel a chysurus' (49%) a segment 'Hunanddibynnol' (48%). I'r gwrthwyneb, roedd y rhai 'Pryderus ond gydag amheuon' a 'Heb fod yn ymgysylltu' yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael unrhyw wybodaeth am ddiogelwch tân (34% a 32%).

8.7 Roedd segment 'Pryderus ond gydag amheuon' yn fwy tebygol na segmentau eraill o ddweud yn bendant nad oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth am ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf (49%). Os yw hyn yn adlewyrchu diffyg cyfathrebu neu ddiffyg ymgysylltu gyda'r deunydd cyfathrebu, ceir grŵp o breswylwyr nad ydynt yn cael sicrwydd gan eu landlord neu reolwr eu hadeilad, ac y maent yn teimlo'n bryderus am ddiogelwch tân.

## Effeithiolrwydd sianelau cyfathrebu

8.8 Fel y dangosir yn Ffigur 9.1, roedd pobl yn tueddu i gofio neu gael gwybodaeth am ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf trwy gyfrwng y cyfryngau traddodiadol canlynol: posteri mewn ardaloedd cymunol/a rennir yn yr adeilad (21%), llythyrau (18%) neu negeseuon e-bost at aelod o'r aelwyd (naw%). Roedd lleiafrif bach o breswylwyr yn cofio cael gwybodaeth am ddiogelwch tân trwy gyfryngau cymdeithasol (pedwar%), neu trwy negeseuon testun neu WhatsApp (tri%).

**Ffigur 9.1 Sianelau cyfryngau lle y gwelwyd neu lle y cafwyd gwybodaeth am ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf**




H1: Ym mha gyfrwng ydych chi wedi gweld neu gael gwybodaeth am ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf? Sylfaen: Pob ymatebydd (1,562). Ni ddangosir ffynonellau a nodwyd gan 1% neu lai ar y siart.

8.9 Gofynnwyd i breswylwyr a oedd yn cofio'r ffurf yr oeddent wedi cael gwybodaeth am ddiogelwch tân, i nodi ffynhonnell y wybodaeth, a lefel eu gweithgarwch ymgysylltu gyda hyd at dri ffurf/sianel. Gofynnwyd cwestiynau i breswylwyr yr oeddent wedi dewis mwy na thair ffynhonnell wybodaeth, am dair o'r ffynonellau gwybodaeth yn unig, ar hap. Mae hyn yn golygu na ofynnwyd cwestiynau dilynol am ffynonellau penodol i gyfran fach o breswylwyr a oedd wedi nodi ffynonellau gwybodaeth am ddiogelwch tân.

## Posteri

8.10 Er mai hwn oedd y dull cyfathrebu mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd ato, nid oedd pobl yn cofio'r cynnwys gystal. O blith yr 21% o breswylwyr a oedd yn cofio gweld posteri, roedd 58% ohonynt yn cofio rhan fwyaf y cynnwys neu'r holl gynnwys. Y posteri y cofiwyd eu gweld fwyaf oedd y rhai gan y landlord neu reolwr yr adeilad (62%) ac roedd pump% yn nodi bod y poster gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

## Llythyr

8.11 Er mai hwn oedd yr ail ddull cyfathrebu mwyaf cyffredin y cofiwyd amdano, roedd pobl yn cofio cynnwys llythyrau yn well. O blith y 18% o breswylwyr a oedd yn cofio cael llythyr, roedd 72% wedi cofio'r holl gynnwys neu ran fwyaf y cynnwys. Y llythyrau y cofiwyd eu cael fwyaf oedd y rhai gan y landlord neu reolwr yr adeilad (65%) neu'r awdurdod lleol (14%).

## E-bost

8.12 Er bod preswylwyr yn llai tebygol o gofio cael neges e-bost (naw%), roedd swm y wybodaeth a gofiwyd yn gymharol gyda llythyrau, wrth i 71% o dderbynwyr ddweud eu bod yn cofio'r holl gynnwys neu ran fwyaf y cynnwys. Dywedodd y rhai yr oeddent wedi cael neges e-bost am ddiogelwch tân bod hwn gan eu landlord neu reolwr eu hadeilad fel arfer (85%).

## Cyfryngau cymdeithasol

8.13 Dim ond pedwar% o breswylwyr oedd yn cofio negeseuon am ddiogelwch tân ar gyfryngau cymdeithasol, ac roedd cyfanswm y cynnwys yr oeddent yn ei gofio yn gymharol isel, gydag ychydig dan hanner (48%) ohonynt yn cofio'r holl gynnwys neu'r rhan fwyaf ohono.

8.14 Cyfeiriodd preswylwyr a oedd wedi gweld gwybodaeth am ddiogelwch tân mewn negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol at ffynonellau amrywiol, gan gynnwys: Y Gwasanaeth Tân ac Achub (24%), y landlord neu reolwr yr adeilad (14%), yr awdurdod lleol (14%). Ni allai tua 29% o breswylwyr a oedd wedi gweld gwybodaeth am ddiogelwch tân ar gyfryngau cymdeithasol gofio ei ffynhonnell.

## Neges destun neu WhatsApp

8.15 Mae'n ymddangos bod negeseuon testun a WhatsApp yn cael eu defnyddio'n anaml iawn, gyda dim ond tri% o breswylwyr yn cofio eu cael. Fodd bynnag, ar gyfer y tri% hwn, roedd yr effaith yn uchel, gyda 76% a oedd wedi gweld y math hwn o gyfathrebu yn ystod y 12 mis diwethaf, yn adrodd eu bod yn cofio'r holl gynnwys neu'r rhan fwyaf ohono. Ymhlith preswylwyr yr oeddent wedi cael neges destun neu WhatsApp am ddiogelwch tân, roedd hon gan y landlord neu reolwr yr adeilad fel arfer (87%).

## Sianelau cyfathrebu a ffefrir

8.16 Gofynnwyd i breswylwyr nad oeddent wedi cofio unrhyw wybodaeth am ddiogelwch tân i nodi pa ffurf fyddai fwyaf defnyddiol iddyn nhw er mwyn iddynt gofio gwybodaeth am ddiogelwch tân. Roedd preswylwyr ym mhob segment yn teimlo mai llythyrau a anfonir i'r cartref (35%) fyddai fwyaf defnyddiol, a ddilynwyd gan bosteri mewn rhannau cymunol neu a rennir o'r adeilad (21%) a negeseuon e-bost (15%). Byddai llai nag un o bob deg yn gweld y ffurfiau canlynol fel y rhai mwyaf defnyddiol:

negeseuon testun/WhatsApp (saith%), cyfryngau cymdeithasol (chwech%), galwadau ffôn (un%).

8.17 Roedd y grwpiau canlynol o breswylwyr nad oeddent wedi cofio unrhyw wybodaeth am ddiogelwch tân yn fwy tebygol o ddweud mai llythyrau fyddai fwyaf defnyddiol iddyn nhw er mwyn cofio gwybodaeth am ddiogelwch tân: y rhai 55 oed a throsodd (46%), y rhai sydd wedi ymddeol (50%), y rhai sydd ag anabledd corfforol neu nam ar eu symudedd (49%), y rhai sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol (44%), a'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain (38%).

8.18 Roedd y grwpiau canlynol o breswylwyr, nad oeddent wedi gweld neu gael unrhyw ffynonellau gwybodaeth am ddiogelwch tân, yn adrodd mai gwybodaeth am ddiogelwch tân ar ffurf poster fyddai fwyaf defnyddiol iddynt: roedd preswylwyr sy'n byw mewn adeilad wedi'i drawsnewid (32%) neu mewn adeilad a rennir gydag unedau masnachol (31%) yn fwy tebygol o farnu mai poster yw'r peth mwyaf defnyddiol wrth gofio gwybodaeth am ddiogelwch tân, o'u cymharu â phreswylwyr yn gyffredinol. I breswylwyr sy'n byw mewn adeilad wedi'i drawsnewid, posteri oedd y ffurf yr oeddent yn ei ffafrio fwyaf, ac i breswylwyr sy'n byw mewn adeilad amhreswyl9, roeddent yn ei ffafrio lawn gymaint â llythyrau.

8.19 Adroddwyd mai gwybodaeth am ddiogelwch tân a anfonir mewn neges e-bost oedd y ffurf mwyaf defnyddiol i'r grwpiau canlynol o breswylwyr nad oeddent wedi gweld na chael unrhyw ffynonellau gwybodaeth am ddiogelwch tân: roedd preswylwyr sy'n gwneud gwaith amser llawn (18%), yn ogystal â'r rhai 25-34 oed (19%) a'r rhai 75 oed a throsodd (26%), yn fwy tebygol o farnu mai negeseuon e-bost yw'r ffurf mwyaf defnyddiol, o'u cymharu â phreswylwyr yn gyffredinol.

8.20 Adroddwyd mai gwybodaeth trwy gyfryngau cymdeithasol oedd y ffurf fwyaf defnyddiol i'r grwpiau canlynol o breswylwyr nad oeddent wedi gweld na chael unrhyw wybodaeth am ddiogelwch tân: roedd myfyrwyr amser llawn (15%), y rhai 18-34 oed (deg%), a phreswylwyr sy'n rhentu gan landlord preifat (naw%) yn fwy tebygol o farnu mai postiadau ar gyfryngau cymdeithasol yw'r ffurf fwyaf defnyddiol, o'u cymharu â phreswylwyr yn gyffredinol.

8.21 Adroddwyd mai gwybodaeth am ddiogelwch tân a roddir trwy gyfrwng negeseuon testun neu WhatsApp oedd y ffurf fwyaf defnyddiol gan breswylwyr 35-44 oed (14%) nad oeddent wedi gweld neu gael unrhyw wybodaeth am ddiogelwch tân, o'u cymharu â phreswylwyr yn gyffredinol.

8.22 Roedd y cyfweliadau ansoddol yn ymhelaethu am y rhesymau pam bod yn well gan breswylwyr wahanol ffurfiau gwybodaeth, a byddai modd nodi rhai gwahaniaethau rhwng gwybodaeth a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth bras am ddiogelwch tân sy'n berthnasol i bawb, a gwybodaeth am ddiogelwch tân sy'n benodol i'w hadeilad

[9] Yn yr arolwg, diffiniwyd adeilad amhreswyl fel adeilad masnachol, megis adeilad swyddfeydd neu mewn gwesty.

nhw, megis lleoliad llwybrau dianc. Roedd rhai preswylwyr a gyfwelwyd yn credu y gallai posteri fod yn ffurf dda i ddangos gwybodaeth am ddiogelwch tân, o ganlyniad i'r cyflwyniad syml a gweledol, ac o ganlyniad, efallai y byddent yn fwy tebygol o aros yn y cof. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau'r arolwg yn gwrth-ddweud hyn, gan ganfod nad posteri yw'r cyfrwng sy'n cael ei gofio orau ymhlith preswylwyr yr oeddent wedi cael gwybod yn y ffurf hon (dywedodd 58% o breswylwyr eu bod yn cofio holl gynnwys neu'r rhan fwyaf o gynnwys y poster). Hoffwyd arwyddion a deunydd arddangos arall hefyd oherwydd y gallent fod yn benodol o ran eu cyd-destun, er enghraifft rhoi cyfarwyddiadau i allanfeydd tân a mannau ymgynnull. Gallai negeseuon e-bost a negeseuon testun fod yn ffyrdd da o gyfathrebu gwybodaeth sy'n sensitif o ran ei hamseriad, er enghraifft negeseuon atgoffa am brofion larwm tân. O ran amseriadau, teimlwyd bod cael gwybodaeth (er enghraifft, taflen) wrth symud i eiddo yn ddefnyddiol, ac yn fwy tebygol o gael ei chofio.

8.23 Awgrymwyd y syniad o gael rhyw fath o ddeunydd ymsefydlu wrth symud i mewn hefyd, ac y dylid ei adnewyddu o bryd i'w gilydd (er enghraifft bob chwe mis neu bob blwyddyn) er mwyn helpu preswylwyr i gofio gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch tân, yn hytrach nag ystyried bod un deunydd cyfathrebu wrth symud i mewn yn ddigonol.

8.24 'Rydych chi'n tueddu i anghofio am bethau, felly os oes gennych chi rywbeth rheolaidd, byddwch yn cofio.' ('Heb fod yn ymgysylltu', tenant cymdeithasol, categori 1, 65-74 oed)

8.25 Cyfeiriodd rhai preswylwyr hefyd at yr angen am wybodaeth fwy manwl neu benodol megis sesiynau hyfforddiant:

8.26 'Mae'n iawn cael diffoddwr tân, ond mae angen i chi wybod sut i'w ddefnyddio mewn ffordd hyderus.' ('Anniogel ac anweithredol', tenant cymdeithasol, categori 2, 55-64 oed)

8.27 Gan feddwl am wybodaeth fwy cyffredinol am ddiogelwch tân, awgrymodd rhai y gallai digwyddiadau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan y gwasanaeth tân fod yn ffordd llai ffurfiol ac yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth, ac awgrymwyd addysg mewn ysgolion hefyd. Gallai gwybodaeth ar y teledu gael effaith fawr, wrth i rai gofio ffilmiau gwybodaeth a welwyd sawl blwyddyn yn ôl.

## Ffynonellau gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt

8.28 Dywedodd preswylwyr yn yr arolwg eu bod fwyaf tebygol o weithredu ar sail gwybodaeth a roddir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub (52%) ac roedd 28% yn teimlo y byddent fwyaf tebygol o weithredu ar sail gwybodaeth gan eu landlord neu reolwr eu hadeilad. Byddai llai nag un o bob deg fwyaf tebygol o weithredu ar sail gwybodaeth gan y ffynonellau canlynol: yr awdurdod lleol (saith%), Llywodraeth Cymru (tri%), preswylwyr yn yr adeilad (dau%) neu rywun arall (un%).

8.29 Y Gwasanaeth Tân ac Achub oedd y ffynhonnell wybodaeth yr ymddiriedwyd ynddi fwyaf ar draws pob grŵp oedran a chategori perchentyaeth. Roedd pob segment yn tueddu i fod yn fwy tebygol o ymateb i negeseuon gan y Gwasanaeth Tân ac Achub o'u cymharu â ffynonellau eraill, ac eithrio segment 'Bodlon ac ymddiriedus', yr oeddent fwyaf tebygol o weithredu ar sail gwybodaeth gan eu landlord neu reolwr eu hadeilad. Roedd agweddau tuag at gyfathrebu gan y landlord neu reolwyr yr adeilad yn amrywio fesul segment ac maent yn adlewyrchu eu bodlonrwydd cyffredinol gyda'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

8.30 Roedd y cyfweliadau ansoddol yn ategu'r farn bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn llwybr yr ymddiriedir ynddo i gyfleu negeseuon am ddiogelwch tân, ac yn llwybr sy'n cael effaith. Gallai materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth effeithio ar effaith negeseuon gan landlord neu reolwyr adeilad preswylwyr – nid oedd rhai preswylwyr yn ymddiried yn eu darparwr tai am resymau nad oeddent yn ymwneud â diogelwch tân (e.e. ymateb gwael i gwynion), a oedd yn effeithio ar y graddau y byddai pobl yn gwrando arnynt pe baent yn cyfleu neges am ddiogelwch tân.

# 9. Casgliadau

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelwch tân**

9.1 Er mwyn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion diogelwch tân mewn ffordd effeithiol, mae angen perswadio lleiafrif sylweddol o breswylwyr i ymgysylltu neu i ymgysylltu o'r newydd â'u cyfrifoldeb personol nhw dros ddiogelwch tân yn y lle cyntaf. O blith y chwech segment a nodwyd yn y gwaith ymchwil hwn, byddai modd rhoi blaenoriaeth i dri (sy'n cynrychioli 41% o'r holl breswylwyr) er mwyn iddynt gael cyfathrebu neu ymyrraeth er mwyn annog agwedd gadarnhaol a newid mewn ymddygiad.

9.2 Yn gyntaf, dosbarthwyd 27% o breswylwyr yn rhai 'Pryderus ond gydag amheuon'. Roeddent yn anfodlon gyda'u hadeilad ac nid oedd ganddynt fawr iawn o ymddiriedaeth yn yr awdurdodau sy'n gyfrifol. Ond ar yr un pryd, roeddent yn aml yn dangos lefel gymharol isel o gyfrifoldeb personol dros diogelwch tân yn eu cartref a hyder ynghylch hyn. Nid oedd y grŵp hwn yn barod i dderbyn gwybodaeth am ddiogelwch tân gan nad oedd ganddynt berthynas dda gyda'u landlord neu reolwr eu hadeilad. Roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod wedi gwneud cwyn am ddiogelwch tân yn y gorffennol, ond er hyn, roeddent yn llai tebygol o fynegi cwyn yn y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu bod eu profiadau negyddol o'r broses gwyno, yn ogystal â'u perthynas wael gyda'u landlord neu reolwr eu hadeilad, wedi arwain at agweddau pesimistaidd tuag at ddiogelwch tân yn eu hadeilad. Roedd y preswylwyr hyn yn tueddu i fod ychydig yn iau na'r holl breswylwyr a holwyd, yn fenywaidd ac yn fwy aml, roeddent yn byw yn y sector rhent preifat. Gallai eu gweithgarwch ymgysylltu gyda'u landlord a rheolwr eu hadeilad fod yn anos hefyd gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn anabl, a chael cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor.

9.3 Yn ail, er eu bod yn segment bach (wyth%), gallai preswylwyr 'Heb fod yn ymgysylltu' gael eu perswadio ond mae'n anos eu cyrraedd gan nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu â gwybodaeth am ddiogelwch tân neu weithgareddau dinesig eraill, ac nid oeddent yn teimlo'n hyderus am eu gallu i leihau risgiau tân. Roedd y segment hwn ychydig yn fwy tebygol o fod yn denantiaid cymdeithasol sy'n tueddu i ymddiried yn eu landlord er mwyn cael gwybodaeth am ddiogelwch tân.

9.4 Yn olaf, saith% y preswylwyr a ystyriwyd yn rhai 'Anniogel ac anweithredol' oedd y rhai lleiaf tebygol o deimlo bod ganddynt gyfrifoldeb dros ddiogelwch tân yn eu cartref ac roeddent yn llai tebygol o deimlo'n hyderus eu bod yn gallu cynnal trefniant adrannu yn eu cartref a chadw llwybrau dianc yn glir. Roedd y segment hwn yn tueddu i fod yn breswylwyr iau, nad oedd ganddynt deimladau arbennig o gadarnhaol na negyddol tuag at yr awdurdodau sy'n gyfrifol am eu hadeilad a diogelwch tân. Gallai'r segment hwn gael budd gan gael negeseuon sy'n eu haddysgu am y rheswm pam bod diogelwch tân yn gyfrifoldeb arnyn nhw fel preswylydd.

## Ymddygiad diogelwch tân

9.5 Mae ymddygiad diogelwch tân peryglus, megis gadael sbwriel ar landin cymunol, yn ddangosydd gweledol o gymhelliant sylfaenol isel i ymgysylltu â diogelwch tân ac weithiau, gallu isel i gydymffurfio.

9.6 Rhaid i'r ymdrech i newid yr ymddygiad hwn fynd i'r afael â'r ffordd y mae'r preswylydd yn rhesymoli ei weithredu yn y lle cyntaf, wrth iddynt gyfeirio at y ffaith bod drysau tân yn rhy drwm, nad oes lle i storio eitemau mawr, bod yr awyru yn wael a bod y biniau gwastraff wedi'u lleoli mewn man anghyfleus. Mewn rhai adeiladau, gallai'r datrysiad olygu gwella'r cyfleoedd i gydymffurfio, er enghraifft trwy ei gwneud yn haws i breswylwyr storio eitemau neu waredu sbwriel. Ond mewn adeiladau lle nad yw hyn mor wir, efallai bod angen i breswylwyr ddeall y risg go iawn a achosir gan eu gweithredoedd i ddiogelwch tân, ac nad yw hyn rhyw ffordd yn fwy diogel na phan fydd eraill yn ei gyflawni.

9.7 Er bod gan y rhan fwyaf o breswylwyr synhwyrydd/larwm mwg yn eu cartref, canfu'r arolwg nad yw 8% o'r rhai sydd ag un sy'n ei brofi nac yn cael rhywun arall i'w brofi o leiaf unwaith y flwyddyn.

9.8 Er bod rhan fwyaf y preswylwyr yn teimlo'n hyderus y gallent wacáu eu hadeilad pe bai tân, roedd y rhai sy'n byw mewn adeiladau Categori 1 neu gartref rhent cymdeithasol yn fwy tebygol na phreswylwyr yn gyffredinol o fod heb hyder yn eu gallu i wneud hynny, boed hynny oherwydd y llawr y maent yn byw arno, eu problemau anabledd neu symudedd neu'r dybiaeth bod y ddarpariaeth ar gyfer gwacáu os bydd tân yn annigonol. Er bod cynnal rhestrau wedi'u diweddaru o breswylwyr agored i niwed yn gallu bod yn heriol, yn enwedig os caiff eiddo eu rhentu yn breifat, ceir cymorth er mwyn gwneud ymdrechion i nodi preswylwyr y mae angen cymorth arbennig arnynt gyda diogelwch tân.

9.9 Rhoddwyd hwb i hyder gan weledydd offer diogelwch tân, llwybrau gwacáu a chyfathrebu clir gan landlordiaid a rheolwyr adeiladau. Er mwyn gwella'r ymddiriedaeth yn yr awdurdodau sy'n gyfrifol am eu hadeilad ac ymgysylltu â diogelwch tân, gallai rheolwyr adeiladau roi blaenoriaeth i arwyddion allanfeydd tân a gwelededd gwybodaeth er mwyn helpu i gyrraedd preswylwyr sydd wedi ymddieithrio. Yn yr un modd, efallai y bydd angen i rai preswylwyr gael y rhesymeg dros ofynion diogelwch tân a chyfleu camau gweithredu yn fwy clir er mwyn annog cydymffurfiaeth.

## Mynegi cwynion a'r perthnasoedd rhwng preswylwyr a rheolwyr adeiladau

9.10 Unwaith eto, mae perthynas dda gyda'r landlord a/neu reolwr yr adeilad yn annog ac yn ategu ymddygiad cadarnhaol o ran diogelwch tân. Roedd lleiafrif bach y preswylwyr na fyddent yn mynegi cwyn neu bryder am ddiogelwch tân yn tueddu i gael perthynas wael gyda'u landlordiaid neu reolwyr eu hadeilad, roeddent yn ymddiried llai mewn awdurdodau ac nid oeddent yn dangos unrhyw weithgarwch

ymgysylltu gyda materion diogelwch tân. Unwaith eto, ceir gwahanol gymhelliant dros yr ymddygiad hwn, sy'n gofyn am wahanol negeseuon. Mae rhai preswylwyr yn teimlo'n nerfus ynghylch poeni unrhyw un neu maent yn dymuno osgoi gwrthdaro gyda'u cymdogion. Mae angen anogaeth arnynt i gyfathrebu a chael sicrwydd ynghylch cyfrinachedd ac y byddant yn cael eu cadw yn ddienw yn ôl yr angen. Efallai bod eraill yn teimlo'n sinigaidd y caiff unrhyw beth ei wneud ac maent wedi cael profiad gwael yn flaenorol wrth geisio cyfathrebu gyda'u landlord neu reolwr eu hadeilad. Mae angen i breswylwyr wybod y byddant yn cael profiad cadarnhaol os byddant yn cysylltu, ac y caiff rhywbeth ei wneud, gyda dewisiadau clir i uwchgyfeirio eu mater os na fyddant yn teimlo bod sylw cywir yn cael ei roi iddo. Mae cynnal gwelededd uchel, boed hynny'n gorfforol neu trwy sianelau cyfathrebu, a rhannu'r materion a godwyd gyda rheolwr yr adeilad neu'r landlord, a'r camau a gymerwyd, yn gallu meithrin yr hyder hwn y gwrandawir ar breswylwyr.

9.11 O ran y sianelau cyfathrebu mwyaf effeithiol, roedd preswylwyr yn gwerthfawrogi posteri mewn adeiladau ac ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfleu negeseuon cyffredinol ac er mwyn eu hatgoffa i ystyried diogelwch tân. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofio manylion penodol y cynnwys yn gyffredinol, dim ond 58% oedd yn cofio gwybodaeth o bosteri ac nid oedd 48% yn cofio gwybodaeth o gyfryngau cymdeithasol. Y negeseuon a ysgrifennwyd mewn cyfathrebu personol, trwy neges destun/WhatsApp (76%), llythyr (72%), neu neges e-bost (71%) oedd y rhai a gofiwyd yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'n nodedig mai dim ond tri% o breswylwyr adroddodd eu bod wedi cael negeseuon testun/WhatsApp gan eu landlord neu reolwyr eu hadeilad am ddiogelwch tân, fodd bynnag, roedd y ffurf hon yn arbennig o effeithiol wrth gofio'r cynnwys, gyda 76% o'r grŵp hwn yn cofio rhan fwyaf o gynnwys y neges. Gall gwneud mwy o ddefnydd o negeseuon testun byr a/neu negeseuon e-bost i gyfathrebu am bwnc neu gyfeirio preswylwyr at wybodaeth y mae angen iddynt ei hystyried fod yn ffordd fwy cost-effeithiol o gynnal ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân gydag amser. Gallai hyn helpu preswylwyr iau yn arbennig, y maent yn aml yn eu cartref annibynnol cyntaf, neu nad ydynt o reidrwydd yn cofio gwybodaeth a roddir iddynt ar ddechrau eu tenantiaeth. Mae angen i'r rhan fwyaf o'r deunydd cyfathrebu ddod o reolwr yr adeilad neu'r landlord, ond os bydd modd i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ei gefnogi, mae'n tueddu i gael mwy o effaith ar breswylwyr o ystyried y lefelau ymddiriedaeth uchel.

# Atodiad A – Cwestiynau Ymchwil

Isod, rhestrir set lawn y cwestiynau ymchwil a gynigiwyd ar gyfer y gwaith ymchwil:

Beth mae diogelwch tân yn ei olygu i breswylwyr?

Yn benodol, beth yw lefelau'r wybodaeth am lwybrau gadael a chynlluniau gwacáu personol mewn argyfwng?

Beth yw'r bylchau o ran gwybodaeth am ddiogelwch tân? Er enghraifft, ond heb ei gyfyngu i, gwybodaeth am: Gynlluniau gwacáu, lleoliad neu'r gofyniad i gael offer diffodd tân, defnydd diogel o farbeciw, rhwystrau ar lwybrau dianc, torri gofynion adrannu, defnydd effeithiol o dechnolegau tân, ysmygu a drysau tân.

Pa fathau o ymddygiad a gyflawnir gan aelwydydd er mwyn rheoli risgiau diogelwch tân?

Pa mor effeithiol yw'r rhain?

Sut mae lefelau ymwybyddiaeth o reolau a rheoliadau diogelwch tân yn amrywio yn ôl yr ystyriaethau samplu a nodir yn nes ymlaen yn y fanyleb hon?

Beth sy'n gyrru'r amrywiad rhwng gwahanol lefelau o ymwybyddiaeth o reolau a rheoliadau diogelwch tân ar draws grwpiau preswylwyr?

A yw preswylwyr yn gwybod a oes gan eu hadeilad gynllun diogelwch tân?

Pam, pam ddim?

A yw preswylwyr yn cael gwybodaeth am ddiogelwch tân yn rheolaidd?

Sut rhennir gwybodaeth am ddiogelwch tân gyda phreswylwyr?

A gaiff hyn ei wneud mewn ffordd strwythuredig?

Pa gyfran o breswylwyr sydd erioed wedi gwneud cwyn am ddiogelwch tân neu ddiogelwch adeilad?

Pa gyfran o breswylwyr sydd erioed wedi gwneud cwyn am ddiogelwch tân neu ddiogelwch adeilad?

Sut mae gweithgarwch cwyno yn gwahaniaethu fesul grwpiau preswylwyr?

Beth yw'r broses er mwyn gwneud cwyn am ddiogelwch tân neu ddiogelwch adeilad?

A roddir gwybodaeth i breswylwyr sy’n nodi’r broses gwyno yn glir?

A yw preswylwyr yn teimlo bod hyn yn foddhaol/clir?

A yw preswylwyr yn gwybod sut/i bwy y dylent uwchgyfeirio cwyn nad yw wedi cael ei datrys yn unol â’u bodlonrwydd nhw?

Sut mae hyn yn gwahaniaethu yn ôl grwpiau preswylwyr

Sut y caiff cwynion eu datrys fel arfer? Beth yw rhai o ysgogiadau hyn?

Pryd a pham y caiff cwynion eu huwchgyfeirio?

Pa rwystrau sy’n bodoli wrth godi mater ynghylch diogelwch tân neu ddiogelwch adeilad?

Sut allai’r rhain fod yn wahanol fesul grŵp o breswylwyr?

Sut allai proses effeithiol er mwyn cwyno am ddiogelwch tân neu ddiogelwch adeilad edrych?

A yw preswylwyr yn nodi risgiau diogelwch tân neu ddiogelwch adeilad yn eu hadeilad heb wneud cwynion?

Pam allai hyn fod yn digwydd efallai?

Pa mor aml y mae landlordiaid, asiantau rheoli a darparwyr tai yn cael mynediad i gartrefi preswylwyr?

Sut mae landlordiaid, asiantau rheoli a darparwyr tai yn gofyn am fynediad?

Beth yw’r rhesymau y bydd gofyn i landlordiaid, asiantau rheoli a darparwyr tai gael mynediad?

Beth yw profiadau preswylwyr o ganiatáu mynediad i’w cartref?

Beth yw lefelau dealltwriaeth preswylwyr o hawliau a rheoliadau ynghylch hawliau mynediad?

Sut mae preswylwyr yn teimlo am asesiadau ac archwiliadau diogelwch tân?

A yw preswylydd erioed wedi gofyn am gael gweld eu Hasesiad Risg Tân, ac os felly, a ganiatawyd eu cais?

Beth yw profiadau preswylydd o archwiliadau a gwiriadau diogelwch tân?

Pa mor aml y cynhelir archwiliadau neu wiriadau diogelwch tân?

Beth a ystyrir yn effeithiol wrth hwyluso mynediad diogel, moesol ac effeithlon i gartrefi preswylwyr?

Pwy ddylai fod yn rhoi gwybodaeth am ddiogelwch tân er mwyn sicrhau bod pobl yn ei chael mewn ffordd effeithiol?

A yw preswylwyr yn ymwybodol o reoleiddwyr diogelwch adeiladau presennol a'u rôl?

Ble fydd pobl yn troi at wybodaeth am ddiogelwch tân?

Beth neu pwy sy'n ffynhonnell gwybodaeth yr ymddiriedir ynddi am ddiogelwch tân?

Pa rwystrau y mae preswylwyr yn eu hwynebu wrth ymgysylltu ynghylch diogelwch tân?

Pa ddulliau cyfathrebu yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch tân?

Sur mae landlordiaid, asiantau rheoli a darparwyr tai yn ymgysylltu â phreswylwyr?

Pa dechnolegau a ddefnyddir i ymgysylltu a chyfathrebu gyda phreswylwyr?

A oes unrhyw ddull penodol yn fwy/llai llwyddiannus?

A yw preswylwyr yn ymgysylltu â'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch diogelwch eu hadeilad?

Os ydynt, sut?

Sut mae hyn yn amrywio yn ôl deiliadaeth, ethnigrwydd a math o aelwyd?

Pa rwystrau sy'n atal ymgysylltu gyda gweithgarwch penderfynu ynghylch diogelwch adeiladau?

# Atodiad B – Methodoleg

## Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth (Cam 1 – Cwmpasu)

Fel rhan o'r broses cwmpasu, cynhaliodd IFF Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth o lenyddiaeth a oedd yn bodoli eisoes am ddiogelwch tân adeiladau preswyl. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddau adroddiad drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi i IFF Research, i'w cynnwys yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth. Y rhain oedd: adolygiad llenyddiaeth am 'Ddylanwadau ar Ymddygiad Diogelwch Tân Preswylwyr" a gynhaliwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, a oedd yn seiliedig ar 20 o bapurau academaidd o'r DU ac 19 o bapurau academaidd rhyngwladol;  ac adroddiad o waith ymchwil ansoddol archwiliadol yr oeddent wedi'i gomisiynu gyda lesddeiliaid anabl ac o leiafrifoedd ethnig, a gynhaliwyd gan Beaufort Research. Roedd yr adolygiad yn cynnwys adroddiad y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd yn ddiweddar: "Evacuation from fire in high-rise residential buildings: A rapid evidence review" (2022), a oedd yn seiliedig ar adolygiad o 60 o bapurau academaidd perthnasol.

Yn ogystal â'r ffynonellau hyn, adolygodd IFF Research y dogfennau canlynol er mwyn deall y cyd-destun polisi y mae'r ymchwil hwn yn eistedd ynddo:

Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân: adolygiad Hackitt (Adroddiad interim 2017)

Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân: adolygiad Hackitt (Adroddiad terfynol 2018)

Papur gwyn Adeiladau mwy Diogel i Gymru a dogfennau ymateb i'r ymgynghoriad (2021)

Y Swyddfa Gartref: Fire Safety in purpose-built blocks of flats (2021)

Llywodraeth yr Alban: Fire Safety - existing high rise domestic buildings: practical guidance (2022)

Y Swyddfa Gartref: Fire Safety Guidance (2013, diweddarwyd ddiwethaf yn 2022)

Y Swyddfa Gartref: Fire Safety (England) regulations 2022

Llywodraeth yr Alban: Fire and smoke alarms: changes to the laws (2022).

Mae modd gweld yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth llawn yn Atodiad C.

## Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid (Cam 1 – Cwmpasu)

Er mwyn casglu dirnadaeth detholiad o randdeiliaid sy'n meddu ar wybodaeth o faterion diogelwch tân mewn gwahanol fathau o adeilad ac ar gyfer grwpiau deiliadaeth gwahanol, cyfwelodd IFF Research gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru

Cartrefi Dinas Casnewydd

Ffederasiwn Cymdeithasau Preswylwyr Preifat

Y Sefydliad Eiddo

Cymdeithas Tai Trivallis

Tai Cymunedol Caerdydd

Tîm Dirnadaeth HSE

Rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru.

Roedd y cyfweliadau yn cynnwys y materion canlynol: cefndir cyfranogwyr mewn perthynas â diogelwch tân, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch tân, ar ran preswylwyr; cyfathrebu gwybodaeth am ddiogelwch tân; profiadau o gael mynediad i gartrefi preswylwyr at ddibenion cynnal archwiliadau diogelwch tân ac adeilad; a'r broses lle y mae preswylwyr yn mynegi pryderon a chwynion ynghylch diogelwch tân.

Roedd y ddirnadaeth o'r cyfweliadau hyn yn cyfrannu at gynllun yr allbynnau ymchwil ar gyfer cam 2 a cham 3 y gwaith ymchwil, yr holiadur a'r canllaw i faterion ansoddol.

## Grŵp Cynghori

Er mwyn cynorthwyo'r prosiect, bu IFF yn gweithio gyda grŵp cynghori preswylwyr ar ddiogelwch adeiladau. Roedd cyfranogwyr y grŵp cynghori hwn wedi cael eu recriwtio a'u trefnu gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng rhanddeiliaid megis TPAS Cymru, Ffederasiwn Cymdeithasau Preswylwyr Preifat a Phrifysgol Caerdydd a'u rhwydweithiau.

Cynhaliodd IFF ddau sesiwn gweithdy ar gyfer y grŵp cynghori.

Ar ddiwedd y broses o gynllunio'r holiadur, er mwyn cael eu mewnbwn am gynllun yr holiadur.

Yn ystod y broses o ddrafftio'r adroddiad, yn benodol, er mwyn cael eu mewnbwn am yr argymhellion polisi a awgrymwyd gan IFF.

## Defnyddio model COM-B

Un o nodau'r gwaith ymchwil hwn oedd darparu ymyriadau ymddygiadol a fyddai'n cael effaith ac y byddent yn gwella diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Felly, defnyddiwyd model COM-B fel fframwaith er mwyn datblygu'r ymchwil hwn.10

Mae model COM-B yn cynnig fframwaith ymarferol er mwyn deall sut y gallai cyfathrebu ac ymyriadau polisi a gynigir effeithio ar newid ymddygiad. Mae'n cynnwys tri sbardun cyffredinol, ac mae gan bob un o'r rhain ddau is-gategori:

Gallu

Yn seiliedig ar wybodaeth/seicolegol

Rhwystrau corfforol

Cyfleoedd:

Ffactorau corfforol allanol

Ffactorau cymdeithasol / amgylcheddol / cyd-destunol

Cymhelliant:

Awtomatig

Myfyriol.

Yn ei dro, gall nodi'r sbardunau hyn gyfeirio at y math mwyaf effeithiol o ymyrraeth neu gyfathrebu a allai effeithio ar ymddygiad diogelwch tân ar gyfer y gwahanol fathau o breswylwyr a nodir yn yr ymchwil.

## Sesiwn Gweithdy COM-B

Ar ddechrau'r prosiect ymchwil, cynhaliodd IFF weithdy gyda swyddogion polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â Diogelwch Adeiladau er mwyn trafod model COM-B a sut fyddai'n cael ei ddefnyddio orau er mwyn datblygu'r deunyddiau ymchwil trwy gydol y prosiect.

Roedd y gweithdy yn cynnwys tri phrif ymarfer, a ddisgrifir isod.

Ymarfer 1: Llunio rhestr o ymddygiad diogelwch tân peryglus.

Ymarfer 2: Dadansoddi'r rhestr a luniwyd yn ymarfer 1 a neilltuo blaenoriaethau iddynt.

Ymarfer 3: Mapio'r ymddygiad yn erbyn Model COM-B.

Cynlluniwyd yr ymarferion o egwyddor sefydlu ystod eang o ymddygiad a gweithredoedd sy'n ymwneud â diogelwch tân yn gyntaf, yna blaenoriaethu ac ychwanegu at yr ymarferion blaenorol er mwyn datblygu damcaniaethau am ymyriadau realistig. Er mwyn gwneud hyn, roedd hi'n bwysig cynnal lefel benodoldeb uchel wrth drafod ymddygiad, neu byddai unrhyw

[10] Am esboniad manwl, gweler: Michie S et al (2014) *The Behaviour Change Wheel: A Guide to Designing Interventions*. Silverback Publishing.

ddamcaniaethau ynghylch ymyriadau posibl yn debygol o fod yn rhy annelwig ac felly, byddent yn afrealistig i'w gweithredu. Oherwydd hyn, pennwyd rheol i osgoi termau goddefol a chyffredinol yn ystod y drafodaeth. Er enghraifft, byddai iaith fel "annog ymgysylltu" yn cael ei osgoi gan bod y term mor fras fel na ellir mynd i'r afael ag ef mewn ffordd realistig trwy gyfrwng un ymyrraeth.

Rhoddodd gweithdy COM-B fan cychwyn i IFF er mwyn nodi a datblygu ymyriadau ymddygiadol posibl, gan helpu wrth ddrafftio'r holiadur a'r canllaw i'r pynciau.

## Samplu (Cam 2 – ymchwil meintiol a segmentu)

Ar gyfer y dull gweithredu samplu i'r arolwg ar-lein, defnyddiodd IFF PAF (Ffeil Cyfeiriad Cod Post) i lunio ffrâm sampl o gyfeiriadau mewn adeiladau amlfeddiannaeth.

Cronfa ddata sy'n eiddo i'r Post Brenhinol yw PAF, sy'n cynnwys yr holl godau post a'r Pwyntiau Dosbarthu yn y Deyrnas Unedig. Ar gyfer yr ymchwil hwn, defnyddiodd IFF Research ddwy ffeil PAF wahanol – y PAF llawn, sy'n cynnwys yr holl gyfeiriadau yn y Deyrnas Unedig, a ffeil Aml Breswyliad (MRES), a oedd yn cynnwys yr holl gyfeiriadau a oedd yn rhannu pwynt dosbarthu.

Defnyddiodd IFF cyfres o eiriau adnabod i gyfeirio at adeiladau amlfeddiannaeth, a ddefnyddiwyd i lunio'r ffrâm sampl. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru ffeil ychwanegol o eiddo categori 1 a gyrchwyd trwy 'MapDataCymru',11 a ychwanegwyd i'r ffeil sampl derfynol.

Ar ôl cyfuno'r cofnodion hyn gyda'r cyfeiriadau a nodwyd yn sampl PAF, roedd gan IFF sampl cyfan gwbl o 100,581 o gyfeiriadau, y nodwyd eu bod mewn adeiladau amlfeddiannaeth, y gallai fanteisio arnynt ar gyfer yr arolwg meintiol.

Ar y dechrau, rhagdybiom y byddai adeilad o fewn y cwmpas pe byddai cyfeiriadau lluosog yn rhannu'r un enw adeilad. Fodd bynnag, ar ôl archwilio ffeiliau PAF, nid oedd y dull gweithredu hwn yn gallu nodi adeiladau amlfeddiannaeth yn gywir ac nid oedd unrhyw batrymau adnabyddadwy yr oeddent yn gallu hysbysu unrhyw addasiadau i'r dull gweithredu hwn. Felly, gadawyd y dull gweithredu arfaethedig hwn. Yn hytrach, defnyddiwyd cyfres o eiriau adnabod i gynnwys ac eithrio cyfeiriadau o'r gwaith ymchwil, fel y disgrifir isod.

Yn gyntaf, tynnom yr holl gyfeiriadau nad oeddent yng Nghymru allan o'r ffeiliau. Ar ôl hyn, y cam nesaf yn y broses oedd nodi'r cyfeiriadau y gallem gydnabod yn hyderus eu bod mewn adeiladau amlfeddiannaeth, a nodi ar yr un pryd y cyfeiriadau y gallem gydnabod yn hyderus nad oeddent mewn adeiladau amlfeddiannaeth neu eu bod y tu hwnt i'r cwmpas am resymau eraill (er enghraifft os oedd y cyfeiriad ar gyfer busnes yn hytrach na man preswylio). Y dull er mwyn gwneud hyn oedd defnyddio geiriau 'hidlo' gyda'r set ddata, a fyddai'n amlygu cyfeiriadau y dylid eu cynnwys fel rhai i'w cynnwys neu eu heithrio. Roedd hyn yn gofyn am ddull gweithredu 'profi a methu' oherwydd bob tro y byddai set o hidlyddion

[11] Hafan | MapDataCymru (llyw.cymru)

yn cael eu rhedeg, byddai IFF yn cynnal archwiliadau o'r cyfeiriadau a amlygwyd er mwyn sicrhau bod yr hidlydd yn creu'r canlyniadau dymunol.

**PAF Llawn (FLL)**

Er mwyn nodi Adeiladau Amlfeddiannaeth a fyddai yng nghwmpas y PAF Llawn, defnyddiwyd hidlyddion cynnwys ac eithrio yn y meysydd canlynol.

Enw'r Sefydliad: Defnyddiwyd i nodi a oedd busnes yn y cyfeiriad.

Enw'r Adeilad: Defnyddiwyd detholiad o eiriau allweddol i nodi adeiladau yr oeddent yng nghwmpas yr ymchwil, yn ogystal ag eiddo yr oeddent y tu hwnt i'r cwmpas.

Is_Enw Adeilad: Defnyddiwyd yr un broses hidlo ar gyfer Enw'r Adeilad yma hefyd.

Rydym wedi defnyddio'r cyfuniadau hidlo canlynol i lunio ein ffeil sampl o FLL. Amlygwyd nifer y cofnodion sydd gan bob cyfuniad wrth ei ymyl isod.

Oherwydd ei bod yn bosibl i un cyfeiriad sbarduno cyfeiriadau hidlo lluosog, i'w cynnwys a'u heithrio, bu angen creu model rhesymeg a oedd yn nodi gwahanol gyfuniadau, a fyddai'n golygu y byddai cyfeiriad yn cael ei gynnwys yn y sampl terfynol.

**Tabl B.1: Hidlyddion Amlygu Sampl PAF**

| Enw'r adeilad (Eithrio) | Enw'r adeilad (Cynnwys) | Is-enw yr adeilad (Cynnwys) | Is-enw yr adeilad (Eithrio) | Cyfanswm y Cofnodion yr amlygwyd ar eu cyfer |
|---|---|---|---|---|
| **Ie = hidlydd wedi'i amlygu, Na = hidlydd heb ei amlygu** | | | | |
| **Ie** | Na | Ie | Unrhyw | 647 |
| **Na** | Ie | Ie | Ie | 12,405 |
| **Na** | Ie | Na | Na | 7,819 |
| **Na** | Ie | Ie | Na | 1,302 |
| **Na** | Na | Ie | Na | 5,737 |
| **Na** | Na | Ie | Ie | 33,224 |

Yn ychwanegol i'r uchod, gosodwyd hidlydd ar gyfer maes "enwsefydliad". Pan archwiliom gyfeiriadau oedd yn cynnwys data yn y maes hwn, roedd hi'n glir bod y cofnodion hyn yn cyfeirio at fusnes, a'u bod y tu hwnt i'r cwmpas. Felly, penderfynom os oedd unrhyw ddata yn y maes hwn, y byddai'n cael ei eithrio.

## PAF MRES

Gan bod y ffeil MRES yn cynnwys adeiladau amlfeddiannaeth yn unig, diben yr hidlyddion MRES oedd nodi pa adeiladau oedd y tu hwnt i'r cwmpas. Er mwyn cyflawni hyn, defnyddiwyd hidlyddion yn y meysydd canlynol.

Enw Sefydliad (MR) ac Enw Sefydliad (DP): Defnyddiwyd i nodi a oedd busnes yn cyfeiriad.

Enw Adeilad (MR) ac Enw Adeilad (DP): Defnyddiwyd detholiad o eiriau allweddol er mwyn nodi adeiladau yr oeddent y tu hwnt i'r cwmpas.

Is_Enw Adeilad (MR) ac Is_Enw Adeilad (DP): Defnyddiwyd yr un broses hidlo ar gyfer Enw Adeilad yma hefyd.

## Geiriau hidlo

Defnyddiwyd y geiriau canlynol fel meini prawf i'w cynnwys ym meysydd 'EnwAdeilad' ac 'Isenwadeilad'.

**Tabl B.2: Cynwysiadau Geiriau Allweddol Sampl PAF**

| Cynnwys |
|---|
| **Fflat_ (gyda bwlch)** |
| **Rhandy** |
| **Condo** |
| **Swît** |
| **Cwrt** |
| **Bloc** |
| **Tŵr** |
| **Prifysgol (MRES Yn Unig)** |
| **Myfyriwr (Enw Sefydliad MRES yn unig)** |
| **Eiddo penodol a nodwyd fel rhai amlddeiliadaeth trwy gyfrwng gweithgarwch archwilio data (PAF Llawn yn unig)** |

### Tabl B.3: Eithriadau Geiriau Allweddol Sampl PAF

| Geiriau i'w heithrio |
|---|
| Gwesty |
| Gwely a Brecwast |
| B&B |
| Cartref Gofal |
| MOD |
| GIG |
| Carchar |
| Bar |
| Swyddfa |
| Swyddfeydd |
| Busnes |
| Clinig |
| Storio |
| Warws |
| Cyf |
| Carafán |
| Ysbyty |
| Siop |
| Siopa |
| Hostel |
| Ysgubor |
| Bwthyn |
| Fila |
| Fferm |
| Uned |
| Fflat (heb fwlch) safle (PAF Llawn yn unig) |

| Porthdy |
| --- |
| Nyrsio |

Isod, nodir y broses er mwyn gwneud y penderfyniadau ynghylch rhai o'r geiriau a ddewiswyd fel hidlyddion.

**Fflat:** Ar ôl dadansoddi'r ffeil FLL, daeth yn amlwg os byddai'r gair 'fflat' ar ei ben ei hun yng ngholofn isenwadeilad, byddai'r cyfeiriad y tu hwnt i'r cwmpas gan ei fod yn aml yn fflat uwchben siop neu fusnes. Felly, ychwanegwyd y gair 'fflat' i'r rhestr eithrio. Nodwyd fflatiau mewn adeilad amlfeddiannaeth yn ffeil FLL fel 'Fflat A/1/1a'. Er mwyn cynnwys yr eiddo hyn ond gwahardd y fflatiau uwchben busnes, ychwanegwyd y gair 'fflat' i'r rhestr wahardd a chynhwyswyd 'fflat ' (gyda bwlch ar ôl fflat).

**Myfyriwr:** Roedd adeilad yn ffeil MRES a oedd yn sbarduno hidlyddion gwahardd, ond ar ôl archwilio, roedd o fewn cwmpas yr ymchwil. Ychwanegwyd myfyriwr i'r rhestr i'w cynnwys er mwyn gallu cynnwys yr adeilad hwn yn ffeil y sampl.

**Eiddo penodol**: Trwy gydol y broses o greu'r sampl, cynhaliom archwiliadau synnwyr o gyfeiriadau penodol ar fapiau google er mwyn helpu i nodi bod yr hidlyddion yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Mewn achosion lle y nodwyd adeiladau amlfeddiannaeth, nodwyd eu manylion a chawsant eu cynnwys yn ffeil y sampl.

Ystyriwyd y geiriau canlynol yn y lle cyntaf, ond fe'u tynnwyd allan.

**Parc**: Defnyddiwyd hwn fel hidlydd gwahardd yn wreiddiol. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn ystod camau cyntaf y broses o lunio'r sampl bod sawl adeilad yr oeddent o fewn y cwmpas yn cael eu gwahardd gan bod enw'r adeilad yn cynnwys y gair "Parc".

## Llunio'r set ddata derfynol

Cam olaf y broses oedd cyfuno setiau data y cyfeiriadau o fewn y cwmpas a oedd yn deillio o'r ffeiliau PAF Llawn a'r PAF MRES. Yna, dad-ddyblygwyd y ffeil gyfunol i sicrhau bod pob cyfeiriad yn cael eu cynnwys yn y sampl unwaith yn unig.

Isod, nodir dadansoddiad o nifer y cyfeiriadau a oedd yn deillio o'r PAF llawn yn nhabl B.4. Fel y dangosir, roedd dros filiwn o gyfeiriadau nad oedd ganddynt unrhyw ddata yn y meysydd a fyddai'n caniatáu i unrhyw hidlyddion cynnwys neu eithrio gael eu hamlygu. Yr unig ddata adnabyddadwy oedd gan y cyfeiriadau hyn oedd cod post a chyfeiriad stryd, nad yw'n caniatáu camau i adnabod cyfeiriadau sydd o fewn y cwmpas neu y tu hwnt i'r cwmpas wrth ddefnyddio ein dull gweithredu. Mae hyn yn golygu bod y cyfeiriadau hyn y tu hwnt i gyrraedd yr ymchwil hwn, ac mae'n anhysbys faint o'r cyfeiriadau hyn fyddai wedi bod o fewn y cwmpas.

Roedd ffeil MRES yn cynnwys 36,319 o gyfeiriadau yng Nghymru. Defnyddiwyd yr un geiriau hidlo ar gyfer y PAF Llawn, ond gan bod ffeil MRES yn cynnwys adeiladau amlfeddiannaeth yn unig, roedd ffocws y model rhesymeg a ddatblygwyd ar eithrio

cyfeiriadau y tu hwnt i'r cwmpas yn hytrach na nodi cyfeiriadau o fewn y cwmpas. Trwy gyfrwng y dull gweithredu hwn, nodwyd 33,598 o gyfeiriadau fel rhai a oedd o fewn y cwmpas.

**Tabl B.4: Nifer y Cyfeiriadau PAF**

| Disgrifiad | Nifer y cyfeiriadau | Ffeil PAF |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadau yng Nghymru yn y PAF Llawn** | 1,531,108 | FLL |
| **Cyfeiriadau nad oeddent yn cynnwys data yn y meysydd y gallent amlygu hidlydd** | 1,154,044 | FLL |
| **Cyfeiriadau yr oeddent yn cynnwys data yn y meysydd y gallent amlygu hidlydd** | 377,064 | FLL |
| **Cyfeiriadau a nodwyd fel rhai i'w cynnwys** | 61,134 | FLL |
| **Cyfeiriadau yng Nghymru yn PAF MRES** | 36,319 | MRES |
| **Cyfeiriadau a amlygwyd fel rhai i'w heithrio** | 2,721 | MRES |
| **Cyfeiriadau a nodwyd fel rhai i'w cynnwys** | 33,598 | MRES |
| **Nifer gyfunol y cyfeiriadau i'w cynnwys** | 94,732 | Y ddau |

## Cofnodion ychwanegol

Cafodd IFF Research ffeil gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys 174 o adeiladau Categori 1, a ychwanegwyd i ffeil ein sampl. Roedd y ffeil hon wedi darparu 5,849 o gofnodion ychwanegol nas nodwyd gan y system hidlo y soniwyd amdani uchod.

Ar ôl cyfuno'r cofnodion hyn gyda'r cyfeiriadau a nodwyd yn sampl PAF, roedd gan IFF sampl cyfan gwbl o 100,581.

## Cynnal yr arolwg

Ar gyfer y peilot, dewiswyd 500 o gyfeiriadau ar hap o ffeil y sampl ac anfonwyd llythyr atynt yn eu gwahodd i lenwi'r arolwg ar-lein. Ar ôl cwblhau'r cam peilot, dewiswyd 15,158 o gyfeiriadau pellach ar hap ac anfonwyd llythyr gwahoddiad atynt.

## Cynllun yr holiadur (Cam 2 – ymchwil meintiol a segmentu)

Datblygwyd yr holiadur gan IFF ac fe'i adolygwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi sylw i'r cwestiynau ymchwil a restrir yn Atodiad A.

Profwyd yr holiadur hefyd trwy gyfrwng 12 cyfweliad gwybyddol gyda phreswylwyr adeiladau amlfeddiannaeth, a gynhaliwyd ar ffurf galwad fideo. Daethpwyd o hyd i'r ymatebwyr gan gwmni recriwtio arbenigol Mojo Recruitment trwy gyfrwng dulliau gweithredu ar y stryd ac yn seiliedig ar restr. Yn ychwanegol i fyw mewn adeilad amlfeddiannaeth, dewiswyd ymatebwyr ar sail pa lawr y maent yn byw arno ac a ydynt yn byw gydag aelodau teuluol eraill, er mwyn sicrhau bod cymysgedd o nodweddion yn cael eu cynnwys yn y sampl. Mabwysiadodd y cyfweliadau ddull gweithredu 'meddwl yn uchel' a oedd yn golygu dangos cwestiynau'r arolwg i'r ymatebwyr a gofyn iddynt eu hateb, a'u hannog hefyd i sôn wrth y sawl a oedd yn eu cyfweld am eu proses feddwl. Byddai cyfwelwyr yn holi cwestiynau penodol ac am adrannau penodol ymhellach, ar sail eu barn nhw.

Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 17 a 28 Ebrill 2023. Fe'u cynhaliwyd ar ffurf dwy set o chwech cyfweliad. Cynhaliwyd y set gyntaf o chwech cyfweliad yn ystod yr wythnos gyntaf – 17 i 21 Ebrill: a cynhaliwyd yr ail set yn ystod yr ail wythnos – 24 i 28 Ebrill.

Yn ogystal, ar ddydd Llun 24 Ebrill, cynhaliwyd sesiwn 90 munud gyda'r Grŵp Cynghori (wedi'i gynnull gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi adborth am yr offerynnau ymchwil yn ystod y prosiect ymchwil cyfan) er mwyn casglu adborth a chraffu'r holiadur. Ar ôl sesiwn y Grŵp Cynghori, cyfarfu tîm prosiect IFF Research i drafod yr adborth a gafwyd tan y pwynt hwnnw, gan wneud newidiadau i'r holiadur, a brofwyd yn ystod yr ail set o gyfweliadau gwybyddol.

Ystyriwyd y dadansoddiad segmentu yn ystod y broses o gynllunio'r holiadur hefyd. Yn gyntaf, defnyddiwyd graddfeydd cyson trwy gydol yr holiadur pan oedd hyn yn berthnasol, er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad segmentu yn haws i'w gynnal a'i fod yn fwy cadarn ar lefel ystadegol. Penderfynwyd cynnwys cwestiynau a oedd yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o'r preswylydd hefyd, er mwyn creu segmentau mwy cadarn ac wedi'u diffinio yn dda. Mae modd gweld trosolwg llawn o'r gwaith segmentu ym mhennod 3 yr adroddiad hwn.

Er yr anfonwyd llythyrau gwahoddiad yn y post, y prif ddull o lenwi'r arolwg oedd ar-lein. Hyd canolrifol yr arolwg oedd 17 munud. Os na fyddai modd i breswylydd lenwi'r arolwg ar-lein, cynigiwyd y cyfle iddynt lenwi'r arolwg dros y ffôn gydag un o aelodau tîm Ymchwil IFF.

Er mwyn annog preswylwyr i gymryd rhan yn yr arolwg, cynigiwyd taleb siopa a oedd yn werth £10 iddynt i ddweud diolch am lenwi'r arolwg.

Roedd yr holiadur yn rhoi sylw i'r materion canlynol.

Sgriniwr: Diben y sgriniwr oedd cadarnhau bod y preswylydd yn byw mewn adeilad amlfeddiannaeth ac mai nhw yw perchennog eu cartref neu'r sawl sy'n rhentu eu cartref. Roedd unrhyw un dan 16 oed wedi cael eu sgrinio allan hefyd.

Deiliadaeth a chladin: Roedd yr adran hon yn gofyn cwestiynau i'r preswylydd am eu man preswylio presennol, megis pa mor hir yr oeddent wedi bod yn byw yno, ai hwn oedd y tro cyntaf iddynt fyw bywyd annibynnol fel oedolyn a statws perchnogaeth y cartref. Holwyd y preswylwyr am gladin fflamadwy ar yr adeilad hefyd.

Ymagwedd bersonol: Roedd yr adran hon yn ceisio deall gweithgarwch ymgysylltu cyffredinol y preswylydd gyda'u hamgylchedd a'r byd o'u cwmpas, o'u rhyngweithio gyda'u hadeilad, preswylwyr eraill a'u landlord/rheolwr eu hadeilad, i weithgareddau cymdeithasol ehangach.

Profiad o faterion diogelwch: Roedd yr adran hon yn holi preswylwyr am eu profiadau o deimlo'n ddiogel yn eu cartref ac yn eu hadeilad.

Gwybodaeth diogelwch tân: Roedd yr adran hon yn ceisio deall gwybodaeth y preswylwyr am brotocolau diogelwch tân yn gyffredinol ac yn eu hadeilad, yn ogystal â'u hyder ynghylch cymryd y camau cywir pe bai tân.

Ymddygiad diogelwch tân: Roedd yr adran hon yn holi cyfres o gwestiynau am wahanol fathau o ymddygiad sy'n ymwneud â diogelwch tân mewn rhyw ffordd, gan gynnwys ymddygiad cadarnhaol a pheryglus. Holwyd preswylwyr a ydynt yn ymddwyn fel hyn ac mewn rhai achosion, pa mor aml y maent yn gwneud hynny. Geiriwyd y cwestiynau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau nad oedd preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu barnu am eu gweithredoedd, ac fe'u hatgoffwyd o'r ffaith y byddai eu hatebion yn cael eu cadw yn ddienw ac na fyddai modd eu holrhain yn ôl iddyn nhw mewn unrhyw ffordd.

Mynegi pryderon a chwynion: Mae'r adran hon yn ystyried profiadau preswylwyr o fynegi pryderon neu gwynion am ddiogelwch adeilad a'u gwybodaeth am y prosesau o fynegi cwyn yn eu hadeilad.

Archwiliadau Diogelwch Tân: Mae'r adran hon yn holi preswylwyr am eu profiad, os o gwbl, o gael archwiliadau diogelwch tân yn eu cartref, yn ogystal â pha mor gyffyrddus yr oeddent yn teimlo wrth adael eu landlord/rheolwr eu hadeilad i mewn i'w cartref.

Cyfathrebu: Roedd yr adran hon yn cynnwys y mathau o wybodaeth am ddiogelwch tân yr oedd y preswylwyr wedi'u cael, gan adolygu cyfrwng y wybodaeth a pha mor effeithiol oedd y cyfryngau hyn er mwyn cofio gwybodaeth.

Gwybodaeth am yr adeilad: Roedd yr adran hon yn gofyn i'r preswylwyr am wybodaeth am eu hadeilad, gan gynnwys pa gategori y mae'r adeilad ynddo a pha lawr yr oedd y preswylydd yn byw arno.

Demograffeg: Roedd hwn yn holi am wybodaeth ddemograffig preswylwyr.

Ymchwil yn y Dyfodol: Roedd hwn yn holi preswylwyr a oedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfweliadau ansoddol i breswylwyr.

## Cyfweliadau Preswylwyr (Cam 3 – Ymchwil ansoddol)

Diben y cyfweliadau hyn oedd cael trafodaeth fanwl am ddiogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth gyda phreswylwyr, a datblygu a chael mwy o ddyfnder am y ddirnadaeth a

gasglwyd trwy gyfrwng y prif arolwg meintiol. Roedd pob cyfweliad wedi cymryd tua 60 munud i'w cwblhau.

Ar gyfer y cyfweliadau gyda phreswylwyr, cytunwyd ar ddull gweithredu samplu bwriadus gan IFF Research a Llywodraeth Cymru, er mwyn manteisio ar ehangder o safbwyntiau a phrofiadau. Dewiswyd cyfranogwyr ar gyfer y gwaith ymchwil ar sail eu nodweddion demograffig a phreswyl, a'r segment ymddygiadol yr oeddent ynddo. Er ei bod yn bwysig siarad gyda phreswylwyr o bob segment ymddygiadol, roedd mwyafrif y rhai a gyfwelom yn perthyn i segmentau yr oeddent yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran diogelwch tân.

## Dadansoddiad

## Dull gweithredu ar gyfer y dadansoddiad meintiol

Lluniodd IFF dablau data er mwyn cynnig ffynhonnell hawdd cyfeirio ati o ddata cyfunol at ddibenion dadansoddi. Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar lefel hyder 95% i wahaniaethau rhwng is-grwpiau gan ddefnyddio profion z ar ganrannau, a phrofion t ar gymedrau.

Lluniwyd y proffiliau segmentu trwy gyfrwng dadansoddiad dosbarth cudd, lle y gosodwyd preswylwyr mewn grwpiau ar sail eu hatebion i 31 o newidion ymddygiadol ac agweddol o'r arolwg. Yn ystod y dadansoddiad, mae'r Dadansoddiad Dosbarth Cudd yn cyfrifo tebygolrwydd aelodaeth pob preswylydd o segment penodol, ac ar ôl pennu'r tebygolrwydd hyn, caiff ymatebwyr eu neilltuo i'r proffil segment lle y ceir y tebygolrwydd uchaf eu bod yn aelodau ohono. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu ansicrwydd wrth neilltuo segmentau ac mae'n cynnig dealltwriaeth fwy ymatebol o strwythur sylfaenol y boblogaeth.

## Dull gweithredu ar gyfer y dadansoddiad ansoddol

Yn dilyn y cyfweliadau gyda phreswylwyr, cynhaliodd IFF sesiwn ddadansoddi fewnol a oedd yn adolygu cynnwys y 24 o gyfweliadau gyda phreswylwyr. Roedd y sesiwn ddadansoddi hon yn helpu i nodi'r prif ganfyddiadau o'r cyfweliadau, gan ddiffinio ein dull gweithredu wrth adrodd.

Trawsgrifiwyd a dadansoddwyd y cyfweliadau gan ddefnyddio egwyddorion sefydledig dadansoddi Fframwaith, a threfnwyd y testun yn unol â'r cwestiynau ymchwil, gan archwilio'r data am themâu a oedd yn dod i'r amlwg.12

[12] Ritchie, J. a Spencer, L. (1994) Qualitative Data Analysis for Applied Policy Research. Yn: Bryman, A. and Burgess, B., Eds., Analyzing Qualitative Data, Routledge, Llundain

# Atodiad C – Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o'r dystiolaeth am ymddygiad diogelwch tân yn flaenorol: Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth (llyw.cymru), y rhoddir crynodeb ohono isod, ynghyd â chanfyddiadau adolygiad cymharol a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref: Evacuation from fire in high-rise residential buildings: a rapid evidence review a llenyddiaeth berthnasol arall.

## Ymddygiad a nodweddion sy'n rhoi preswylwyr mewn perygl

Nodwyd y gallai'r mathau canlynol o ymddygiad roi preswylwyr mewn mwy o berygl o gychwyn tân neu o beidio dianc rhag tân yn ddiogel.

Mae ysmygu a gwaredu sigaréts yn ffactorau risg allweddol er mwyn cychwyn tanau yn anfwriadol.

Mae cam-drin cyffuriau a bod dan ddylanwad alcohol yn cael effaith negyddol ar ymatebion deiliaid yn ystod tân.

Gall gwisgo dillad penodol – e.e. esgidiau gyda sodlau uchel, dillad hir gan gynnwys dillad crefyddol neu ddiwylliannol, neu wisgo cotiau/siacedi, esgidiau cynhesach arwain at oedi wrth adael adeilad.

Gall y rhai sydd â chysylltiadau agos gyda phobl, anifeiliaid anwes a meddiannau oedi cyn gadael, a cheisio diffodd y tân eu hunain er mwyn diogelu eraill a meddiannau, gan gynyddu'r risg iddyn nhw. Yn ogystal, efallai y byddant yn fwy tebygol o ddychwelyd i'r adeilad. Daeth adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref i'r un casgliad, na fydd deiliaid yn gadael yn syth ar ôl adnabod arwyddion o dân, ond yn hytrach, byddant yn archwilio i ddilysu'r risg yn gyntaf, casglu eitemau personol, rhoi sylw i anifeiliaid anwes a chyfathrebu gyda phreswylwyr eraill.

Os bydd tanau yn cychwyn pan fydd deiliaid yn cysgu, mae pobl sydd â nodweddion penodol mewn mwy o berygl o ddioddef anaf oherwydd eu bod yn llai tebygol o ddihuno – yn ogystal â phlant dan 5 oed, pobl hŷn sy'n 64 oed a throsodd, y rhai sydd â namau meddyliol neu gorfforol, y rhai sydd â nam ar eu clyw, ac mae'r rhai sydd mewn mwy o berygl yn cynnwys y rhai sy'n cymryd tabledi cysgu, sydd dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, a hyn yn oed casglwyr obsesiynol. Daeth adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref i gasgliadau tebyg.

Roedd cam-dybio lefel y risg yn ffactor pwysig hefyd mewn perthynas â'r ffordd y mae preswylwyr yn camymddwyn pan fydd tân. Rhestrir enghreifftiau isod.

Mae preswylwyr sy'n byw ar loriau is adeiladau amlfeddiannaeth yn barnu bod llai o risg iddyn nhw gan dân ac felly, maent yn llai awyddus i baratoi ar gyfer adegau pan fyddai angen gadael yr adeilad neu adael yr adeilad yn gyflym ar ôl cael rhybudd i wneud hynny.

Y rhai sy'n dilyn normau grŵp – mae hyn yn cynnwys aros i ddilyn yr hyn y bydd nifer o bobl arall yn ei wneud;  neu aros i arweinydd ymddangosiadol i weithredu cyn gweithredu eu

hunain. Cyfeiriodd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref at y rhain fel 'tueddiadau canlyn y llif' a 'thueddiadau awdurdod'.

Gall cynnal gormod o brofion larwm tân wneud pobl yn llai sensitif i larwm go iawn, a byddant yn oedi cyn gadael wrth iddynt aros i weld yr hyn y bydd pobl arall yn ei wneud. Daeth adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref i gasgliad tebyg, gan nodi hefyd y gallai deiliaid amharu ar larymau tân (e.e. eu gorchuddio) os bu nifer o alwadau tân diangen yn y gorffennol.

## Nodweddion ac ymddygiad amddiffynnol

Nodwyd bod yr ymddygiad, y nodweddion a'r wybodaeth ganlynol yn fuddiol wrth leihau risg tân ac ar adegau pan fydd tân.

Mae'r rhai sy'n meddu ar wybodaeth neu sydd wedi cael profiad o dân yn fwy tebygol o feddu ar gynlluniau tân a synhwyrydd mwg sy'n gweithio, gan leihau'r risg iddyn nhw. Nodwyd y canfyddiad hwn yn adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref hefyd, lle y canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn Hong Kong bod y rhai sydd wedi cael profiad o dân yn flaenorol yn fwy tebygol o ymateb ar unwaith i'r angen i adael yr adeilad.

Byw mewn aelwyd lle'r oedd o leiaf un aelod wedi cael rhywfaint o hyfforddiant diogelwch tân, yn aml trwy eu gwaith neu wrth iddynt wirfoddoli mewn ysgol neu mewn sefydliad cymunedol arall.

Mae'r rhai sy'n ymwneud yn fwy gyda 'meithrin cymuned/arweinyddiaeth' (e.e. mynychu cyfarfodydd a rhyngweithio gyda rheolwyr adeiladau) yn lleihau eu risgiau trwy fod yn meddu ar fwy o wybodaeth am dân ac maent yn fwy parod o ran hyfforddiant ac offer diogelwch.

## Ymddygiad diogelwch tân rheolwyr adeiladau a landlordiaid

Yn ogystal, amlygodd adolygiad Llywodraeth Cymru 'ffactorau risg cyffredinol' amrywiol, a oedd yn canolbwyntio ar strwythurau'r adeilad, gwybodaeth a thechnoleg sy'n gallu dylanwadu ar ymddygiad pobl. Bydd rhai o'r rhain yn gyfrifoldeb y landlord neu reolwr yr adeilad i'w gweithredu a'u cyfathrebu mewn ffordd effeithiol i breswylwyr.

Cynlluniau gwacáu – mae angen cynlluniau a chyfarwyddiadau clir sy'n bodloni gofynion yr holl ddeiliaid, beth bynnag fo eu ffactorau personol/demograffig. Daeth adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref i gasgliad tebyg, sef nad oes un strategaeth yn briodol i bob adeilad; mae angen cynllun diogelwch tân wedi'i deilwra ar bob adeilad preswyl uchel iawn, sydd ar gael i breswylwyr, ac a gaiff ei ddatblygu gan roi ystyriaeth lawn i ddyluniad yr adeilad, cyfansoddiad y deiliaid, ac yn hanfodol, presenoldeb (neu absenoldeb) adrannu effeithiol. Daeth yr awduron i'r casgliad bod y dystiolaeth yn betrus yn awgrymu bod strategaethau gwacáu rhannol a fesul cam (megis 'amddiffyn yn ei le' neu 'oedi gwacáu') yn fwy diogel na gwacáu pawb ar yr un pryd; ar yr amod bod adrannu effeithiol yn ei le, ynghyd â systemau cyfathrebu da er mwyn cynnig gwybodaeth amser real ddigonol a

pharhaus a sicrwydd, er mwyn annog preswylwyr i aros lle y maent ac i aros i gael eu hachub.

Llwybrau gwacáu – gall y rhain fod yn gymhleth neu'n ddryslyd mewn adeiladau amlfeddiannaeth, gan ychwanegu straen diangen. Mewn argyfwng, bydd preswylwyr yn dewis yr allanfa agosaf neu fwyaf cyfarwydd iddynt;  mae adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref yn cyfeirio at y rhain fel 'tueddiadau diofyn' h.y. y duedd i ddilyn dewis diofyn, megis y llwybr y defnyddiodd unigolyn i ddod i mewn i'r adeilad – mae hyn yn fwy perthnasol fyth i westeion, neu ddeiliaid tymor byr nad ydynt wedi ymgyfarwyddo â'r allanfeydd mewn argyfwng. Canfu adolygiad y Swyddfa Gartref hefyd bod deiliaid yn amharod i ddefnyddio lifftiau wrth wacáu'r adeilad.

Offer tân – synwyryddion/larymau mwg yw'r flaenoriaeth uchaf i'w hystyried. Dylai arwyddion rhybuddio fod yn gynhwysfawr er mwyn ystyried anghenion holl ddeiliaid yr adeilad, waeth beth fo'r ffactorau personol/demograffig. Roedd y lenyddiaeth yn awgrymu y gallai aelwydydd sydd ar incwm is ac aelwydydd ethnig lleiafrifol fod yn llai tebygol o gael larwm mwg sy'n gweithio. Mae darpariaeth diffoddwyr tân yn isel fel arfer, gan gyfyngu ar allu preswylwyr i geisio diffodd y tân eu hunain. Canfu adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref astudiaethau rhyngwladol sy'n awgrymu y gall lifftiau diogel yn ystod tân leihau amseroedd gwacáu cyffredinol, gan ddibynnu ar nifer y lloriau, a nifer a chyfansoddiad y deiliaid;  ond roedd tystiolaeth am y pwynt hwn ar gyfer adeiladau yn y DU yn brin.

Offer cyfathrebu – Mae systemau cyfathrebu gyda chymorth llais wedi datblygu i fod yn dechnoleg bwysig yn ddiweddar, er mwyn rhoi gwybodaeth mewn argyfwng. Er hyn, awgrymwyd y gallai darparu negeseuon byw fod yn fwy defnyddiol na negeseuon wedi'u recordio ymlaen llaw i breswylwyr penodol, yn enwedig y rhai sydd ag amhariadau.

## Rhwystrau sy'n atal (a chyfleoedd ar gyfer) ymddygiad diogelwch tân cadarnhaol

Nid yw rhai o'r ffactorau a amlygwyd yn adolygiad Llywodraeth Cymru a llenyddiaeth berthnasol arall yn ymwneud ag ymddygiad yr unigolyn gymaint, ond yn fwy gyda'r cyd-destun cyffredinol adeg y tân, y gallent weithredu fel rhwystrau neu gyfleoedd i ymddwyn mewn ffordd effeithiol o ran diogelwch tân.

### Rhwystrau

Gorlenwi a chiwiau adeg y tân – gall hyn arwain at wacáu arafach, ac ymddygiad nas dymunir (gwthio/cystadlu), ac yn aml bydd gan aneddiadau uchel iawn lefelau deiliadaeth uwch na'r holl breswylwyr a holwyd fesul annedd, sy'n gallu gwaethygu gorlenwi wrth wacáu yr adeilad pan fydd tân.

Gall y ffaith nad yw pobl yn gallu darllen cyfarwyddiadau gwacáu, gan mai Saesneg yw eu hail iaith, neu oherwydd amhariadau gwybyddol neu ar eu golwg – arafu'r broses wacáu. Trafodir y nodweddion demograffig hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

Mae diffyg ymddiriedaeth yn y system yn rhwystr posibl sy'n atal preswylwyr rhag cydweithredu gyda deiliaid dyletswyddau. Nododd Adolygiad Annibynnol Hackitt o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân: adroddiad interim bod ymddiriedaeth y cyhoedd yn system bresennol y rheoliadau adeiladu a'r system diogelwch tân wedi cael ei siglo, ac mae angen meithrin yr ymddiriedaeth hon o'r newydd gyda system  fwy tryloyw lle y mae preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Adroddodd nifer o breswylwyr eu bod yn teimlo'n rhwystredig am natur ysbeidiol a rhannol y wybodaeth sydd ar gael am ddiogelwch, ac roeddent yn dymuno gweld mwy o weithgarwch ymgynghori wrth wneud penderfyniadau.

Gall perthnasoedd gwael gyda rheolwyr adeiladau beri i lesddeiliaid deimlo'n gyndyn i fynegi pryderon am ddiogelwch tân.

## Cyfleoedd

Gall preswylwyr sy'n byw mewn adeiladau amlfeddiannaeth lle y ceir mwy o arweinyddiaeth diogelwch tân – hyd yn oed os nad ydynt yn cyflawni rolau arwain eu hunain, gael budd anuniongyrchol, trwy gyfrwng arferion a weithredir gan y rhai sy'n cyflawni rolau llywodraethu/arwain megis offer diogelwch tân gwell, archwiliadau, cyfathrebu a driliau gwacáu.

## Gwahaniaethau demograffig mewn ymddygiad diogelwch tân

Canfu adolygiad Llywodraeth Cymru bod nodweddion demograffig penodol yn gysylltiedig â mwy o berygl dioddef niwed oherwydd tanau mewn cartrefi.

Pobl hŷn sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef tanau yn y cartref ac anafiadau gan danau yn y cartref. Mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau megis problemau symudedd, amhariadau synhwyraidd (craffter golwg neu fyddardod), llai o allu gwybyddol, arwahanrwydd cymdeithasol, a allai arwain at amseroedd gwacáu arafach;  ac arferion ymddygiadol megis defnyddio dyfeisiau trydanol is-safonol.

Mae oedolion ifanc (18-24 oed) yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd anniogel mewn perthynas â thân.

Gallai plant fod mewn mwy o berygl o ddioddef anaf gan nad ydynt yn deall y perygl, ni fyddant wastad yn cael eu dihuno gan larymau mwg, ac efallai na fyddant yn gallu gadael heb gael cymorth. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth y gallai aelwydydd sy'n cynnwys plant fod yn fwy tebygol o ymarfer cynllun gwacáu.

O ran rhyw, canfu un astudiaeth bod menywod yn llai tebygol o gael cynllun gwacáu na dynion. Fodd bynnag, cyfeiriodd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref at waith ymchwil a gynhaliwyd yng Nghanada a oedd wedi canfod bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau sy'n oedi gwacáu oherwydd efallai y bydd dynion yn ceisio diffodd y tân eu hunain yn gyntaf, tra bod menywod yn tueddu i rybuddio eraill.

Mae'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan anfantais cymdeithasol-economaidd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai o ansawdd gwael, sy'n gallu cynyddu nifer y tanau neu anafiadau gan danau (oherwydd bod yr annedd ei hun, ardaloedd cymunol, larymau mwg neu lwybrau

dianc yn cael eu cynnal a'u cadw yn wael). Dangosodd astudiaeth yn Sweden, y cyfeiriwyd ati yn adolygiad y Swyddfa Gartref, bod tanau yn fwy tebygol o gychwyn yn yr aelwydydd sydd ar incwm uwch, a bod gallu aelwydydd incwm isel i atal tân rhag tyfu neu wacáu yn llai.

Mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn y DU yn cael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur gan orlenwi tai (sy'n cynyddu'r risg o ddioddef anaf os bydd tân yn cychwyn) ac maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan anfantais cymdeithasol-economaidd. Ond nid oedd llenyddiaeth y DU a adolygwyd wedi canfod cyswllt clir rhwng y risg uwch o ddioddef tân a pherthyn i leiafrif ethnig, ond roedd tystiolaeth ryngwladol wedi cyfeirio at gysylltiadau o'r fath. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod ethnigrwydd yn faes lle y gwelir bylchau arwyddocaol o ran y dystiolaeth, a lle y mae angen mwy o waith ymchwil.

Mae'r rhai sydd ag amhariadau corfforol neu feddyliol mewn mwy o berygl, yn enwedig o ddioddef anaf neu o farw os bydd tân, oherwydd efallai y byddant yn wynebu anawsterau wrth ymateb i arwyddion sy'n eu rhybuddio, larymau neu ddilyn gweithdrefnau gwacáu. Gallai amhariadau ar y golwg, y clyw neu'r lleferydd olygu nad ydynt yn adnabod ciwiau diogelwch tân e.e. larwm tân, mwg, cyfathrebu gan eraill, ac felly, bydd hyn yn oedi eu hymdrechion i gymryd camau i osgoi'r sefyllfa;  (daeth adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref i gasgliad tebyg). Mae angen mesurau ychwanegol ar rai pobl agored i niwed, megis cymhorthion symudedd, canllawiau, arwyddion cyffyrddadwy ac arwyddion Braille. Mae'r lenyddiaeth yn awgrymu ei bod yn hanfodol llunio cynlluniau gwacáu sy'n rhoi sylw i anghenion penodol pob amhariad.

Nododd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref rai astudiaethau a oedd yn archwilio'r dulliau gwacáu mwyaf effeithiol ar gyfer deiliaid hŷn ac sydd ag amhariad ar eu symudedd, a oedd yn amlygu pwysigrwydd diffoddwyr tân yn cynnig cymorth uniongyrchol i'r rhai na allant adael yr adeilad yn annibynnol, ac mai'r ffordd fwyaf effeithlon o'u cael allan oedd cael dau ddiffoddwr tân yn eu cynorthwyo gyda chymorth cadair grisiau (er y bydd deiliaid yn amharod i ddefnyddio offer gwacáu efallai). At hynny, canfu arolwg o bobl anabl yng Ngogledd Iwerddon, y cyfeiriwyd ato yn adolygiad y Swyddfa Gartref, ychydig iawn o ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio ardaloedd lloches 'oedi gwacáu' pe bai tân, a phryderon ynghylch pobl yn anghofio amdanynt a gorlenwi. Yn ogystal, amlygodd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth y Swyddfa Gartref ddiffyg tystiolaeth o werthuso effeithiol gwahanol grwpiau agored i niwed (ac eithrio pobl hŷn a'r rhai y mae eu symudedd yn gyfyngedig ac sydd â nam ar eu golwg).

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ddarn bach o waith ymchwil ansoddol archwiliadol yn ddiweddar (heb ei gyhoeddi) ar ffurf 12 o gyfweliadau manwl ar-lein gyda lesddeiliaid anabl ac o leiafrifoedd ethnig, gan amlygu rhai elfennau negyddol ynghylch diogelwch tân a brofwyd gan y bobl hyn, er nad ydynt yn gyfyngedig i'r grŵp hwn o reidrwydd. Canfu'r gwaith ymchwil nad oedd y lesddeiliaid hyn yn tueddu i gael deunydd cyfathrebu am ddiogelwch tân ac am eu hadeilad yn rheolaidd, a oedd yn gofiadwy, yn ddiddorol neu a oedd yn ymgysylltu â nhw;  ac nid oedd fawr ddim i gynnig sicrwydd iddynt bod landlordiaid neu reolwyr adeiladau wedi gweithredu cynlluniau digonol er mwyn eu diogelu. Nid oeddent

ychwaith yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am ddiogelwch tân. Teimlwyd y dylai landlordiaid a rheolwyr adeiladau ddarganfod a oes angen deunydd cyfathrebu wedi'i gyfieithu ar unrhyw lesddeiliaid neu a oes ganddynt anabledd corfforol neu feddyliol a allai amharu ar eu gallu i adael yr adeilad pe bai tân; yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn anabl i ddarganfod am ddiogelwch tân eu hunain.

## Dogfennau polisi allweddol

Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân y Fonesig Judith Hackitt

Mae Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladau a Diogelwch Tân Hackitt: wedi cyflawni rôl allweddol wrth lywio ymateb Llywodraeth Cymru a chenhedloedd eraill i drychineb Tŵr Grenfell. Nododd yr adolygiad bum agwedd ar ddiwylliant yr ymagwedd tuag at ddiogelwch adeiladau a oedd yn sail i ganlyniadau negyddol. Y rhain oedd:

anwybodaeth (o'r rheoliadau/canllawiau)

difaterwch (ac mai'r prif gymhelliant oedd gallu gwneud pethau mor gyflym ac mor rhad ag y bo modd)

diffyg eglurder am rolau a chyfrifoldebau

offerynnau gorfodi a goruchwylio rheoliadol annigonol

diffyg gwaith cadw cofnodion tryloyw ac sy'n cael eu diweddaru

Roedd yr adolygiad wedi gwneud rhai argymhellion manwl er mwyn gwella cam meddiannaeth adeilad.

Deiliad dyletswydd clir ac adnabyddadwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad cyfan. Yn ystod meddiannaeth a chyfnodau o waith cynnal a chadw, dylai'r deiliad dyletswydd gynnal diogelwch tân a diogelwch strwythurol yr adeilad cyfan, gan nodi a gwneud gwelliannau pan fo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol.

Gofyniad ar y deiliad dyletswydd i gyflwyno achos diogelwch i'r Cyd-awdurdod Cymwys (JCA) yn rheolaidd i archwilio bod risgiau i ddiogelwch yr adeilad yn cael eu rheoli gymaint ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Hawliau a rhwymedigaethau mwy clir i breswylwyr gynnal diogelwch tân aneddiadau unigol, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r deiliad dyletswydd. Bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o dryloywder o ran gwybodaeth a disgwyliad bod preswylwyr yn cynorthwyo'r deiliad dyletswydd i reoli'r risg ar draws yr adeilad cyfan.

Creu rheoleiddiwr ar gyfer yr adeilad cyfan (y JCA) mewn perthynas â diogelwch tân a diogelwch strwythurol yn ystod meddiannaeth, sy'n gallu cynnal golwg rhagweithiol a holistig o ddiogelwch yr adeilad a sicrhau bod dalwyr dyletswydd yn atebol gyda sancsiynau cadarn yn ôl yr angen.

Ymhelaethodd yr adolygiad ymhellach ynghylch argymhelliad (iii) sy'n ymwneud â hawliau a chyfrifoldebau preswylwyr, gyda'r nod o ailddatgan llais preswylwyr. Yr egwyddor allweddol oedd na ddylai unrhyw landlord na rheolwr adeilad fod yn gallu trin safbwyntiau a phryderon

preswylwyr gyda difaterwch. Roedd yr argymhellion ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eraill hefyd.

Sicrwydd – dylai dalwyr dyletswydd gynnig sicrwydd i breswylwyr mewn ffordd ragweithiol, bod haenau diogelwch cadarn a phriodol yn eu lle i'w cadw yn ddiogel yn eu cartrefi (h.y. trwy ddarparu gwybodaeth er mwyn esbonio'r haenau diogelwch;  yr hawl i gael mynediad i asesiadau risg tân, dogfennaeth achos diogelwch a gwybodaeth am gynnal a chadw;  a bod strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr mewn grym sy'n cefnogi egwyddorion tryloywder a phartneriaeth gyda phreswylwyr).

Atebolrwydd – pan na fydd y system yn gweithio, dylai fod llwybr clir ac annibynnol i gamau unioni fod ar gael i breswylwyr o bob deiliadaeth i gorff annibynnol sy'n gallu manteisio ar bwerau gorfodi, adnoddau a gwybodaeth briodol.

Cyfrifoldebau preswylwyr – dylai preswylwyr ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, dros eu diogelwch nhw a diogelwch eu cymdogion. Dylai'r deiliad dyletswydd roi gwybodaeth glir i breswylwyr am eu rhwymedigaethau;  a chyfleu'r rhesymeg dros fesur/penderfyniadau diogelwch. Er enghraifft, bydd angen i breswylwyr gydweithredu gyda'r deiliad dyletswydd i sicrhau bod modd cynnal archwiliadau diogelwch hanfodol, megis nwy neu adrannu (gyda rhybudd priodol). Mae rhwymedigaeth arnynt hefyd i sicrhau na fydd unrhyw waith y maent wedi'i gyflawni ar eu heiddo yn effeithio ar ddiogelwch yr adeilad a'u bod yn defnyddio crefftwyr cymwys.

## Rhaglen Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull gweithredu holistig yn ei hymateb i'r ymchwiliad cyhoeddus ac adolygiad Hackitt. Nid yn unig y mae'r Rhaglen Diogelwch Adeiladau yn ceisio diwygio'r ffordd y caiff adeiladau eu dylunio a'u hadeiladu, ond mae hefyd yn canolbwyntio ar y cam meddiannu. Ymgynghorodd Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023, ar newidiadau arfaethedig, yr oeddent yn cynnwys "ailwampio'n llwyr" y cam meddiannu, sy'n "gofyn am newid diwylliannol ac ymddygiadol sylweddol gan bawb sy'n ymwneud â hyn". Dywedodd y Papur, yn ystod y cam meddiannu, "mae cynnal dull cadarn ac effeithiol o ymdrin â diogelwch yn dal i fod yn hanfodol tra bydd adeilad wedi'i feddiannu er mwyn diogelu preswylwyr. Felly, rydym yn cynnig rôl deiliad dyletswydd tra bydd yr adeilad wedi'i feddiannu: sef y 'Person Atebol', y bydd ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol am ddiogelwch yr adeilad cyfan a ddefnyddir at ddibenion preswyl."  Mae'r Papur Gwyn yn cynnig bod y gyfundrefn ddiogelwch newydd yn cynnwys pob adeilad amlfeddiannaeth, yn rhai Categori 1 a Chategori 2, ac y byddai pob adeilad o fewn cwmpas y gyfundrefn, fel lleiafswm:

yn gorfod cofrestru – proses a fyddai'n nodi'r Person Atebol yn glir

yn cael asesiad risg tân blynyddol a gyflawnir gan unigolyn sy'n meddu ar gymhwyster addas

yn gorfod cofnodi canlyniadau'r asesiad risg tân.

Yn ddiofyn, cymrir mai'r Person Atebol yw'r Rhydd-ddeiliad. Fodd bynnag, gall y Rhydd-ddeiliad enwebu eraill i gyflawni eu dyletswyddau ar eu rhan, er enghraifft Asiant Rheoli. Bydd angen i'r person atebol drefnu bod rhywun yn cyflawni tasgau yn y gyfundrefn diogelwch adeiladau megis:

casglu gwybodaeth, cofnodi, ac adolygu

cynllunio a monitro gwaith gwella

sicrhau bod contractwyr a gweithwyr trydydd parti yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau gofynnol er mwyn cyflawni'r gwaith ar yr adeilad

cynnal perthnasoedd a chyfathrebu gyda deiliaid dyletswydd eraill a'r rheoleiddiwr

ymgysylltu â phreswylwyr.

Mae Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru yn nodi (ym Mhenodau 7 ac 8) rolau a chyfrifoldebau preswylwyr a Phersonau Atebol. Yr egwyddorion yw rhoi mwy o lais i breswylwyr, a'u grymuso i gael mwy o gyfle i fynegi eu barn am y materion sy'n effeithio ar eu cartrefi a chynnig sianelau clir iddynt godi eu llais;  ac nid yw hi'n ddigon darparu sianelau cwyno yn unig, rhaid bod deiliaid dyletswydd yn gallu dangos bod gweithgarwch ymgysylltu gyda phreswylwyr yn rhagweithiol, yn ystyrlon ac yn gydweithredol. Mae preswylwyr hefyd yn cyflawni rôl allweddol wrth gynorthwyo i wella diogelwch adeiladau, gan rybuddio'n gynnar pan fydd risgiau yn codi a chymryd camau i gynorthwyo deiliaid dyletswydd i gynnal adeilad diogel.

Bydd gan Bersonau Atebol gyfrifoldebau newydd, y byddant yn gwella hawliau preswylwyr yn ystod y cyfnod meddiannu. Bydd gan Bersonau Atebol rôl allweddol i hyrwyddo diogelwch adeilad i breswylwyr, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn ffordd hygyrch ac y gellir ei deall yn hawdd.

Dylai Personau Atebol sicrhau, fel isafswm, y darparir y wybodaeth ganlynol i breswylwyr:

mesurau diogelwch tân – drysau tân, chwistrellwyr, rhwystrau tân, llwybrau dianc

cyngor am yr hyn i'w wneud os bydd tân/os bydd y larwm tân yn canu

cyngor am ddiogelwch tân – megis diogelwch trydanol, storio deunyddiau peryglus, neu beidio defnyddio barbeciwiau ar falconïau

esboniad o rôl y Person Atebol a'r disgwyliadau ar breswylwyr (e.e. adrannu, caniatáu mynediad ar gyfer materion/archwiliadau diogelwch tân, peidio ymyrryd ag offer diogelwch tân)

caniatáu i breswylwyr ofyn am wybodaeth ychwanegol am ddiogelwch adeilad e.e. asesiadau risg tân, archwiliadau diogelwch adeilad, amserlenni cynnal a chadw a thrwsio ac ati (gyda gwahaniaethau ar gyfer adeiladau categori 1 a 2)

datblygu a chyflwyno strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr – mae hwn yn ofyniad ychwanegol ar gyfer adeiladau categori 1, a ddylai sicrhau cyfathrebu dwyffordd effeithiol er mwyn cynnwys preswylwyr wrth wneud penderfyniadau am waith diogelwch sylweddol ar yr adeilad

rheoli cwynion a phryderon i breswylwyr mewn ffordd weithredol – pennu proses er mwyn mynegi pryderon am ddiogelwch adeilad, yn ogystal â pherfformiad y Person Atebol; a phroses er mwyn uwchgyfeirio cwynion i'r rheoleiddiwr diogelwch adeiladau os na lwyddir i ddatrys y gŵyn yn fewnol.

Mewn perthynas â phreswylwyr sydd ag amhariadau symudedd, synhwyraidd neu wybyddol, y gallent ei chael hi'n anodd gadael yr adeilad heb gymorth, bydd angen i ddiffoddwyr tân eu hachub os bydd tân a bydd angen iddynt wybod eu lleoliad (rhif y fflat a'r llawr). Mae Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru yn cynnig y dylai'r rhai sydd ag anabledd neu gyflwr meddygol gael yr hawl i roi'r manylion hyn i'r Person Atebol, ac y byddai dyletswydd ar yr unigolyn hwn i'w coladu yn syth a'u rhoi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer adegau pan fyddai angen gwacáu'r adeilad.

Bydd gan breswylwyr gyfrifoldebau hefyd a gynlluniwyd i leihau ymddygiad peryglus gymaint ag y bo modd. Fel y mae Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru yn nodi, "Yn achos y mwyafrif helaeth o danau, ni waeth y lleoliad, ymddygiad anniogel pobl sy'n gallu arwain neu gyfrannu at danau a'u difrifoldeb, neu effeithiolrwydd gweithdrefnau gwacáu er enghraifft. Lle mae ymddygiad sy'n achosi tân mae'n anodd deddfu dros newid; dim ond mewn partneriaeth â phreswylwyr y gellir cyflawni newid. Drwy feithrin perthynas wirioneddol â phreswylwyr, gellir meithrin gwell dealltwriaeth o'u cyfraniad at ddiogelwch adeiladau." Yn ychwanegol i'w cyfrifoldebau presennol, ar gyfer adeiladau amlfeddiannaeth, cynigiwyd y cyfrifoldebau newydd canlynol i breswylwyr:

cydweithredu gyda'r Person Atebol (neu eu Hasiant Rheoli neu eu Rheolwr Diogelwch Adeilad penodedig) i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â diogelwch adeilad

cynnig mynediad i'w heiddo er mwyn cynnal archwiliad diogelwch neu waith

darparu gwybodaeth am waith a gyflawnir yn eu heiddo

ceisio caniatâd ymlaen llaw i wneud gwaith a fyddai'n debygol o gyd-fynd â mesurau diogelwch tân.

Yn ogystal, bydd preswylwyr yn gyfrifol am beidio torri trefniadau adrannu yn eu heiddo mewn ffordd fwriadol. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu y byddai preswylwyr, contractwyr neu landlordiaid cyfryngol yn cael eu hatal rhag cyflawni unrhyw rai o'r canlynol:

drilio trwyddo, neu fel arall mynd trwyddo wal allanol heb ddefnyddio rhwystr tân digonol

drilio trwyddo, neu fel arall mynd trwyddo waliau mewnol neu nenfydau heb ddefnyddio rhwystr tân digonol

disodli drysau tân gyda drysau cyffredin

ymyrryd gyda neu dynnu dyfeisiau ymgaeol oddi ar ddrysau tân

addasu drysau tân trwy, er enghraifft, osod blychau llythyrau neu fflapiau cath

gosod ffenestri neu dyllau aer ar ffenestri nad ydynt yn atal tân rhag lledaenu mewn ffordd ddigonol.

## Canllawiau diogelwch tân y Llywodraeth

Isod, rhoddir crynodeb byr o'r canllawiau diogelwch tân a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref, Fire Safety in purpose-built blocks of flats yn nodi bod "tebygolrwydd tân yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan ffactorau cymdeithasol a ffordd o fyw. Y ffactorau hyn, yn fwy nag unrhyw ffactor arall, sy'n arwain at nifer anghymesur o danau (a marwolaethau o ganlyniad i danau) mewn blociau o fflatiau." Nodir mai'r bobl mwyaf agored i niwed yw "pobl hŷn neu anabl, pobl dan anfantais gymdeithasol a'r rhai sy'n cam-drin cyffuriau neu alcohol." Rhannau E, F a G y canllawiau yw'r rhai mwyaf perthnasol ar gyfer yr adolygiad tystiolaeth hwn, gan eu bod yn disgrifio sut y gellir gweithredu mesurau diogelwch tân amrywiol er mwyn lleihau'r risg.

Mae gan Lywodraeth yr Alban ganllawiau tebyg, sef "Practical Fire safety – existing high rise domestic buildings: guidance", sy'n manteisio ar gynnwys y canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer Lloegr (yn unol â chanllawiau y Swyddfa Gartref, a ddisgrifir uchod. Mae'r egwyddorion a'r cyngor yng nghanllawiau Llywodraeth Yr Alban yn cyd-fynd yn agos â'r hyn sydd yng nghanllawiau y Swyddfa Gartref.

Mae GOV.UK yn darparu casgliad o ganllawiau diogelwch tân ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl.

Fire Safety in the Home.

Fire Safety in Flats.

Fire Safety for people with sight, hearing or mobility issues..

## Rheoliadau newydd

Yn Lloegr, mae Rheoliadau Diogelwch Tân 2022 yn cyflwyno dyletswyddau newydd dan y Gorchymyn Diogelwch Tân i berchnogion a rheolwyr adeiladau. Lluniwyd taflenni ffeithiau amrywiol er mwyn esbonio'r dyletswyddau dan wahanol benawdau. Mae Taflen Ffeithiau: Gwybodaeth i breswylwyr (rheoliad 9) yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol o 23 Ionawr 2023, bod personau cyfrifol adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn Lloegr, sydd â dwy set neu fwy o eiddo domestig, ac y mae ganddynt rannau cyffredin, yn rhoi cyfarwyddiadau diogelwch tân i breswylwyr, mewn ffurf y mae'n rhesymol disgwyl iddynt ei deall. Dylai'r rhain gynnwys cyfarwyddiadau am:

sut i adrodd am dân

nodyn i'w hatgoffa o'r strategaeth wacáu ar gyfer yr adeilad hwnnw

unrhyw gyfarwyddyd arall sy'n dweud wrth breswylwyr yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud pan fydd tân, ar sail strategaeth wacáu yr adeilad.

Dylai personau cyfrifol ddangos y cyfarwyddiadau hyn yn glir yn ardaloedd cymunol eu hadeilad a'u rhannu yn uniongyrchol gyda phreswylwyr pan fyddant yn symud i mewn i'r adeilad. Bydd angen darparu'r wybodaeth hon eto yn yr ardal gymunol ac i breswylwyr pan

gaiff dogfen ei diweddaru. Rhaid darparu'r wybodaeth hon eto i breswylwyr bob blwyddyn hefyd.

Yn yr Alban, ym mis Chwefror 2022, pasiwyd yn y gyfraith y bydd yn rhaid i bob cartref yn yr Alban gael larymau tân cydgysylltiol, a bydd perchnogion eiddo yn gyfrifol am fodloni'r safon newydd. Rhaid i bob cartref gael larymau cydgysylltiol wedi'u gosod ar y nenfwd, fel a ganlyn:

un larwm mwg yn yr ystafell fyw, neu'r ystafell a ddefnyddir fwyaf

un larwm mwg ym mhob cyntedd a landin

un larwm gwres yn y gegin

synhwyrydd carbon monocsid, os oes ganddynt ddyfais sy'n rhedeg ar danwydd carbon.

# Atodiad D – Proffil o'r segmentau

**Deall y Segmentau**

Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno amlder y mesurau a ddefnyddiwyd er mwyn creu'r segmentau, fesul grŵp segment.

Yn y tablau, mae celloedd glas yn dynodi eu bod lawer yn uwch na'r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd, ac mae'r rhai pinc yn dynodi eu bod lawer yn is.

**Tabl D.1 Ymgysylltu dinesig: Canran a oedd wedi ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol yn ystod y 12 mis diwethaf**

| Gweithgarwch | Cyfans wm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llofnodi deiseb | 33% | 35% | 37% | 43% | 17% | 8% | 29% |
| Gwirfoddoli gydag elusen neu wasanaeth lleol | 16% | 14% | 17% | 21% | 13% | 3% | 20% |
| Cysylltu â chynrychiolydd etholedig lleol (fel AS neu gynghorydd lleol) | 12% | 12% | 14% | 18% | 4% | 2% | 7% |
| Cael cyswllt gyda phwyllgor sy'n ymwneud â materion yn eich adeilad, eich datblygiad neu'ch ystad | 7% | 10% | 4% | 11% | 3% | 1% | 6% |
| Cael cyswllt gyda grŵp sy'n ymwneud â gwasanaethau lleol neu broblemau yn yr ardal leol | 6% | 7% | 6% | 7% | 3% | 2% | 4% |
| Mynychu cyfarfod cyhoeddus am wasanaethau lleol neu broblemau yn yr ardal leol | 5% | 4% | 5% | 6% | 4% | 0% | 6% |
| Mynychu rali gyhoeddus | 4% | 3% | 4% | 6% | 3% | 1% | 6% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefyll a/neu wasanaethu fel cynghorydd lleol | 0.2% | 0.2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 2% |
| Sylfaen = 100% | 1562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

B1: Pa rai o'r gweithgareddau canlynol yr ydych chi wedi'u cyflawni dros y 12 mis diwethaf? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.2 Canran sy'n ymddiried yn y llywodraeth ac mewn sefydliadau**

| Gweithgarwch | Cyfans wm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Leol | 36% | 8% | 6% | 70% | 93% | 71% | 43% |
| Cyngor lleol | 30% | 7% | 3% | 59% | 90% | 61% | 26% |
| Gwasanaeth tân | 90% | 89% | 82% | 95% | 96% | 92% | 91% |
| Arweinwyr crefyddol yn y gymuned | 17% | 12% | 3% | 24% | 43% | 19% | 28% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

B2: Faint ydych chi yn ymddiried yn y canlynol (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.3 Canran sy'n cytuno gyda datganiadau am reolwyr eu hadeilad**

| | Cyfans wm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rydw i'n darllen llythyrau neu hysbysiadau y byddaf yn eu cael am yr hyn sy'n digwydd yn fy adeilad | 82% | 84% | 73% | 91% | 91% | 67% | 77% |
| Mae gennyf berthynas dda gyda fy landlord * | 65% | 76% | 48% | 66% | 88% | 63% | 67% |
| Mae gennyf berthynas dda gyda'r sefydliad sy'n rheoli fy adeilad ** | 46% | 49% | 37% | 50% | 67% | 42% | 42% |
| Caiff fy adeilad ei gynnal a'i gadw yn dda ar y cyfan | 65% | 82% | 35% | 73% | 90% | 55% | 64% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae fy landlord / darparwr tai yn rhoi gwybod i mi am bethau sy'n bwysig i mi * | 63% | 74% | 44% | 64% | 93% | 60% | 56% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

B3: I ba raddau y byddech chi'n dweud eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562; * rhentwyr cymdeithasol neu breifat, n=1,128; ** rhentwr preifat neu lesddeiliad, n=727)

**Tabl D.4 Canran sy'n cytuno gyda datganiadau am gyfrifoldeb tân**

| | Cyfans wm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae cyfrifoldeb arnaf i gymryd camau i leihau risg tân yn fy nghartref | 92% | 98% | 88% | 99% | 96% | 61% | 82% |
| Pe bai tân yn cychwyn yn fy nghegin, rydw i'n gwybod pa gamau y byddwn yn eu cymryd er mwyn ceisio ei ddiffodd | 84% | 98% | 75% | 86% | 92% | 58% | 76% |
| Rydw i'n teimlo'n hyderus y byddai'r holl bobl yn fy aelwyd a minnau yn gallu gadael fy adeilad yn ddiogel pe bai tân | 70% | 91% | 50% | 68% | 91% | 55% | 71% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

D2: I ba raddau y byddech chi'n dweud eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.5 Canran sy'n ymddwyn mewn ffyrdd sy'n ymwneud â diogelwch tân**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio canhwyllau a fflamau agored eraill yn ddiogel | 70% | 70% | 70% | 71% | 64% | 79% | 62% |
| Cadw llwybrau dianc yr adeilad yn glir | 65% | 82% | 48% | 64% | 81% | 66% | 50% |
| Defnyddio barbeciw mewn ffordd ddiogel | 44% | 45% | 47% | 30% | 41% | 66% | 56% |
| Cynnal trefniant adrannu yr adeilad | 41% | 59% | 22% | 35% | 53% | 47% | 36% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

D4: Gan feddwl am eich cartref a'ch adeilad, pa mor hyderus ydych chi eich bod yn gallu cyflawni'r pethau canlynol? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.6 Canran sy'n ymddwyn mewn ffyrdd peryglus o ran diogelwch tân, 'bob amser' neu'n 'aml'**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio mwy nag un lîd estyn yn yr un soced | 8% | 3% | 8% | 4% | 8% | 1% | 42% |
| Ysmygu yn fy nghartref | 7% | 3% | 11% | 2% | 5% | 13% | 14% |
| Cadw eitemau personol mawr, fel beiciau, pramiau neu sgwteri symudedd, mewn mannau cymunol/a rennir yn yr adeilad | 6% | 4% | 6% | 2% | 7% | 7% | 29% |
| Gadael bagiau sbwriel y tu allan i'm fflat cyn mynd i lawr â nhw i'r safle gwaredu gwastraff | 5% | 1% | 6% | 0% | 12% | 2% | 29% |
| Addurno mannau cymunol yn fy adeilad e.e. rhoi rygiau, goleuadau neu eitemau addurniadol yno | 4% | 3% | 2% | 2% | 4% | 3% | 29% |
| Dal drysau tân ar agor mewn mannau cymunol/a rennir yn fy adeilad | 3% | 1% | 1% | 1% | 6% | 5% | 23% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

E2: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, yr ydych chi'n eu gwneud? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.7 Canran sy'n ymddwyn mewn ffyrdd peryglus o ran diogelwch tân, 'o leiaf unwaith y mis'**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnau canhwyllau neu arogldarth yn eich cartref | 40% | 30% | 53% | 41% | 21% | 39% | 52% |
| Coginio bwyd ar ôl yfed alcohol | 13% | 11% | 12% | 14% | 3% | 6% | 35% |
| Coginio gan ddefnyddio sosban sglodion | 10% | 6% | 7% | 5% | 17% | 31% | 23% |
| Cael tân agored, neu ddefnyddio gwresogyddion ystafell annibynnol | 8% | 1% | 13% | 5% | 6% | 11% | 20% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

E3: A pha mor aml, os o gwbl, yr ydych chi'n cyflawni unrhyw rai o'r canlynol? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.8 Canran sydd wedi ymddwyn mewn ffyrdd mwy peryglus o ran diogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi tynnu'r batris allan o larwm tân er mwyn ei atal rhag canu | 1.4% | 0% | 1.2% | 1.4% | 0.8% | 0% | 10.8% |
| Gorchuddio larwm tân er mwyn ei atal rhag synhwyro mwg | 0.8% | 0% | 0% | 1.4% | 0% | 0.8% | 6.9% |
| Difrodi neu ymyrryd â drws tân | 0.8% | 0.2% | 0.5% | 0.8% | 0% | 0% | 5.9% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio diffoddwr tân pan nad oedd unrhyw berygl tân | 0.2% | 0% | 0% | 0% | 0.8% | 0% | 2.9% |
| Difrodi neu ymyrryd â synhwyrydd gwres | 0.2% | 0.2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 2.9% |
| Difrodi neu ymyrryd â diffoddwr(diffoddwyr) tân | 0.2% | 0.2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 2.0% |
| Gosod blwch llythyrau neu fflap cath mewn drws tân | 0.2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 2.9% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

E4: Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, yr ydych chi wedi eu gwneud yn eich cartref neu'ch adeilad? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

Demograffeg

Yn y tablau, mae celloedd glas yn dynodi eu bod lawer yn uwch na'r sgôr ymhlith yr holl breswylwyr a holwyd, ac mae'r rhai pinc yn dynodi eu bod lawer yn is.

**Tabl D.9 Grŵp oedran**

| | Cyfans wm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18-24 | 11% | 8% | 15% | 11% | 9% | 11% | 14% |
| 25-34 | 25% | 19% | 27% | 28% | 19% | 24% | 37% |
| 35-44 | 15% | 13% | 16% | 15% | 22% | 19% | 13% |
| 45-54 | 12% | 10% | 16% | 8% | 12% | 17% | 13% |
| 55-64 | 14% | 20% | 12% | 11% | 18% | 13% | 9% |
| 65-74 | 12% | 18% | 7% | 14% | 11% | 10% | 6% |
| 75+ | 9% | 12% | 6% | 12% | 8% | 6% | 9% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

S5: Beth yw eich oedran chi? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.10 Rhyw**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 46% | 54% | 39% | 41% | 54% | 43% | 47% |
| Gwrywaidd | 49% | 40% | 55% | 55% | 40% | 51% | 44% |
| Gwahanol o'r rhyw y cawsoch eich cofrestru ar eich genedigaeth | 1% | 1% | 1% | 2% | 2% | 1% | 1% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

K3: Beth yw eich rhyw, fel y cawsoch eich cofrestru ar eich genedigaeth / K4: A yw eich rhyw yr un fath â'r rhyw y cawsoch eich cofrestru ar eich genedigaeth? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.11 Cyfansoddiad yr aelwyd**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byw gyda phartner/cymar | 31% | 28% | 29% | 35% | 33% | 31% | 35% |
| Byw gyda phlentyn(plant) dan 16 oed | 9% | 5% | 10% | 8% | 15% | 9% | 10% |
| Byw gyda phlentyn(plant) dros 16 oed | 2% | 1% | 3% | 3% | 3% | 3% | 4% |
| Byw gydag aelod(au) arall(eraill) o'r teulu | 2% | 1% | 1% | 1% | 5% | 3% | 3% |
| Byw gyda ffrind(iau) / cydletywr(cydletywyr) | 4% | 3% | 4% | 5% | 0% | 3% | 9% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rydw i'n byw ar fy mhen fy hun | 55% | 61% | 57% | 54% | 46% | 55% | 39% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

K1: Gan feddwl am aelodau eich aelwyd, pa rai o'r canlynol sy'n wir? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.12 Statws anabledd**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anabledd, cyflwr neu salwch tymor hir | 33% | 32% | 38% | 30% | 30% | 40% | 25% |
| Dim anabledd | 60% | 61% | 56% | 65% | 60% | 52% | 70% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

K12: A oes gennych chi anabledd, salwch neu gyflwr iechyd tymor hir? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.13 Cenedligrwydd**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinesydd Prydeinig | 71% | 77% | 74% | 76% | 42% | 58% | 61% |
| Dinesydd nad yw'n Ddinesydd Prydeinig | 11% | 6% | 9% | 11% | 29% | 15% | 14% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

K5: Sut fyddech yn disgrifio eich cenedligrwydd? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.14 Ethnigrwydd**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig, Gwyddelig, neu unrhyw gefndir Gwyn arall | 83% | 87% | 86% | 83% | 64% | 76% | 77% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 6% | 4% | 3% | 5% | 17% | 8% | 8% |
| Grwpiau ethnig lluosog neu gymysg | 4% | 3% | 4% | 4% | 4% | 3% | 4% |
| Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 3% | 2% | 1% | 4% | 8% | 3% | 2% |
| Grŵp ethnig arall | 6% | 4% | 5% | 4% | 7% | 11% | 9% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

K7: Sut fyddech chi yn disgrifio eich ethnigrwydd? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.15 Statws cyflogaeth**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwaith amser llawn am dâl (35 awr yr wythnos neu fwy) | 39% | 39% | 41% | 43% | 28% | 28% | 46% |
| Gwaith rhan-amser am dâl | 10% | 9% | 11% | 9% | 14% | 13% | 11% |
| Di-waith ac yn chwilio am waith | 4% | 3% | 4% | 4% | 8% | 8% | 4% |
| Di-waith a heb fod yn chwilio am waith | 1% | 0.2% | 2% | 1% | 1% | 3% | 1% |
| Methu gweithio (oherwydd iechyd neu anabledd) | 14% | 10% | 19% | 9% | 18% | 21% | 9% |
| Gofalwr neu gydlynydd y cartref | 2% | 2% | 3% | 1% | 2% | 1% | 4% |
| Myfyriwr amser llawn | 5% | 4% | 5% | 6% | 8% | 5% | 6% |
| Wedi ymddeol | 20% | 28% | 11% | 26% | 18% | 14% | 13% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

K10: Ar hyn o bryd, beth ydych chi'n treulio rhan fwyaf o'ch amser yn ei wneud? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

Nodweddion deiliadaeth ac adeilad

**Tabl D.16 Deiliadaeth**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn berchen ar y cartref (yn llwyr neu gyda morgais/benthyciad) | 24% | 31% | 17% | 31% | 14% | 12% | 25% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyd-berchnogaeth | 1% | 1% | 2% | 2% | 3% | 0% | 3% |
| Rhentu gan ALI/cyngor neu gymdeithas tai cymdeithasol | 28% | 24% | 33% | 20% | 43% | 41% | 21% |
| Rhentu gan landlord preifat | 45% | 43% | 48% | 47% | 40% | 44% | 45% |
| Byw heb dalu rhent | 0.4% | 0.5% | 0.5% | 0.3% | 0% | 0% | 2% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

A3: A ydych chi a/neu aelod arall o'r aelwyd yn berchen ar neu'n rhentu'r cartref hwn? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

Mae categori adeilad yn ddosbarthiad o adeiladau sy'n seiliedig ar risg, ar sail uchder yr adeilad/nifer y lloriau. At ddibenion yr ymchwil hwn, os bydd preswylydd yn adrodd bod eu hadeilad yn 7 llawr neu fwy (18m neu'n uwch), caiff ei ddosbarthu fel adeilad categori 1. Os yw'n 6 llawr neu'n llai (dan 18m), caiff ei ddosbarthu fel adeilad categori 2.

**Tabl D.17 Categori yr adeilad**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori 1 | 10% | 10% | 11% | 11% | 9% | 10% | 4% |
| Categori 2 | 88% | 90% | 87% | 88% | 86% | 88% | 95% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

I3: Sawl llawr sydd i'r adeilad yr ydych chi'n byw ynddo? (Gan gynnwys y llawr gwaelod) (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)

**Tabl D.18 A oes cladin fflamadwy ar yr adeilad (adroddwyd gan breswylwyr)**

| | Cyfanswm | Hunanddibynnol | Pryderus ond gydag amheuon | Diogel a chysurus | Bodlon ac ymddiriedus | Heb fod yn ymgysylltu | Anniogel ac anweithredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oes | 7% | 7% | 6% | 8% | 3% | 5% | 8% |
| Nac oes | 50% | 61% | 45% | 52% | 36% | 42% | 46% |
| Dim Syniad | 43% | 32% | 49% | 40% | 60% | 53% | 46% |
| Sylfaen = 100% | 1,562 | 433 | 421 | 368 | 119 | 119 | 102 |

A4: A oes cladin fflamadwy ar eich adeilad ar hyn o bryd? (Holl ymatebwyr i'r arolwg, n=1,562)